Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

| GŴYS A RHAGLEN | SUMMONS AND AGENDA |
|---|---|
| ar gyfer | for a |
| CYFARFOD O GYNGOR SIR YNYS MÔN | MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL |
| a gynhelir yn | to be held at the |
| SIAMBR Y CYNGOR SWYDDFA'R SIR LLANGEFNI | COUNCIL CHAMBER COUNCIL OFFICES LLANGEFNI |
| DYDD MAWRTH, 11 RHAGFYR 2018 | TUESDAY 11 DECEMBER 2018 |
| am 2.00 o'r gloch | at 2.00 pm |

# R H A G L E N

1. **COFNODION**

Cyflwyno, i'w cymeradwyo, gofnodion drafft cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

- 25 Medi 2018
- 22 Hydref 2018 (Arbennig)

2. **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3. **DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR**

4. **CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD YN UNOL Â RHEOL 4.1.12.4 Y CYFANSODDIAD**

I gyflwyno'r cwestiwn canlynol o rybudd gan y Cynghorydd Robert Ll Jones i'r Cynghorydd Carwyn Jones, Deilydd Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygiadau Economaidd:-

*"Cafodd dinistriad Marina Caergybi effaith sylweddol ar y dref. Pa gamau ydych chi wedi eu cymryd er mwyn cwblhau'r gwaith clirio gan fod nifer fawr o bontynau gyda rhannau tew o arnofion polystyrene yn parhau ger traethlin Traeth Newry. Ai Stena Line ta Conygar sy'n gyfrifol am y gwaith hwn?"*

5. **RHYBUDD O GYNNIG YN UNOL Â RHEOL 4.1.13.1 Y CYFANSODDIAD**

I gyflwyno'r Rhybudd o Gynigiad canlynol gan y Cynghorwyr Bryan Owen a Peter Rogers:-

*"Mae angen i ni drafod difrifoldeb galw materion i mewn, ac nad yw pobl yn cael eu cyfeirio atynt yn y Wasg fel rhai sy'n 'dangos eu hunain' pan fyddant yn galw mater i mewn".*

6. **CYFLWYNO DEISEBAU**

Derbyn unrhyw ddeiseb yn unol â Pharagraff 4.1.11 y Cyfansoddiad.

7. **CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR 2019/20**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 26 Tachwedd 2018.

8. **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU – CYLCH GORCHWYL DIWYGIEDIG**

Cyflwyno adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 a’r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, fel y’i cyflwynwyd i’r Pwyllgor Gwaith ar 29 Hydref 2018.

**9. NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD – DIWYGIO'R CÔD YMDDYGIAD I SWYDDOGION / ARWEINIAD LLEOL AR Y CÔD YMDDYGIAD I SWYDDOGION**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro fel y’i cyflwynwyd i’r Pwyllgor Gwaith ar 29 Hydref 2018.

**10. POLISI GAMBLO**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd fel y’i cyflwynwyd i’r Pwyllgor Gwaith ar 26 Tachwedd 2018.

**11. GWEDDARLLEDU PWYLLGORAU SGRIWTINI**

- Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

- Adrodd bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ei gyfarfod ar 27 Tachwedd 2018 wedi **PENDERFYNU argymell peidio â newid y trefniadau gweddarlledu presennol.**

**12. CYFRANIAD Y CYHOEDD I GYFARFODYDD**

- Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

- Adrodd bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ei gyfarfod ar 27 Tachwedd 2018 wedi **PENDERFYNU argymell peidio newid Cyfansoddiad y Cyngor.**

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Medi 2018

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Margaret M Roberts (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, John Griffith, Glyn Haynes, K P Hughes, T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, Eric Wyn Jones, G O Jones, R Ll Jones, R Meirion Jones, R O Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, Shaun James Redmond, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Dafydd Rhys Thomas ac Ieuan Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau),<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes),<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Prif Swyddog Prisio (TDE),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Richard A Dew, Richard Griffiths, Bob Parry OBE FRAgS, J Arwel Roberts, Robin Williams. |

**1. COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfodydd canlynol Cyngor Sir Ynys Môn fel rhai cywir :-

- 15 Mai, 2018
- 15 Mai, 2018 (Cyfarfod Blynyddol)
- 7 Mehefin, 2018 (Arbennig)
- 16 Gorffennaf, 2018 (Arbennig)

**2. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Datganodd y Cynghorydd Llinos M Huws ddiddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 13 – Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2018 – 2028.

Datganodd y Cynghorydd Eric W Jones ddiddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 4 – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru : Diweddariad Ariannol ac Ymgynghoriad 2019-20.

Datganodd y Cynghorydd Dylan Rees ddiddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 4 – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru: Diweddariad Ariannol ac Ymgynghoriad 2019-20.

**3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR**

Gwnaeth y Cadeirydd y cyhoeddiadau a ganlyn :-

- Llongyfarchiadau i'r rhai oedd yn llwyddiannus yn yr Eisteddfod Genedlaethol, Sioe Frenhinol Cymru a Sioe Môn yn ddiweddar;
- Llongyfarchiadau i ddisgyblion ysgolion uwchradd a lwyddodd yn eu harholiadau TGAU a Lefel A;
- Llongyfarchiadau i ddisgyblion o Flwyddyn 11 Ysgol Gyfun Llangefni fu'n cystadlu yn y gystadleuaeth 'Fformiwla 1 i Ysgolion' yn Singapore yn ddiweddar. Roedd y Cadeirydd yn falch o adrodd bod Ysgol Gyfun Llangefni wedi ennill y wobr 'Ferrari Best Team Identity'.
- Llongyfarchiadau i Mr Pete Roberts a Cai Roberts, gŵr a mab y Cynghorydd Nicola Roberts fu'n cynrychioli Cymru mewn cystadleuaeth saethu yn ddiweddar;
- Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Robert Ll Jones a'i wraig Mrs Gillian Jones fydd yn dathlu eu Pen-blwydd Priodas Aur ar 30 Medi;
- Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Aled M Jones sydd wedi cael ei benodi'n Llywydd Mudiad Ffermwyr Ifanc Ynys Môn.

Cyhoeddodd y Cadeirydd y bydd Sul y Cadeirydd yn cael ei gynnal yng Nghapel Moreia, Llangefni ar 14 Hydref, 2018.

* * * * *

Cydymdeimlwyd â'r Cynghorydd Robin Williams sydd wedi colli ei dad yn ddiweddar.

Cydymdeimlwyd â'r Cynghorydd Alun Mummery sydd wedi colli ei frawd yng nghyfraith yn ddiweddar.

Cydymdeimlwyd â'r Cynghorydd Eric W Jones sydd wedi colli ei chwaer yng nghyfraith yn ddiweddar.

Cydymdeimlwyd â theuluoedd y cyn Gynghorwyr Mr Gwyn Jones, Dwyran, Mr John Meirion Davies, Porthaethwy, Mr J V Owen, Caergybi a Mr Barrie Durkin a oedd yn cynrychioli ardal Benllech.

Cydymdeimlwyd ag unrhyw Aelod o'r Cyngor neu aelod o staff sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar.

Safodd yr Aelodau a Swyddogion am funud o dawelwch fel arwydd o'u cydymdeimlad.

## 4. AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU: DIWEDDARIAD ARIANNOL AC YMGYNGHORIAD 2019-20

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Meurig Ll Davies, Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, Ms Helen McArthur, Prif Swyddog Cynorthwyol (Adnoddau) a Ms Sian Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllun Corfforaethol) i roi cyflwyniad mewn perthynas â Diweddariad Ariannol ac Ymgynghoriad 2019/20 Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Cyflwynodd cynrychiolwyr Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru amlinelliad byr o'r ymgynghoriad cyhoeddus sy'n cael ei gynnal er mwyn annog pobl i fynegi eu barn ynglŷn â sicrhau gwasanaethau tân ac achub fforddiadwy, cyn i'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2019/20 gael ei gosod ym mis Rhagfyr 2018. Mae pob Cyngor Sir yng Ngogledd Cymru'n cyfrannu tuag at y gost o ddarparu gwasanaeth tân ac achub ac mae'r bwlch rhwng amcangyfrif o gostau'r Awdurdod yn 2019/20 a lefel y cyfraniadau ariannol gan Gynghorau yn 2018/19 wedi cyrraedd bron i £1.9m. Er bod yr holl wasanaethau cyhoeddus yn wynebu penderfyniadau ariannol anodd mae dyletswydd ar yr Awdurdod Tân ac Achub i sicrhau ei fod yn parhau i fod mor effeithlon â phosib a sicrhau ei fod yn darparu gwasanaethau tân ac achub sy'n cwrdd â disgwyliadau'r cyhoedd o ran lefel ac ansawdd heb gyflwyno elfen annerbyniol o risg. Adroddwyd bod arbedion effeithlonrwydd wedi eu gweithredu er mwyn newid y polisi mewn perthynas ag ymateb i larymau tân awtomatig ac achub anifeiliaid mawr ynghyd â rhoi pwyslais parhaus ar atal tanau. Nododd y Swyddogion bod Cyngor Sir Ynys Môn wedi cyfrannu £3,356,175 at Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn 2018/19, sy'n cyfateb i 10.02% o'r dyraniad. Rhagwelir y bydd angen cyfraniad ychwanegol o £190,272 gan yr Awdurdod hwn fyddai'n gynnydd o £6.53 yn y Dreth Gyngor ar gyfer eiddo cyfartalog Band D.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaed y pwyntiau a ganlyn :-

- Gofynnwyd am eglurhad ynglŷn â'r ymweliadau cartref a gynhelir gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru er mwyn gosod larymau tân. Dywedodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllun Corfforaethol) fod gwneud gwaith ataliol drwy gynnal ymweliadau cartref yn holl bwysig a phe bae'n rhaid i'r Gwasanaeth Tân ddelio â digwyddiad cyn cynnal ymweliad cartref ataliol, byddai'r gost yn llawer iawn uwch. Pwysleisiodd y dylid cael larwm tân ym mhob cartref ac mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn achub y blaen drwy osod larymau tân mewn cartrefi. Cyfeiriwyd hefyd at y cydweithio sy'n digwydd gydag Awdurdod yr Heddlu. Cyfeiriodd y Prif Swyddog Cynorthwyol at enghreifftiau o gydweithio gyda'r Heddlu h.y. cynorthwyo i chwilio am bobl fregus sydd ar goll, atal tanau bwriadol. Nododd bod cydweithio â'r Heddlu yn gallu lleihau costau ariannol y ddau wasanaeth;
- Gofynnwyd am eglurhad ynglŷn ag awgrym mewn ymgynghoriad blaenorol ar gyllideb Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru y byddai un o'r ddwy injan dân yn Wrecsam yn cael eu dileu. Dywedodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllun Corfforaethol) bod 2 injan dân llawn amser ac 1 rhan amser yn Wrecsam a ddwy flynedd yn ôl cododd cyfle i gael gwared ar un o'r rheini. Fodd bynnag, oherwydd cryfder barn y cyhoedd yn ardal Wrecsam ni weithredwyd ar y cynnig i leihau nifer yr injans tân yn Wrecsam.
- Er bod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi gwneud arbedion effeithlonrwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gofynnwyd a fyddai'r Awdurdod yn gallu gwneud unrhyw arbedion pellach gan fod yr awdurdodau lleol hefyd yn ei chael yn anodd canfod arbedion yn eu cyllidebau eu hunain. Dywedodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Adnoddau), tra ei bod yn cydnabod bod y sector cyhoeddus yn gorfod gwneud arbedion mawr, mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn wasanaeth statudol a rhoddwyd ystyriaeth i'r holl arbedion posib. Rhoddodd esiamplau o gydweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill. Cwestiynwyd ymhellach a fyddai modd gwerthu adeiladau sydd ym mherchnogaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub neu eu rhannu â gwasanaethau cyhoeddus eraill. Dywedodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Adnoddau) fod y Gwasanaeth Tân ac Achub yn rhannu Swyddog Rheoli Ystadau gyda Heddlu Gogledd Cymru ac mae cyfleuster ym Mhrestatyn yn cael ei ddefnyddio gan y ddau wasanaeth. Cyfeiriodd at enghraifft arall o gydweithio gyda'r Heddlu gan gyfeirio at ganolfan hyfforddi yn Nolgellau sydd angen ei huwchraddio fydd yn cael ei defnyddio gan y ddau wasanaeth;
- Gofynnwyd a oedd gwersi wedi cael eu dysgu yn dilyn trasiedi tân Tŵr Grenfell yn Llundain ac a allai cyfyngiadau ariannol fod yn ffactor sydd erbyn hyn yn gosod baich ariannol ar yr Awdurdodau Tân. Dywedodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Adnoddau) nad oes fflatiau uchel yng Ngogledd Cymru ar yr un raddfa ag a geir yn Llundain. Mae adnoddau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru mewn perthynas â fflatiau yn fychan iawn o gymharu ag ardaloedd eraill. Fodd bynnag, nododd y bydd newidiadau rheoliadol yn ymwneud ag archwiliadau tân yn deillio o'r ymchwiliad i drasiedi Tŵr Grenfell ond ar hyn o bryd mae'n ansicr o ble daw'r adnoddau ariannol mewn perthynas â'r newidiadau posib.

Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am fod yn bresennol yn y cyfarfod.

## 5. CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD YN UNOL Â RHEOL 4.1.12.4 Y CYFANSODDIAD

- Cyflwynwyd – y cwestiwn a ganlyn y rhoddwyd rhybudd ohono gan y Cynghorydd Peter Rogers i'r Cynghorydd Robin Williams, Deilydd Portffolio Cyllid :-

  *'Fe adawodd y diweddar Mr David Hughes a fu farw yn 1609 etifeddiaeth o dros 1,200 erw o dir i gefnogi Addysg ar yr Ynys. Yn 1887, roedd y gwaddol hwn yn cyfrannu £1,400 y flwyddyn. Faint wnaeth Addysg ar yr Ynys elwa o hwn llynedd?'*

  Yn absenoldeb y Deilydd Portffolio Cyllid, ymatebodd Arweinydd y Cyngor drwy ddweud fod y rhan fwyaf o'r gwariant yn 2016/17 mewn perthynas â Stad Mân-ddaliadau David Hughes, wedi cael ei ddefnyddio i wella adeiladau'r stad. Mae Gweithred Ymddiriedolaeth Stad Mân-ddaliadau David Hughes yn pennu na chaniateir defnyddio'r adnoddau a gynhyrchir gan y stad i gefnogi addysg yn gyffredinol ar yr Ynys. Yn 2017/18 rhoddwyd cyfraniad o £1,000 i ddisgyblion a chyn-ddisgyblion yn unol â meini prawf Stad David Hughes.

  Gofynnodd y Cynghorydd Peter Rogers a oedd y cyfraniad o £1,000 yn 2017/18 yn daliad unwaith ac am byth neu'n daliad blynyddol. Dywedodd yr Arweinydd fod y cyfraniad wedi ei wneud yn unol â thelerau Ymddiriedolaeth David Hughes.

## 6. RHYBUDD O GYNNIG YN UNOL Â RHEOL 4.1.13.1 Y CYFANSODDIAD

- Cyflwynwyd - y Rhybuddion o Gynnig a ganlyn gan y Cynghorwyr Aled M Jones, Kenneth P Hughes a Robert Llewelyn Jones :-

  - Cyflwynodd y Cynghorydd Aled M Jones y Rhybudd o Gynnig a ganlyn :-

  *“Dylid diwygio Cyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn i ganiatáu i aelodau unigol o’r cyhoedd a phartïon â diddordeb, h.y. Llywodraethwyr ysgol, annerch y Pwyllgor Gwaith neu Gabinet y Cyngor Sir.”*

  Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd K P Hughes.

  Dywedodd y Cynghorydd Dafydd R Thomas, Aelod Portffolio Corfforaethol, nad oes gan y Cyngor Sir awdurdod mewn perthynas â’r mater hwn. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro fod Arweinydd y Cyngor yn meddu ar yr hawl i ganiatáu i aelodau o’r cyhoedd annerch y Pwyllgor Gwaith ac nid yw’r Cyngor Sir yn gallu atal Arweinydd y Cyngor rhag ymarfer y disgresiwn hwnnw.

  Dywedodd yr Arweinydd ei bod yn fodlon fod llais y bobl wedi cael ei glywed yng nghyfarfodydd diweddar y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Nododd bod cyfle i unrhyw Aelod Etholedig ofyn am gael siarad ar ran eu cymunedau lleol yn y Pwyllgor Gwaith.

  Gofynnodd y Cynghorydd Shaun Redmond am eglurhad ynglŷn ag a oes gan yr Arweinydd yr hawl i ganiatáu siarad cyhoeddus yn y Pwyllgor Gwaith a’r Cyngor Llawn. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro fod gan yr Arweinydd yr hawl i ganiatáu siarad cyhoeddus yn y Pwyllgor Gwaith ond nid y Cyngor Llawn. Byddai modd i’r Cyngor llawn fabwysiadau cynllun siarad cyhoeddus ond ni fyddai’n bosib gorfodi’r Pwyllgor Gwaith i fabwysiadu cynllun o’r fath.

  **Yn y bleidlais a ddilynodd PENDERFYNWYD gwrthod y cynnig.**

  (Ataliodd y Cynghorwyr Glyn Haynes a Shaun Redmond eu pleidlais).

  - Cyflwynodd y Cynghorydd A M Jones y Rhybudd o Gynnig a ganlyn :-

  *“Dylid diwygio Cyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn fel bod y ddau Bwyllgor Sgriwtini yn cael eu gwe-ddarlledu.”*

  Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Shaun Redmond.

  Dywedodd y Cynghorydd Dafydd R Thomas, Deilydd Portffolio Corfforaethol, ei fod yn cefnogi’r cynnig ond ei fod yn dymuno cynnig gwelliant, sef bod y mater yn cael ei gyfeirio i’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ei ystyried ac adrodd yn ôl i’r Cyngor llawn.

  Eiliwyd y gwelliant gan y Cynghorydd R Ll Jones fel Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

  **Yn y bleidlais a ddilynodd PENDERFYNWYD derbyn y gwelliant i’r cynnig.**

  - Cyflwynodd y Cynghorydd A M Jones y Rhybudd o Gynnig a ganlyn :-

  *‘Dylid diwygio Cyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn i ganiatáu i rybuddion o gynigiad sydd wedi cael eu cyflwyno gan aelodau’r cyhoedd a’u cefnogi gyda llofnodion 50 o unigolion sy’n byw yn Ynys Môn gael eu trafod mewn cyfarfodydd o’r Cyngor llawn.”*

  Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd K P Hughes.

Dywedodd y Cynghorydd Dafydd R Thomas, Deilydd Portffolio Corfforaethol, ei fod yn dymuno cyflwyno gwelliant i'r cynnig, sef bod y mater yn cael ei gyfeirio i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ei ystyried ac adrodd yn ôl i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr.

Dywedodd y Cynghorydd A M Jones y byddai'n tynnu ei rybudd o gynnig yn ôl os yw'r mater yn cael ei ystyried gan y Cyngor llawn ym mis Rhagfyr.

**Yn y bleidlais a ddilynodd PENDERFYNWYD derbyn y gwelliant i'r cynnig.**

- Cyflwynwyd - y Rhybudd o Gynnig a ganlyn gan y Cynghorwyr Robert Llewelyn Jones a Bryan Owen :-

*"Yn wyneb y newidiadau sydd ar fin dyfod yn sgil Brexit, dylid sefydlu Panel er mwyn cael gwybodaeth ynghylch problemau posibl ac i bwyso ar Lywodraethau Cymru a Phrydain yr angen am ymagwedd gadarn er mwyn cefnogi'r diwydiannau hyn ar Ynys Môn ym mhob ffordd bosib.*

*(1) Y diwydiant ffermio sy'n gyflogwr pwysig iawn ar Ynys Môn.*
*(2) Porthladd Caergybi sydd eto'n gyflogwr mawr a fydd ar reng flaen unrhyw newidiadau.*
*(3) Wylfa Newydd, y Peilonau a'r hyn y bydd tynnu allan o'r Gymuned Economaidd Ewropeaidd yn ei olygu o ran cyllido'r prosiect a'i ddichonolrwydd.*

*Rydym ni'n cefnogi pobl Ynys Môn ac mae angen i ni ddangos ein bod yn deall eu pryderon ac yn eu cefnogi ym mhob ffordd bosib.*

*Rydym yn mynd i mewn i gyfnod anghyfarwydd ac mae'n rhaid i ni fel corff etholedig, gael ein gweld yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gynorthwyo'r diwydiannau pwysig iawn hyn ar Ynys Môn i oroesi a ffynnu wedi i ni adael y Gymuned Economaidd Ewropeaidd. Mae'n fater rhy bwysig i adael i adrannau eraill yn y Llywodraeth edrych ar ôl economi ein hynys yn y cyfnod ansicr hwn."*

Dywedodd y Cynghorydd R Ll Jones ei fod yn dymuno diolch yn y lle cyntaf i'r gynrychiolaeth o'r Cyngor hwn a ymwelodd â Dulyn ym mis Mehefin 2018 i gwrdd â swyddogion o Gyngor Sir Dulyn i drafod problemau posibl yn y porthladdoedd o ganlyniad i Brexit. Dywedodd fod pryderon yn bodoli oherwydd bod rhaid i gerbydau sydd yn teithio i borthladdoedd Cymru, ac yn gadael y porthladdoedd hynny, fedru teithio yn rhwydd heb orfod wynebu gwiriadau tollau. Dywedodd y Cynghorydd Jones y gallai gadael yr UE heb gytundeb arwain at osod tollau eithafol ar fusnesau lleol sy'n allforio nwyddau dros Fôr Iwerddon ac y gallai greu prinder o nwyddau sylfaenol.

Cynigiodd y Cynghorydd Jones fod Panel yn cael ei sefydlu gydag aelodau o bob plaid, yr Adran Datblygu Economaidd ac asiantaethau allanol er mwyn sicrhau fod gan y Cyngor hwn gynllun wrth gefn i ddelio â phob sefyllfa posib os nad oes cytundeb Brexit.

Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Bryan Owen.

Dywedodd y Cynghorydd Carwyn Jones, Deilydd Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd, fod y cyfarfod a gynhaliwyd yn Nulyn gyda chynrychiolwyr Cyngor Dinas Dulyn ym mis Mehefin 2018 wedi bod yn un addysgiadol iawn ac yn gyfle i'r ddwy ochr rannu eu pryderon ynglŷn â'r posibilrwydd o beidio cael cytundeb Brexit a chanlyniadau hynny. Dywedodd fod y berthynas rhwng Iwerddon ac Ynys Môn yn bwysig yn arbennig oherwydd cysylltiadau ym maes twristiaeth ac amaethyddiaeth. Dywedodd y Cynghorydd Jones fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'n ddiweddar y bydd rhaid cyflogi nifer o Weision Sifil i roi sylw i faterion megis y posibilrwydd o adael yr UE heb gytundeb a phroblemau fydd yn deillio o hynny. Hefyd, nododd fod trafodaethau yn digwydd gyda CLlLC ynglŷn â'r mater. Er ei fod yn rhannu pryderon yr Aelodau a gyflwynodd y rhybudd o gynnig i'r Cyngor llawn, roedd yn ystyried y dylid gwrthod y cynnig i sefydlu Panel i drafod problemau gadael yr UE heb gytundeb oherwydd diffyg adnoddau ac am nad oes gan y Cyngor unrhyw ddylanwad dros Lywodraeth y DU na Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, cynigiodd y Deilydd Portffolio'r canlynol :-

- Pan fydd yn briodol, dylid darparu dolen wybodaeth i aelodau er mwyn caniatáu iddynt gael mynediad at ddogfennau gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, CLlLC, nodiadau ffeil mewnol yr UE.

- Pan fydd yn briodol, dylid cynnal sesiynau briffio mewnol i rannu unrhyw wybodaeth sy'n dod i law a dylai gynnwys diweddariadau gan aelodau portffolio ar unrhyw gyfarfodydd ble cafodd unrhyw faterion yn ymwneud â Brexit eu trafod.

- Pan fydd yn briodol, dylai unrhyw fater swyddogol sy'n codi wrth i'r broses ddatblygu gael ei gyfeirio i'r pwyllgor sgriwtini adfywio.

- Bod llythyr yn cael ei anfon at y Prif Weinidog, Mrs Theresa May, yn nodi prif bryderon a safbwynt Ynys Môn mewn perthynas â phorthladd Caergybi, y sector amaeth, cyllid Amcan 1, euratom, Ynys Ynni ac ati ynghyd â chais bod holl wybodaeth a dadansoddiadau adrannau'r llywodraeth ynglŷn ag effaith ymadawiad y DU o'r UE ar ein cymunedau a busnesau yn cael eu rhannu gyda'r awdurdod hwn.

- Bydd gadael yr Undeb Ewropeaidd yn cael effaith ar Ynys Môn. Mae'r holl waith cynllunio'n gysylltiedig â Brexit yn cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

- Ni ddylid cytuno i unrhyw beth fyddai'n cael effaith niweidiol ar unrhyw un o'r egwyddorion a ganlyn:

Cymru lewyrchus
Cymru gydnerth
Cymru iachach
Cymru sy'n fwy cyfartal
Cymru o gymunedau cydlynus
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Ychwanegodd y Cynghorydd Carwyn Jones y bydd Mr Albert Owen AS a Mr Rhun ap Iorwerth AC yn bresennol mewn gweithdy ar gyfer aelodau a gynhelir ar 25 Hydref, 2018 i drafod effeithiau posib gadael yr UE heb gytundeb ar yr Ynys ac i adrodd ar y cyfarfod a gynhaliwyd gyda Chyngor Dinas Dulyn.

Ategodd Aelodau'r Wrthblaid bod angen sefydlu Panel o fewn yr Awdurdod hwn i drafod effaith bosib gadael yr UE heb gytundeb. Awgrymwyd fod angen cynnal trafodaethau gyda Chyngor Sir Benfro fydd yn wynebu problemau tebyg os na ddaw Prydain â'r UE i gytundeb.

**Yn y bleidlais ddilynol PENDERFYNWYD gwrthod y cynnig.**

(Ataliodd y Cynghorwyr T Ll Hughes, Dylan Rees a Nicola Roberts eu pleidlais)

## 7. CYFLWYNO DEISEBAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddeisebau.

## 8. DATGANIAD O GYFRIFON AC ISA 260

Cyflwynwyd – yr adroddiadau canlynol gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fel y'u cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 19 Medi, 2018 :-

- Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2017/18;
- Adroddiad yr Archwilwyr Allanol ar archwilio'r Datganiadau Ariannol.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Derbyn y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2017/18;**

- **Nodi bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2017/18 ac wedi cyfeirio'r ddogfen at Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr i'w llofnodi.**

## 9. ADOLYGIAD BLYNYDDOL RHEOLI TRYSORLYS AR GYFER 2017/18

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 17 Medi 2018.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Nodi'r ffigyrau alldro a gynhwysir yn yr adroddiad;**
- **Nodi'r dangosyddion pwyllog a thrysorlys dros dro ar gyfer 2017/18 a gynhwysir yn yr adroddiad.**

## 10. MABWYSIADU PWERAU GAN Y CYNGOR A DIRPRWYO I SWYDDOGION

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 21 Mai, 2018.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Mabwysiadu'r pwerau a restrir yn Adran A Atodiad 1;**
- **Diwygio'r Cynllun Dirprwyo yn y Cyfansoddiad er mwyn dirprwyo ymarfer y pwerau a nodir yn Adran A Atodiad 1, i'r Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd);**
- **Dileu'r pwerau a restrir yn Adran B Atodiad 1, o'r Cynllun Dirprwyo yn y Cyfansoddiad, sydd yn dirprwyo'r Pwerau hyn i'r Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd);**
- **Awdurdodi Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro'r Cyngor i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cynllun Dirprwyo, ac unrhyw newidiadau canlyniadol i adlewyrchu mabwysiadu, dirprwyo a dileu'r cyfryw bwerau;**
- **Awdurdodi Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro'r Cyngor i wneud newidiadau i'r Cyfansoddiad yn y dyfodol, heb orfod cael cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith neu'r Cyngor llawn, lle bo'r newidiadau hynny o ganlyniad i newidiadau deddfwriaethol pan fod angen ychwanegu/newid y ddirprwyaeth i Swyddogion er mwyn gweithredu'r pwerau neu hawliau ychwanegol a roddwyd i'r Cyngor dan y ddeddfwriaeth ddiwygiedig neu newydd;**
- **Diwygio'r Cynllun Dirprwyo yn y Cyfansoddiad er mwyn dirprwyo i'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro :-**

  ***'Adolygu a diweddaru Cyfansoddiad y Cyngor o bryd i'w gilydd, i gynnwys unrhyw newidiadau achlysurol sy'n deillio o ddeddfwriaeth ddiwygiedig, deddfwriaeth sy'n cymryd lle un arall neu ddeddfwriaeth newydd; unrhyw ailstrwythuro o'r sefydliad sydd eisoes wedi ei awdurdodi fel bo'r angen ac i gynnwys dirprwyaethau newydd i swyddogion, sef y Pennaeth Gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb am y gwasanaeth perthnasol, i gael awdurdod dirprwyedig llawn i gyflawni'r swyddogaeth ar ran y Cyngor, oni bai ei bod yn fater sydd wedi ei neilltuo i'r Cyngor, Pwyllgor Gwaith neu Bwyllgor.'***

## 11. RÔL A CHYFRIFOLDEBAU CYFARFWYDDWR STATUDOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol) fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 17 Medi, 2018.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Mabwysiadu'r protocol sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 yr adroddiad;**

- **Awdurdodi Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro'r Cyngor i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes) yn y Cyfansoddiad, ac unrhyw newidiadau'n deillio o hynny, er mwyn adlewyrchu'r ffaith fod y protocol yn Atodiad 1 wedi cael ei fabwysiadu.**

## 12. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR STATUDOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2017/18

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol) fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 5 Gorffennaf, 2018 a'r Pwyllgor Gwaith ar 16 Gorffennaf, 2018.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 13. CYNLLUN GWELLAU HAWLIAU TRAMWY 2018-2028

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo Dros Dro mewn perthynas â'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (2018 – 2028) newydd a pholisïau hawliau tramwy diwygiedig.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2018 – 2028 newydd a'r polisïau hawliau tramwy diwygiedig.**

**Y CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**

## CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion o'r cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2018

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Margaret M Roberts (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr R A Dew, John Griffith, Richard Griffiths, Glyn Haynes, K P Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, Eric Wyn Jones, G O Jones, R.Meirion Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, R G Parry OBE FRAgS, Shaun James Redmond, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Dafydd Rhys Thomas ac Ieuan Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymuned a Gwella Gwasanaethau),<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Prif Swyddog Datblygu (Economaidd) (TJ),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorydd Lewis Davies, T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, R Ll Jones, Richard Owain Jones, J Arwel Roberts, Robin Williams. |

**CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Gwnaeth y Cadeirydd y Cyhoeddiadau canlynol:-

- Diolchodd i staff y Gwasanaethau Democrataidd am wneud y trefniadau ar gyfer Gwasanaeth Sul y Cadeirydd a gynhaliwyd yng Nghapel Moreia, Llangefni ar 14 Hydref. Diolchodd i bawb am eu cymorth a'u haelioni a nododd y casglwyd £609 tuag at yr elusen yr oedd wedi'i ddewis sef Hosbis Dewi Sant. Bydd Hosbis Dewi Sant yn agor eu hosbis cleifion preswyl cyntaf yn Ynys Môn yn Ysbyty Penrhos Stanley, Caergybi yn fuan yn y flwyddyn newydd;
- Dymuniadau gorau i bysgotwyr Caergybi a fydd yn cynrychioli Cymru yng Nghystadleuaeth Pysgota Glan Môr y byd a gynhelir yng Nghonwy rhwng 20 a 27 Hydref, 2018.
- Llongyfarchiadau i Mr Richard Rogers, mab y Cynghorydd Peter S Rogers ar ennill gwobr Ffermwr y Flwyddyn 'BGS Grassland' 2018 yn ddiweddar;

- Llongyfarchiadau i Ffermwyr Ifanc Rhosybol a lwyddodd i ennill y wobr gyntaf yn Eisteddfod y Ffermwyr Ifanc ddydd Sadwrn diwethaf. Bu'r Cadeirydd longyfarch pawb a gymerodd ran yn Eisteddfod lwyddiannus Ffermwyr Ifanc Ynys Môn.

**1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Dim

**2. BID BARGEN TWF AR GYFER ECONOMI GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio ac Economaidd fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 22 Hydref, 2018.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor bod y weledigaeth Bid Twf yn amlinellu uchelgais gyfunol a strategol ar gyfer Gogledd Cymru er mwyn datblygu isadeiledd, sgiliau a chyflogaeth a thwf busnes. Nododd, er mwyn manteisio ar gyfleoedd o'r fath, bod ardal Gogledd Cymru wedi datblygu un weledigaeth ar gyfer twf economaidd a chyflogaeth gydag ymrwymiad rhwng yr holl bartneriaid i gydweithio i sicrhau amcan cyffredin. Mae uchelgais i'r rhanbarth ei gosod ei hun fel un o brif leoliadau'r DU ar gyfer cynhyrchu ynni a gweithgynhyrchu uwch - ynghyd â bod yn ganolbwynt o arloesedd ac arbenigedd technolegol, a chanolfan o ragoriaeth ar gyfer twristiaeth gwerth uchel. Mae'r uchelgais hon yn adeiladu ar gryfderau a chyfleoedd, a bydd ei chyflawni yn creu ymagwedd fwy cynaliadwy a chytbwys i ddatblygu'r economi. Amlygodd yr Arweinydd y ffaith bod y Weledigaeth Twf yn seiliedig ar dri nod allweddol:-

- **Gogledd Cymru Flaengar** - gan ganolbwyntio ar arloesedd mewn sectorau economaidd gwerth uchel i symud perfformiad economaidd ymlaen;
- **Gogledd Cymru Wydn** - gan ganolbwyntio ar gadw pobl ifanc, codi lefelau cyflogaeth a gwella sgiliau er mwyn cyflawni twf cynhwysol;
- **Gogledd Cymru Gysylltiedig** - gan ganolbwyntio ar wella isadeiledd trafnidiaeth a digidol er mwyn gwella cysylltedd strategol i'r rhanbarth ac oddi mewn iddi.

Mae'r Rhaglenni Strategol a'r prosiectau yn yrwyr allweddol i gyflawni'r weledigaeth a mynd i'r afael â'r heriau sydd wedi'u hadnabod a chreu'r amodau ar gyfer twf. Mae'r Rhaglenni Strategol wedi'u cyd-ddylunio a'u datblygu gan randdeiliaid allweddol, yn benodol y sector preifat. Mae prosiectau yn canolbwyntio ar ddatblygu'r amodau i ddenu buddsoddiad gan y sector preifat. Bydd ymgysylltiad cadarn gyda busnesau lleol er mwyn eu galluogi nhw i gael mynediad i gyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi o ganlyniad i brosiectau a ariennir drwy'r Cynllun Twf, er mwyn cymryd mantais lawn o'r buddion rhanbarthol posib ac effaith y buddsoddiad.

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor ymhellach at y Ddogfen Gynnig ynghlwm â'r adroddiad a nododd fel a ganlyn:-

- Rhan 1 - Cyflwyniad a chyd-destun
- Rhan 2 - Yr achos dros fuddsoddi

- Rhan 3 - Y cyd-destun strategol a’r modd y mae’n cyd-fynd â pholisi'r llywodraethau
- Rhan 4 - Arfarnu'r opsiynau a'r ffordd ymlaen a ffefrir
- Rhan 5 - Y weledigaeth twf
- Rhan 6 - Y rhestr o brosiectau
- Rhan 7 - Yr achos economaidd
- Rhan 8 - Cyllid ac ariannu
- Rhan 9 - Grymuso'r rhanbarth
- Rhan 10 - Y strwythur llywodraethu a chyflawni

Gofynnwyd am gadarnhad gan y Cynghorydd Shaun Redmond am y potensial o gynnydd mewn traffig i Borthladd Caergybi petai’r prosiectau yn y Bid Twf yn cael eu gwireddu. Nododd bod potensial i’r traffig gynyddu o 400,000 i 750,000 y flwyddyn drwy’r Porthladd. Gofynnodd am gadarnhad hefyd a oedd y mater wedi’i gynnwys o fewn y Bid Twf gan mai din ond isadeiledd/trafnidiaeth Caergybi y mae’n gallu ei weld o fewn y ddogfen. Dywedodd y Cynghorydd Redmond bod yr isadeiledd priffyrdd tuag at y Porthladd eisoes yn faes sy’n achosi pryder ac yn rhywbeth sydd angen ei ddatrys cyn gynted â phosibl. Ymatebodd Arweinydd y Cyngor fod materion trafnidiaeth o fewn Porthladd Caergybi ac o’r fynedfa iddo yn cael sylw drwy’r Bid Twf ac y gallai adnoddau eraill fod ar gael drwy gynlluniau eraill er mwyn gallu mynd i’r afael â materion y tu allan i fynedfa’r Porthladd.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol:-**

- **Bod y Cyngor yn mabwysiadu’r *Ddogfen Gynnig* fel (1) sail ar gyfer strategaeth ranbarthol tymor hwy ar gyfer twf economaidd, a (2) y cais rhanbarthol ar gyfer y rhaglenni a'r prosiectau blaenoriaeth a ddefnyddir i ffurfio cynnwys yCynllun Twf ar y cam Penawdau'r Telerau gyda'r Llywodraethau. Nid yw mabwysiadu yn ymrwymo’r Cyngor i fuddsoddiad ariannol o gwbl ar y cam hwn ac mae’n amodol ar nodi risgiau a buddion ariannol y Cynllun Twf terfynol yn fanwl, i’w hystyried yn llawn, pan gaiff y Cynllun terfynol ei gyflwyno er cymeradwyaeth yn ddiweddarach.**
- **Bod y Cyngor yn nodi bod yr Arweinydd wedi cael awdurdod gan y Pwyllgor Gwaith i ymrwymo'r Cyngor i’r Penawdau Telerau gyda'r Llywodraethau law yn llaw ag arweinyddion gwleidyddol a phroffesiynol o'r naw partner statudol arall a gynrychiolir ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a Chyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy, gyda'r *Ddogfen Gynnig* yn gosod y ffiniau ar gyfer y cytundeb Penawdau'r Telerau.**

## 3. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2017/18

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid fel y cyflwynwyd i’r Pwyllgor Gwaith ar 15 Hydref, 2018.

Adroddodd Deilydd Portffolio Busnes y Cyngor ar Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2017/18 ynghyd â chynnydd y Cyngor yn erbyn Amcanion Llesiant yr Awdurdod. Amlinellodd y Deilydd Portffolio gyflawniadau’r Cyngor yn ystod 2017/18 fel y

nodwyd yn yr adroddiad. Cyfeiriodd ymhellach at y Dangosyddion Perfformiad ar gyfer 2017/18 ynghyd â'r Dangosyddion Cenedlaethol, y cyfeirir atynt fel Mesurau Atebolrwydd Perfformiad (PAM) sy'n cymharu pob awdurdod lleol yn erbyn yr un dangosyddion. Yn 2017/18, mae 50% o ddangosyddion yr Awdurdod hwn wedi gwella, 36% wedi gostwng ac roedd 14% o'r dangosyddion yn newydd. Cyfeiriodd y Deilydd Portffolio at agoriad y Parc Gwyddoniaeth gwerth £20 miliwn yn Gaerwen sy'n ddatblygiad newydd gan Brifysgol Bangor a tuag at y gwaith adeiladu gan Grŵp Llandrillo Menai ar Ganolfan Hyfforddiant Peirianneg newydd gwerth £14 miliwn yn Llangefni. Nododd ymhellach bod ymgysylltiad parhaus yn digwydd gyda datblygiadau ynni sylweddol gyda'r nod o greu swyddi a chynyddu ffyniant drwy fanteisio ar nifer o brosiectau trawsnewid sy'n cynnwys Minesto a Morlais er mwyn datblygu potensial ynni morol Ynys Môn a Phŵer Niwclear Horizon. Nododd ymhellach bod 3 Ysgol 21ain Ganrif wedi eu hadeiladu ar yr Ynys sydd â chyfleusterau modern ar gyfer plant yr Ynys. Nododd mai Ynys Môn sydd â'r gyfradd ailgylchu orau o'r 22 awdurdod lleol gyda 72.2% o'i wastraff un ai'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio. Mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i fod y Cyngor cyntaf yng Nghymru i geisio statws di-blastig. Dywedodd y Deilydd Portffolio hefyd fod y Cynllun Gofal Ychwanegol, Hafan Cefni yn Llangefni bellach wedi agor. Mae Neuadd y Farchnad yng Nghaergybi wedi'i ailfodelu a'i adfer a bydd yn darparu lle i swyddfeydd newydd yn ogystal â bod yn gartref i'r Llyfrgell yn y dref.

Cyfeiriwyd at y meysydd canlynol lle gellid gwneud gwelliannau pellach yn y dyfodol:-

- Mae angen i ysgolion newydd gael eu cwblhau o fewn amserlen benodol a dylid sicrhau bod cosb ariannol yn cael ei gynnwys yng nghontractau'r dyfodol wrth i ysgolion newydd gael eu hadeiladu;
- Mae angen adnabod ardal Niwbwrch ac yn enwedig ardal Traeth Llanddwyn. Mae angen cyllid er mwyn gwella'r rhwydwaith priffyrdd yn yr ardal.
- Mae angen rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru gan nad yw trigolion yn gallu ymdopi â cynnydd blynyddol parhaus yn y Dreth Gyngor (awgrymwyd gan Aelod Etholedig y dylai Llywodraeth Cymru ystyried codi tâl am bresgripsiynau yn hytrach na rhoi presgripsiynau am ddim fel y gwneir ar hyn o bryd).

**PENDERFYNWYD:-**

- **y dylid cyhoeddi fersiwn terfynol o'r Adroddiad Perfformiad 2017/18 erbyn y dyddiad statudol ar ddiwedd mis Hydref**
- **bod Adran 3.2 y Cyfansoddiad yn cael ei ddiwygio i gynnwys cymeradwyo penderfyniadau ar gyfer Datganiad ac Amcanion Llesiant y Cyngor yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2016 fel swyddogaeth y mae'n rhaid i'r Cyngor Llawn ei chyflawni.**
- **Cytuno i awdurdodi'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r materion sydd wedi eu neilltuo fel swyddogaethau y mae'n rhaid i'r Cyngor llawn eu cymeradwyo yn y Cyfansoddiad ynghyd ag unrhyw newidiadau y mae'n rhaid eu gwneud o ganlyniad i adlewyrchu hynny.**

Daeth y cyfarfod i ben am 2.35 pm

**CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **11 RHAGFYR 2018** |
| **PWNC:** | **CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR** |
| **SWYDDOG ARWEINIOL** | **MARC JONES - PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **GERAINT JONES - RHEOLWR GWASANAETHAU REFENIW A BUDD-DALIADAU (EST. 2651)** |
| **GWEITHREDU :** | **MABWYSIADU'R CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR AM 2019/20** |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

**1.1** Mae'r adroddiad yn egluro'r angen i fabwysiadu cynllun erbyn 31 Ionawr 2019 yng nghyswllt 2019/20.

**1.2** Argymhellodd y Pwyllgor Gwaith, yn ei gyfarfod ar 26 Tachwedd 2018, bod y Cyngor llawn yn derbyn yr argymhellion isod o ran ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor arfaethedig ar gyfer 2019/20:-

- "Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymell i Gyngor Sir Ynys Môn (Cyngor llawn) yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2018 na ddylai'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol gael ei adolygu na'i newid am gynllun arall.
- Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymell i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2018 y dylid mabwysiadu'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol yn ffurfiol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20.
- Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymell i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2018 ei fod yn rhoi awdurdod i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 i wneud trefniadau gweinyddol fel bod pob newid blynyddol ar gyfer uwchraddio ffigyrau ariannol neu adolygiad technegol mewn unrhyw reoliad/reoliadau sy'n diwygio yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor y Cyngor ynghyd ag unrhyw newidiadau trefniadol angenrheidiol i'r cynllun a fydd eu hangen yn dilyn cyflwyno'r Gwasanaeth Credyd Cynhwysol yn ardal yr Awdurdod o 4 Rhagfyr 2018."

## 2. GWYBODAETH CEFNDIROL

**2.1** Mabwysiadodd y Cyngor llawn ar 12 Rhagfyr 2017 ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am flwyddyn ariannol 2018/19. Mae angen i'r Cyngor llawn ystyried, yn unol â Rhan 2, Rheoliad 18 o "Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 Rhif. 3029 (W.301) (y Rheoliadau) ar gyfer pob blwyddyn ariannol, a ddylai adolygu ei gynllun neu ei ddisodli gyda Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor arall. Rhaid i'r Cyngor llawn wneud unrhyw newid i'w gynllun, neu unrhyw gynllun newydd yn ei le, heb fod yn hwyrach na 31 Ionawr yn y flwyddyn ariannol cyn yr un y bydd yn newid neu'r cynllun newydd yn dod i rym.

**2.2** Fe wnaeth y Cyngor llawn o dan y cynllun cyfredol fabwysiadu'r Rheoliadau yn ffurfiol fel ei gynllun a chan ddefnyddio'i bwerau dewisol fe benderfynodd ddefnyddio disgresiwn lleol i fabwysiadu Pensiwn Anabledd Rhyfel Lleol a Chynllun Dewisol Pensiwn Gweddwon Rhyfel yn unol â'r Rheoliadau. Fe welir manylion yn y cynllun cyfredol o'r elfennau nad ydynt yn cael eu cyfrif fel incwm i bwrpas y disgresiwn lleol hwn. Mae hwn yn darparu cymorth y Dreth Gyngor ychwanegol at yr hyn y mae'n rhaid ei dalu'n statudol dan y Rheoliadau. Hwn yw'r unig ddisgresiwn presennol lleol a roddir gan y Cyngor llawn dan ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Leol cyfredol.

**2.3** Rhaid i'r Cyngor llawn hefyd roi sylw i Reoliad 17 y Rheoliadau pan fydd yn adolygu neu'n newid cynllun. Os bydd y Cyngor llawn yn penderfynu adolygu neu newid ei gynllun, rhaid iddo gyhoeddi cynllun drafft o'r adolygiad mewn ffordd y mae'n credu sy'n addas a rhaid iddo ymgynghori gyda phobl a fydd, yn ei dyb ef, â diddordeb yng ngweithrediad ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Nid oes, fodd bynnag, unrhyw ofyniad i ymgynghori'n flynyddol, dim ond pan fydd cynllun yn cael ei adolygu neu ei newid y bydd yn rhaid cynnal ymgynghoriad.

**2.4** Fel yn 2018/19, bydd Llywodraeth Cymru yn paratoi rheoliadau diwygiedig i gynyddu'r ffigurau ariannol a ddefnyddir yn y Rheoliadau ac i adlewyrchu unrhyw ddiwygiadau technegol neu ganlyniadol eraill sy'n ofynnol yn sgil newidiadau i fudd-daliadau sy'n gysylltiedig â budd-daliadau lles sylfaenol. Unwaith eto, yr un modd â 2018/19, mae amseriad y rheoliadau diwygio hyn yn dibynnu ar Gyllideb Hydref Canghellor y Trysorlys (29 Hydref 2018) a'r amserlen ddilynol a gyhoeddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer cynyddu'r budd-daliadau sydd, fel arfer, yn digwydd ychydig ddyddiau ar ôl Cyllideb yr Hydref. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Rheoliadau drafft newydd yn adlewyrchu'r cynnydd yn y ffigurau ariannol neu unrhyw ddiwygiad technegol arall gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ar 27 Tachwedd 2018.

Rhaid cyflwyno'r rheoliadau hyn ar ffurf ddrafft am 20 diwrnod gwaith heb gyfrif unrhyw egwyl a rhaid cael trafodaeth yn y cyfarfod llawn cyn iddynt ddod i rym. Ar gyfer 2018/19, ni ddaeth y rheoliadau diwygio hyn i rym tan 9 Ionawr 2018 a disgwylir y bydd amserlen debyg yn berthnasol ar gyfer 2019/20.

Ceir crynodeb isod o newidiadau arfaethedig Llywodraeth Cymru :-

- **Uwchraddio ffigyrau** ar gyfer 2019/20 mewn perthynas â lwfansau personol premiymau oedran gweithio a gofalwyr ac anabledd; ac mewn perthynas â phensiynwyr a didyniadau ar gyfer rhai nad ydynt yn ddibynnol.
- **Taliadau Cymorth Profedigaeth –** diystyrir amryw o daliadau wrth gyfrifo incwm.
- **Diwygiadau Canlyniadol –** adlewyrchu newidiadau adrannau llywodraeth ganol a throsglwyddo swyddogaethau, adlewyrchu fod Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) yn seiliedig ar incwm yn cael ei ddisodli gan Gredyd Cynhwysol, adlewyrchu'r ffaith bydd rhai achosion ESA yn parhau i gael mynediad i'r Cydran Gweithgaredd yn Gysylltiedig â Gwaith er y cyhoeddwyd y byddai'n cael ei ddiddymu o 3 Ebrill 2017 ynghŷd â'i gyfwerth Credyd Cynhwysol, eglurhad o amodau cymhwyso ar gyfer diystyriaethau pan yn cyfrifo incwm a/neu gyfalaf ar gyfer hawlydd oedran gwaith sy'n ran o gwpwl ac eglurhad ar gyfer hawlwyr oedran gwaith na fydd didyniadau ar gyfer rhai nad ydynt yn ddibynnol yn digwydd pan nad yw'r sawl nad yw'n ddibynnol yn y grŵp gweithgaredd yn ymwneud â gwaith ac mae'n derbyn cymorthdal incwm, credyd pensiwn gwlad, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm neu ESA yn ymwneud ag incwm.
- **Rhieni Maeth** a gymeradwywyd dan Reoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003 – byddent nawr yn ddarostyngedig i'r un driniaeth ar gyfer taliadau gofal plant a fydd yn cael eu tynnu o enillion.

**2.5** Gan fod y Cyngor llawn yn cyfarfod ar 11 Rhagfyr 2018 i benderfynu ar ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor lleol am 2019/20, cynigir bod y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn cael yr awdurdod i wneud trefniadau gweinyddol fel bod yr holl newidiadau blynyddol ar gyfer uwchraddio ffigyrau ariannol neu adolygiadau technegol neu dilynol yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor y Cyngor ynghyd â newidiadau trefniadol fydd ei angen ar y cynllun yn dilyn cyflwyno'r Gwasanaeth Digidol Llawn ar gyfer Credyd Cynhwysol yn ardal yr Awdurdod o 4 Rhagfyr 2018.

## 3. ADOLYGIAD O'R CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR GYFREDOL

**3.1** Yn **Atodiad A** rhoddir gwybodaeth, ystadegau a gwerthoedd i'r Cyngor llawn ynglŷn ag effaith ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am 2018/19. Bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol yn y dyfodol i'r Cyngor llawn wrth iddo ystyried a ddylai adolygu neu ddisodli ei gynllun cyfredol, i'r graddau -

- Y gall ddefnyddio'r data hwn i fesur patrymau (a oedd yn gywir ar 31 Hydref 2018) yn erbyn y waelodlin (yn gywir yn Rhagfyr 2012) pan gynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb o ran nodweddion a ddiogelir ac achosion o freguster. Fel arfer, mae'r patrymau yma yn cael eu mesur yn flynyddol pob Medi (rhoddwyd data tebyg i'r Cyngor llawn wrth ystryied ei gynllun am 2018/19) ond, ar gyfer pwrpas yr adroddiad yma, oherwydd uwchraddio meddalwedd gan y cyflenwr meddalwedd, nid oedd bosib gwneud hyn ar 30 Medi 2018. Ar hyn o bryd, oherwydd problemau meddalwedd yn dilyn yr uwchraddio, nid yw'n bosib cynhyrchu adroddiadau ar gyfer mathau o incwm a rhyw ac nid yw'r rhain wedi eu diweddaru.
- Er mwyn dechrau deall yr effaith a gaiff y cynllun ar drigolion yr Ynys mewn perthynas ag oed, pobl anabl, rhyw a chenedl.
- I'r dyfodol, i efallai hysbysu dealltwriaeth y Cyngor llawn o gostau tebygol gwahanol gynlluniau posibl ac o gostau tebygol rhoi diogelwch llawn neu rannol i rai grwpiau penodol o gleientiaid a phobl fregus. Ar hyn o bryd, rhaid darparu hyd at 100% o ostyngiad dan y Rheoliadau (os yn ddilys).

**3.2** Ers y data gwaelodlin a sefydlwyd yn Rhagfyr 2012, gellir nodi'r patrymau canlynol ar yr Ynys yng nghyswllt ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor:-

- **Llwyth Achosion:** mae'r lleihad yn y llwyth achosion yn parhau ac ar raddfa gyflymach dros y 12 mis diwethaf. Rhwng Rhagfyr 2012 i Medi 2014, gwelwyd gostyngiad cyffredinol yn y llwyth achosion o 6.3% (6,960 i lawr i 6,525). Yn ystod y cyfod blynyddol o Medi 2014 hyd at Medi 2015, syrthiodd y llwyth achosion 1.8% i lawr i 6,410 ac o Fedi 2015 i Fedi 2016, syrthiodd y llwyth achosion 2.5% i lawr i 6,252. Yn y cyfnod 12 mis o Fedi 2016 i Fedi 2017, syrthiodd y llwyth achosion 2.1% i lawr i 6,117. Rhwng Medi 2017 i Hydref 2018, syrthiodd y llwyth achosion 5.1% i lawr i 5,807.
- **Llwyth Achosion:** mae'r nifer hawliadau wedi'u Pasportio h.y. hawlwyr sy'n derbyn Lwfans Ceisio Gwaith (yn seiliedig ar Incwm), Cymorthdal Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (yn gysylltiedig ag Incwm) a Gwarant Credyd Pensiwn lle mae'r Adran Gwaith a Phensiynau eisoes wedi dilysu incwm, wedi cynyddu o 65.8% i 68.6% o'r llwyth achosion yn ystod y 12 mis o Medi 2017 i Hydref 2018. Mae hawliadau sydd heb Basportio h.y. hawlwyr safonol, wedi gostwng o 34.2% i 31.4%. Mae hyn yn gwydroi'r duedd a nodwyd llynedd. Am hawlwyr safonol, rhaid i'r awdurdod lleol ddilysu manylion incwm. Mae'r hawlwyr yma fel arfer mewn gwaith ar lefel incwm sy'n ddilys i gael gostyngiad yn y dreth gyngor, llawn neu'n rhannol, neu'n bensiynwyr efo cynilon ac incwm eraill;

- **Oed:** roedd y dadansoddiad yn Rhagfyr 2012 yn awgrymu nifer ychydig yn uwch o ran hawliadau gan bobl o Oedran Gweithio o gymharu â Phensiynwyr (rhaniad 51.5%/48.5%). Erbyn Medi 2014, roedd hyn wedi cynyddu rhyw fymryn (rhaniad 51.7%/48.3%), hefo'r un patrwm hyd at Medi 2015, (52.7%/47.3%). I fyny at Medi 2016, mae'r cynnydd wedi sefydlogi ac yn dangos rhaniad 51.9%/48.1%, erbyn Medi 2017, roedd ryw ychydig o gynnydd yn Oedran Gweithio (52.4% / 47.6%) ac erbyn Hydref 2018, roedd y rhaniad Oedran Gweithio i Bensiynwyr yn 52.0% / 48.0%;

- **Oed:** roedd y dadansoddiad o aelwydydd â phlant yn hawlio Gostyngiad y Dreth Gyngor yn Rhagfyr 2012 yn 21.9% o'r llwyth achosion. Erbyn Medi 2014, roedd hyn wedi cynyddu i 24.2% ac, erbyn Medi 2015, arhosodd yn weddol sefydlog ar 24.1% ond, erbyn Medi 2016, roedd wedi syrthio i 23.2%. Erbyn Medi 2017, nid oedd llawer o newid – 23.3%. Fel ar Hydref 2018, roedd aelwydydd â phlant yn 22.8% o'r llwyth achosion.

- **Anabledd:** roedd y dadansoddiad o aelwydydd yn derbyn Gostyngiad y Dreth Gyngor lle derbyniwyd taliadau anabledd penodol (sef Elfen Gofal y Lwfans Byw i'r Anabl (Isel, Canolig neu Uchel), Lwfans Gweini, Cyfran Cefnogaeth o Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Budd-dal Analluogrwydd a Thaliadau Annibyniaeth Personol) yn Rhagfyr 2012 yn 39.3% o'r llwyth achosion. Erbyn Medi 2014, roedd wedi mynd i lawr i 34.8%. Bu'r patrwm wyrdroi erbyn Medi 2015, hefo 37.0% o aelwydydd yn cael gostyngiad ac roedd y patrwm yma, lle mae taliadau anabledd penodol yn cael eu derbyn wedi parhau hefo cynnydd i fyny at 39.8% o'r llwyth achosion erbyn Medi 2016. Erbyn Medi 2017, roedd cynnydd sylweddol i 45.7% o'r llwyth achosion. Ni ellir gynhyrchu ffigyrau ar gyfer Hydref 2018 ar hyn o bryd;

- **Rhyw:** roedd yr achosion a oedd yn ymwneud â rhieni sengl a oedd yn ferched yn Rhagfyr 2012 yn 92.5% (13.3% o'r llwyth achosion). Erbyn Medi 2014, roedd yn 92.3% (14.3% o'r llwyth achosion) ac, erbyn Medi 2015, roedd yn 92.1% (13.2% o'r llwyth achosion). Ym Medi 2016, roedd y ffigwr yn 91.1% (14.2% o'r llwyth achosion). Ar Medi 2017, roedd yr achosion a oedd yn ymwneud â rhieni sengl a oedd yn ferched yn 93.5%% (14.4% o'r llwyth achosion). Ni ellir gynhyrchu ffigyrau ar gyfer Hydref 2018 ar hyn o bryd;

- **Hîl:** Ym mis Rhagfyr 2012 fe gyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Genedlaethol ei Chyfrifiad ar gyfer Mawrth 2011 a oedd yn ymwneud ag amrywiaeth yn Ynys Môn. Gofynnir i'r holl hawlwyr sy'n cwblhau ffurflen gais Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gwblhau arolwg ethnig gwirfoddol. (Gweler Tabl 6 yn Atodiad A am ddadansoddiad yn seiliedig ar yr arolwg gwirfoddol o gymharu â ffigyrau Cyfrifiad Mawrth 2011).

**3.3** Am y 6 mis cyntaf yn 2018/19 roedd 802 o hawlwyr Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor newydd wedi eu prosesu (i'w gymharu â 657 am yr un cyfnod y llynedd) gyda 7,531 o newidiadau mewn amgylchiadau wedi'u prosesu (i'w gymharu â 7,820 am yr un cyfnod y llynedd). Yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i brosesu hawliadau newydd a newidiadau mewn amgylchiadau oedd 9.9 diwrnod o fewn y cyfnod hwn (am y un cyfnod y llynedd yr amser ar gyfartaledd oedd 6.9 diwrnod).

## 4. ADOLYGU'R CYNLLUN CYFREDOL – DISGRESIWN LLEOL

**4.1** Bydd y rheoliadau hefyd yn cael eu diwygio i gymryd ystyriaeth o'r uwchraddiadau ariannol a newidiadau technegol arferol sy'n cael eu defnyddio yn y Rheoliadau. Felly, am 2019/20, yr unig ystyriaethau sydd ar gael i'r Cyngor llawn i'w hadolygu ac i benderfynu arnynt yw ym maes y disgresiwn lleol a ganiateir dan y Rheoliadau. O dan y Rheoliadau, (i atgoffa'r Cyngor llawn) mae gan y Cyngor ddisgresiwn lleol yn y meysydd hyn yn unig:-

- Y gallu i gynyddu'r cyfnod gostyngiad estynedig safonol o 4 wythnos a roddir i bersonau ar ôl iddynt ddychwelyd i'r gwaith lle y maent eisoes wedi bod yn derbyn gostyngiad y Dreth Gyngor a ddaw i ben wedi iddynt ddychwelyd i'r gwaith h.y. **"Cyfnod Talu Estynedig".**

Mae'r costau uwch a amcangyfrifir am 2019/20 yn gysylltiedig ag ymestyn y cyfnod statudol estynedig yn amrywio rhwng £8,563 am bythefnos hyd at £24,864 am 6 wythnos y tu hwnt i'r 4 wythnos safonol. O dan y rheolau blaenorol ar gyfer Budd-dal Dreth Gyngor, nid oedd unrhyw ddarpariaeth arbennig yn bodoli i ganiatáu ar gyfer hyn a wnaeth y Cyngor ddim defnyddio'r disgresiwn hwn pan gyflwynwyd y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Argymhellir, felly, na ddylid adolygu'r cynllun ac ymestyn y cyfnod talu am 2019/20;

- Disgresiwn i gynyddu swm y Pensiynau Anabledd Rhyfel a Phensiynau Gweddwon Rhyfel a fydd yn cael ei ddiystyru wrth weithio allan incwm yr hawliwr h.y. **"Gweddwon Rhyfel"**.

  Mae gan y Cyngor llawn eisoes gynllun lleol sy'n caniatáu diystyriaethau ychwanegol yn y maes hwn. Argymhellir y dylai hyn barhau. Amcangyfrifir y bydd y gost i'r Cyngor yn £4,907 yn 2018/19. Argymhellir, felly, bod y swm ychwanegol sy'n cael ei ddiystyru dan y cynllun lleol cyfredol yn parhau heb ei ddiwygio am 2019/20;

- Y gallu i ôl-ddyddio'r cais Gostyngiadau'r Dreth Gyngor o safbwynt hawliadau hwyr cyn y cyfnod safonol o dri mis cyn yr hawliad h.y. **"Ôl-ddyddio Hawliadau".**

  Mae'r Cyngor llawn bob amser wedi bod o'r farn bod 3 mis yn gyfnod digonol i ganiatáu ôl-ddyddio Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i hawliadau gan bensiynwyr a rhai o oed gweithio. Mae'r Cyngor llawn o'r farn bod digon o rwydweithiau cefnogaeth ar gael i hawlwyr. Mae yna lawer iawn o ansicrwydd am y gost debygol pe bai cynllun lleol o'r fath yn cael ei fabwysiadu ac argymhellir, felly, na ddylid adolygu'r cynllun drwy ymestyn y cyfnod ôl-ddyddio y tu hwnt i 3 mis yn ystod 2019/20.

**4.2** Dylid nodi nad oes unrhyw arian ychwanegol ar gael gan Lywodraeth Cymru i gyllido'r elfennau dewisol hyn – mae'r gost yn syrthio ar drethdalwyr lleol.

**4.3** O dan Atodiad 1 Cynllun Arfaethedig Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am 2019/20, mae'r Cyngor llawn yn manylu ar y weithdrefn lle y gall hawlwyr newydd wneud cais am ostyngiad o dan y cynllun. Isod ceir dadansoddiad o'r dull ymgeisio a ddefnyddir gan hawlwyr newydd am y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor rhwng 1 Ebrill 2018 a 30 Medi 2018:-

| Dull Ymgeisio | Nifer | Canran (%) |
|---|---|---|
| **A. Ceisiadau electronig** | | |
| **i.** Drwy apwyntiad dros y ffôn i Swyddfa Refeniw a Budd-daliadau, Llangefni | 35 | 4.4 |
| **ii.** Drwy apwyntiad hefo partneriaid cymeradwy hefo hyfforddiant priodol – Cyswllt Môn, Canolfan J E O'Toole, Gwasanaethau Tai ac ati | 95 | 11.8 |
| **iii.** Ceisiadau ar-lein drwy'r wefan – hunan wasanaeth | 574 | 71.6 |
| **iv.** Dogfennau mewnbwn yr Adran Gwaith a Phensiynau | 96 | 11.9 |
| **B. Ceisiadau ar bapur** | 2 | 0.3 |
| **Cyfanswm** | **802** | **100** |

**OND, gyda'r Gwasanaeth Digidol Llawn ar gyfer Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno o fewn ardal yr Awdurdod o 4 Rhagfyr 2018 ar gyfer hawlwyr OED GWEITHIO, sut bydd hyn yn effeithio ar hawlwyr Credyd Cynhwysol sy'n ymgeisio am ostyngiad yn y Dreth Gyngor a sut bydd hyn yn effeithio ar filio ac adennill y Dreth Gyngor yn achos hawlwyr o'r fath?**

Felly, mae'n amser cyfleus i adolygu'r dulliau ymgeisio hyn, yn enwedig yn sgil y ffaith y bydd nifer y ceisiadau deuol h.y. am Fudd-dal Tai a Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn lleihau wrth i'r Gwasanaeth Digidol Llawn ar gyfer Credyd Cynhwysol gael ei gyflwyno ond gan gydnabod hefyd y bydd dwy system wahanol yn rhedeg ochr yn ochr â'i gilydd i bobl o oedran gweithio (bydd pobl o oed pensiwn yn parhau i fod ar fudd-dal tai am y dyfodol rhagweladwy, tan 2023 o leiaf). Dylai Aelodau nodi bod 90 o hawlwyr o oedran gweithio yn derbyn Gostyngiad yn y Dreth Gyngor sydd hefyd yn derbyn Credyd Cynhwysol ar hyn o bryd. Mae hyn cyn y bydd y Gwasanaeth Digidol Llawn ar gyfer Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno i ardal yr Awdurdod o 4 Rhagfyr 2018.

Mae'r ystadegau canlynol hefyd yn dangos nifer yr hawlwyr o oedran gweithio sydd â cheisiadau deuol ar hyn o bryd h.y. Budd-daliadau Tai a Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a hawlwyr o oedran gweithio sy'n hawlio Gostyngiad yn y Dreth Gyngor yn unig e.e. perchnogion tai.

Hawlwyr Oedran Gweithio sy'n hawlio Budd-dal Tai a Gostyngiadau'r Dreth Gyngor - 2,460
Hawlwyr Oedran Gweithio sy'n hawlio Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn unig - 507

Yn ystod y 12 mis diwethaf, dylid nodi hefyd bod canran yr hawlwyr ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor nad ydynt yn derbyn y gostyngiad llawn o 100% wedi cynyddu o 22.2% (1,359) (ar 30 Medi 2017) i 31.4% (1,825) (ar 31 Hydref 2018) o'r baich achosion h.y. bydd mwy o hawlwyr sy'n derbyn gostyngiad â balans i'w dalu o ran y Dreth Gyngor.

Mae Llywodraeth y DU yn disgwyl i'r broses o gyflwyno'r Gwasanaeth Digidol Llawn yn genedlaethol i hawlwyr newydd gael ei chwblhau erbyn Rhagfyr 2018 ac mae Llywodraeth y DU yn bwriadu dechrau trosglwyddo hawlwyr sydd ar budd-daliadau neu credydau treth presennol i Gredyd Cynhwysol o fis Tachwedd 2020 gyda'r broses honno'n cael ei chwblhau erbyn Mawrth 2023 - ar **gyfer hawlwyr oedran gweithio**. Bydd eithriadau i hyn - bydd hawlwyr oedran pensiwn, unrhyw un â 3 neu ragor o blant (yn cychwyn hawlio Credyd Cynhwysol o 1 Chwefror 2019 ymlaen) a hawlwyr mewn llety â chymorth dynodedig neu hawlwyr, er enghraifft y digartref, mewn llety tymor byr dynodedig, yn parhau i dderbyn budd-daliadau tai ac ni fydd eu costau tai yn cael eu talu o'r Credyd Cynhwysol. Felly, am y 3 i 4 blynedd nesaf, bydd y darlun yn un cymhleth gyda gwahanol ddulliau o ymgeisio am Ostyngiad yn y Dreth Gyngor yn dibynnu ar a ydych yn derbyn budd-dal tai neu Gredyd Cynhwysol. Mae Atodiad 1 y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor arfaethedig ar gyfer 2019/20 yn esbonio'r dulliau gwahanol hyn ond yn gryno - bydd yn rhaid i hawlwyr Credyd Cynhwysol lenwi ffurflen gais Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yr Awdurdod hwn er mwyn cael gostyngiad. Ni fydd dogfennau yr Adran Gwaith a Phensiynau'n berthnasol i Gredyd Cynhwysol.

Dylid nodi hefyd, yn dilyn cyhoeddiad yr Adran Gwaith a Phensiynau ar 1 Hydref 2018, y bydd y Ganolfan Cyngor ar Bopeth yn cael ei hariannu i ddarparu Cymorth Cyffredinol ar gyfer Credyd Cynhwysol yn genedlaethol, mai ychydig o wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd am y modd y mae'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth yn bwriadu gweithredu y gwasanaeth cymorth hwn ar lefel leol.

Argymhellir, felly, bod y gweithdrefnau hyn ar gyfer hawlio Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn parhau'r un fath ac nad ydynt yn cael eu hadolygu ar gyfer 2019/20, heblaw am y newidiadau trefniadol fydd raid ei wneud ar ôl cychwyn y Gwasanaeth Digidol Llawn ar gyfer Credyd Cynhwysol ar 4 Rhagfyr 2018 – ceir manylion yn Atodiad 1 o'r polisi argaethedig. O dan drefniadau newydd, efallai y bydd nifer fwy o ffurflenni cais yn cael eu cwblhau gyda chymorth partneriaid cymeradwy - Canolfan Cyngor ar Bopeth a'r Gwasanaethau Tai (Canolfan O'Toole) fel y gwasanaeth sy'n arwain ar Gredyd Cynhwysol yn yr Awdurdod. Fodd bynnag, prif nod y gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau yw y bydd y rhan fwyaf o ffurflenni cais am Ostyngiadau'r Dreth Gyngor yn cael eu cwblhau ar-lein gan yr hawlydd fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

**Sut bydd y Gwasanaeth Digidol Llawn ar gyfer Credyd Cynhwysol yn effeithio ar filio a chasglu'r Dreth Gyngor?**

Gan fod Credyd Cynhwysol yn un taliad misol, caiff ei drin fel incwm i bwrpas cyfrifo Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Gall unrhyw newidiadau i haeddiant hawlydd i Gredyd Cynhwysol, o dan y cynllun sydd i'w fabwysiadu gan yr Awdurdod hwn (cynllun Cymru gyfan), arwain at newidiadau yn yr hawl i Ostyngiad yn y Dreth Gyngor. Bydd biliau diwygiedig ar gyfer y Dreth Gyngor gydag amserlenni talu newydd yn cael eu cynhyrchu os yw'r newidiadau'n golygu na fydd modd cwrdd yn llawn â chost y Dreth Gyngor. Gall hyn ddigwydd sawl gwaith yn ystod y flwyddyn oherwydd gall yr hawl i Gredyd Cynhwysol amrywio o fis i fis. (Yn Lloegr, mae cynlluniau llawer o awdurdodau lleol yn osgoi hyn oherwydd bod lefelau incwm wedi eu bandio ac nid yw newid incwm o reidrwydd yn golygu newid yn yr hawl i ostyngiad yn y Dreth Gyngor a'r angen am fil newydd).

Gall yr oedi o ran prosesu Credyd Cynhwysol arwain at gynhyrchu biliau llawn, nodiadau atgoffa, rhybuddion terfynol a gwysion am beidio â thalu. Bydd yr Awdurdod yn gwneud gostyngiadau dros dro i'r Dreth Gyngor tra bod y cais yn cael ei brosesu gan y Ganolfan Byd Gwaith, ond dim ond os yw'r hawlydd wedi gofyn am daliad Credyd Cynhwysol ymlaen llaw gan y Ganolfan Byd Gwaith ac wedi rhoi'r manylion gofynnol iddynt ar gyfer caniatáu taliad o'r fath. Gall yr Awdurdod ddefnyddio'r wybodaeth hon gan ddefnyddio porth DWP er mwyn ei alluogi i wneud gostyngiad dros dro i'r Dreth Gyngor.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL A RISG

**5.1** Nid yw'r Setliad Refeniw a Chyfalaf Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru 2019/20 yn debygol o gyrraedd tan yr wythnos yn cychwyn 17 Rhagfyr 2018 ac, felly, ni wn (adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn) beth fydd y dyfarniad Grant Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor terfynol i'r Cyngor i gwrdd â chostau ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am 2018/19. Mae'r rhagamcaniadau isod wedi eu gwneud yn seiliedig ar y Setliad Drafft 2019/20 a gyhoeddwyd ar 9 Hydref 2018. Y gwariant cyfredol (diwedd Hydref 2018 yw £5,289,851), hefo Grant Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Llywodraeth Cymru yn ei erbyn o £5,187,000 am 2018/19. Mae hyn yn rhoi diffyg tybiedig o £102k i'r Awdurdod fod yn gyfrifol amdano yn 2018/19. Y Grant Gostyngiadau'r Dreth Gyngor arfaethedig dan y Setliad Dros Dro ar gyfer 2019/20 yw £5,131,000. Yng Nghyllideb Drafft y Cyngor am 2019/20 mae £33k wedi cael ei ddyrannu i gwrdd â chost y diffyg ac hefyd am ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer ddrwgddyledion gor-daliadau budd-dal.

**5.2** Bydd nifer o ffactorau yn 2019/20 yn cael effaith ar y gwariant ar y cynllun:-

- Rhwng Ebrill 2018 a Medi 2018 mae gostyngiad mewn llwyth achos o 2.9% ac fe dybir bydd y duedd yma'n parhau am weddill y flwyddyn ariannol gyfredol h.y. gostyngiad o 4% erbyn Mawrth 2019. Mae hyn yn cymharu hefo lleihad 3.8% (Ebrill i Ebrill) yn ystod 2017/18, gostyngiad o 2.1% yn ystod 2016/17, gostyngiad 2.5% yn ystod 2015/16 a gostyngiad 1.8% yn ystod 2014/15;

- Cynnydd a gynlluniwyd yn y Dreth Gyngor o 5.0% am 2019/20, yn unol â'r Cynllun Ariannol Tymor Canol 2019/20 – 2021/22.

- Mae'r Awdurdod eto i gael gwybod hefyd beth fydd union effaith Cyllideb Hydref y Canghellor ar 29 Hydref 2018 ynghylch a fydd Llywodraeth Cymru yn diweddaru'r ffigyrau ariannol ai peidio mewn perthynas â'r rheoliadau diwygiedig ar gyfer cynllun 2019/20.

- Yn ei adolygiad o gyllid llywodraeth leol yng Nghymru (diweddariad Hydref 2018), mae Llywodraeth Cymru nid yn unig wedi rhoi amserlen ddangosol (o 2019) ar gyfer gwella'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gan gymryd i ystyriaeth ddiwygiadau lles y DU, ond hefyd wedi cadarnhau y bydd, ar gyfer 2019/20, yn cadw'r hawliau llawn i'r cynllun.

- Dylid nodi bod y nifer sy'n manteisio ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru ar gyfer ardal pob awdurdod lleol ers iddo gael ei gyflwyno yn 2013 wedi gostwng. Bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu asesiad manwl o effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a fydd yn llywio datblygiad y cynllun o 2020/21 ymlaen i sicrhau bod aelwydydd sydd yn derbyn Credyd Cynhwysol a'r rhai nad ydynt yn cael eu trin yn gyfartal.

- Gyda throsglwyddiad digidol llawn i Gredyd Cynhwysol o 4 Rhagfyr 2018 ymlaen yn ardal yr Awdurdod, disgwylir i geisiadau deuol h.y. ar gyfer Budd-dal Tai a Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, leihau ymhellach a bydd hyn yn cael effaith ar y nifer a fydd yn ymgeisio.

**5.3** Gan ystyried yr uchod, ar y gorau bydd y gwariant a amcangyfrifir ar y cynllun yn £5,341,098 (gan dybio cynnydd 5% yn y Dreth Gyngor a gostyngiad pellach o 5% yn y llwyth achos) ac ar ei waethaf y gwariant a amcangyfrifir o £5,802,967 (yn tybio na fydd gostyngiad llwyth achos a 5% o gynnydd yn y Dreth Gyngor).

**5.4** Felly, disgwylir diffyg a amcangyfrifir o rhwng £210k a £672k yng nghyllid grant y bydd yn rhaid i'r Cyngor fod yn gyfrifol amdano. Mae hyn yn seiliedig ar i'r Cyngor llawn ail-fabwysiadu'r cynllun cyfredol heb ei newid. Serch hynny, bydd maint y diffyg yn fwy amlwg wrth i'r broses gosod y gyllideb mynd ymlaen.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

**6.1** Mae'n ofynnol i'r Cyngor sefydlu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor o dan y Rheoliadau Anghenion Rhagnodedig. Er bod y ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer cynllun arall i'w ddefnyddio pe na bai'r Cyngor yn sefydlu cynllun, mae'r Cyngor, er hynny, â dyletswydd statudol i fabwysiadu ei gynllun ei hun, hyd yn oed pe bai'n dewis peidio â gosod unrhyw un o'r elfennau dewisol.

**6.2** Mae'r Cynllun arfaethedig ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn gorfod cael ei gymeradwyo dan Adran 13A (1) (b) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

**6.3** Ar 28 Chwefror 2018, cymeradwyodd y Cyngor llawn Bolisi Rhyddhad Dewisol y Dreth Gyngor dan Adran 13A (1) (c) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a dirprwyodd i'r Pwyllgor Gwaith y pŵer i ddiddymu, ailddeddfu a / neu ddiwygio y polisi hwn. Rhoddwyd pwerau dirprwyedig i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 benderfynu ar geisiadau a wnaed o dan Adran 13A (1) (c) gan gymryd i ystyriaeth unrhyw ganllawiau polisi perthnasol.

**6.4** Mae Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2019/20 sy'n cael ei gynnig ar gyfer ei gymeradwyo ar wahân i, ac yn annibynnol o, Bolisi Rhyddhad Dewisol Dreth Gyngor y Cyngor hwn. Gall ymgeiswyr sy'n gymwys am gymorth o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor wneud cais am ryddhad ychwanegol o dan Bolisi Rhyddhad Dewisol Dreth Gyngor y Cyngor.

## 7. GOBLYGIADAU CYDRADDOLDEB

**7.1** Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn dilyn ei ymgynghoriad ar gyfer y Rheoliadau gwreiddiol yn 2012. Mae asesiad lleol o'r effaith ar gydraddoldeb wedi cael ei gynnal ar ran y Cyngor mewn trefniadau ar y cyd ar draws Cymru hefyd mewn perthynas â Rheoliadau 2012 (Rhagfyr 2012, cyhoeddwyd Mawrth 2013) a chafodd hwn ei ddiweddaru, ar gyfer yr Awdurdod yma, ym Medi 2014, Medi 2015, Medi 2016, Medi 2017 a diweddariad pellach (lle bo'n boisb ar hyn o bryd) Hydref 2018, fel y gwelir yn **Atodiad A**.

## 8. GOBLYGIADAU'R IAITH GYMRAEG

**8.1** Mae'r prif reoliadau a rheoliadau diwygiedig Cynulliad Cymru yn ddwyieithog. Mae Cynllun y Cyngor ei hun yn ddwyieithog ac mae ffurflenni hawlio, naill a'i trwy ddulliau electronig neu trwy bapur, hefyd yn ddwyieithog. Mae'n partneriaid cymeradwy wedi cael eu hannog i roi gwasanaeth dwyieithog ac mae'n gwasanaeth hawlio hunan wasanaeth yn hollol ddwyieithog. Mae'r gwasanaeth i hawlio tros y ffôn neu drwy apwyntiad hefo staff hefyd yn hollol ddwyieithog.

**8.2** Mae holl ohebiaeth parthed rhybuddion gwobrwyo Gostyngiad y Dreth Gyngor yn ddwyieithog ac mae'r gwasanaeth yn gallu siarad a gohebu yn yr iaith mae'r cwsmer yn ei ddewis. Serch hynny, mae meddalwedd gweinyddu'r Cynllun yn yr uniaith Saesneg (does dim dewis gwahanol ar gael yn y farchnad). Mae'r ohebiaeth rhwng y Cyngor â'r Adran Gwaith a Phensiynau, gan amlaf, yn yr uniaith Saesneg ond mae ffurflenni hawlio trwy'r Gymraeg ar gael o'r Adran Gwaith a Phensiynau.

## 9. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

**9.1** Wrth ddrafftio'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am 2019/20, cymerwyd i ystyriaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a sut mae'r Cynllun yn cefnogi'r nodau llesiant. Pwrpas y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yw rhoi'r gallu i bobol oedran gwaith a phensiynwyr sydd ar incwm isel i gwrdd â'u costau Dreth Gyngor. O dan y Cynllun, rhoddir cymorth ychwanegol i bensiynwyr a phobol anabl trwy ddiystyru lefel uwch o incwm a, hefyd, gosod y lefel incwm disgwylir pensiynwyr a phobol anabl i fyw arno, cyn dechrau colli ar yr hyn sy'n cael eu talu fel gostyngiad, ar lefel uwch na phobol oedran gwaith. Mae hyn yn cyd-fynd ag un o brif nodweddion diwygio lles bod hi'n fwy manteisiol i fod mewn gwaith nac allan o waith.

**9.2** Mae'r Cynllun hefyd yn rhoi gostyngiad ychwanegol parthed cwsmeriaid sy'n derbyn pensiynau anabledd rhyfel a phensiynau gweddwon rhyfel.

**9.3** Mae'r Cynllun yn cyfrannu at y nodau llesiant o Gymru lewyrchus, Cymru sy'n iachach, Chymru sy'n fwy cyfartal a Chymru o gymunedau cydlynus.

## 10. DOGFENNAU CEFNDIROL

Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac Anghenion Rhagnodedig (Cymru) 2013 Rhif 3029 (C.301)

Y Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Anghenion Rhagnodedig a Chynlluniau diofyn) (Cymru) (Diwygiad) 2019

Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Cymru: Cymariaethau o fewn Cymru o Nodweddion a Ddiogelir ac Amlder bregusrwydd Mawrth 2013 - Simon Horsington and Associates Ltd, 2013, (wedi ei diweddaru'n lleol Medi 2014, Medi 2015, Medi 2016, Medi 2017 a Hydref 2018).

Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru: diweddariad - Hydref 2017 a Hydref 2018
Adran 13A Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 fel y'i diwygiwyd gan Adran 10 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012

## 11. ARGYMHELLION

- Nad yw'r Cyngor llawn yn adolygu nac yn disodli ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol gyda chynllun arall;

- Bod y Cyngor llawn yn ffurfiol yn mabwysiadu'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol am flwyddyn ariannol 2019/20 **(gweler Atodiad B);**

- Bod y Cyngor llawn yn ei gyfarfod yn rhoi awdurdod i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/ (Swyddog Adran 151) wneud trefniadau gweinyddol fel bod yr holl newidiadau blynyddol ar gyfer uwchraddio ffigyrau ariannol neu ddiwygiadau technegol mewn unrhyw reoliad neu reoliadau sy'n diwygio yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor y Cyngor ynghyd ag unrhyw newidiadau gweithdrefnol angenrheidiol mewn perthynas â'r cynllun a fydd eu hangen, efallai, wedi cyflwyno'r Gwasanaeth Digidol Llawn ar gyfer Credyd Cynhwysol yn ardal yr Awdurdod ao 4 Rhagfyr 2018.

**12. ATODIADAU**

- Atodiad A – Effaith y cynllun cyfredol;
- Atodiad B – Cynllun arfaethedig Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2019/20.

.

**GERAINT JONES**
**RHEOLWR GWASANAETHAU REFENIW A BUDD-DALIADAU** **28 TACHWEDD 2018**

**ATODIAD A**

**Tabl 1: Llwyth Achosion 31 Hydref 2018**

| Disgrifiad | Rhif | Canran | Gwerth | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a ddyfarnwyd** | **5,807** | **100%** | **£5,289,851** | **100%** |
| | | | | |
| Dyfarniad llawn Gostyngiadau'r Dreth Gyngor h.y. 100% | 3,966 | 68.3% | £3,543,547 | 67.0% |
| Dyfarniad rhannol Gostyngiadau'r Dreth Gyngor h.y. llai na 100% | 1,841 | 31.7% | £1,746,302 | 33.0% |
| **Math yr Hawliad** | | | | |
| Hawliadau wedi'u Pasportio* | 3,982 | 68.6% | £3,847,283 | 72.7% |
| Hawliadau heb eu Pasportio h.y. Hawliadau Safonol | 1,825 | 31.4% | £1,442,568 | 27.3% |
| **Bandiau'r Dreth Gyngor** | | | | |
| Band A (Gostyngiad Anabl) | 8 | 0.1% | £5,976 | 0.1% |
| Band A | 1,900 | 32.7% | £1,445,781 | 27.3% |
| Band B | 1,850 | 31.9% | £1,586,931 | 30.1% |
| Band C | 1,033 | 17.8% | £1,005,570 | 19.0% |
| Band D | 604 | 10.4% | £650,832 | 12.3% |
| Band E | 301 | 5.2% | £407,788 | 7.7% |
| Band F | 91 | 1.6% | £149,367 | 2.8% |
| Band G | 18 | 0.3% | £33,120 | 0.6% |
| Band H | 2 | 0.0% | £4,486 | 0.1% |
| Band I | 0 | 0.0% | £0 | 0.0% |
| **Ardaloedd Lleol Tref a Chymuned** | | | | |
| Caergybi | 1,625 | 28.0% | £1,367,632 | 25.9% |
| Llangefni | 501 | 8.6% | £424,538 | 8.0% |
| Amlwch | 442 | 7.6% | £399,806 | 7.6% |
| Porthaethwy | 203 | 3.5% | £193,909 | 3.7% |
| Rhosyr | 194 | 3.3% | £181,167 | 3.4% |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | 193 | 3.3% | £197,302 | 3.7% |
| Y Fali | 156 | 2.7% | £134,019 | 2.5% |
| Biwmares | 167 | 2.9% | £163,699 | 3.1% |
| Llanfairpwll | 141 | 2.4% | £137,810 | 2.6% |
| Llanfaelog | 128 | 2.2% | £115,391 | 2.2% |
| Llannerch-y-medd | 130 | 2.2% | £118,943 | 2.2% |
| Llanfair yn Neubwll | 113 | 2.0% | £101,222 | 1.9% |
| Llanbadrig | 121 | 2.1% | £112,439 | 2.1% |
| Llanfihangel Esceifiog | 109 | 1.9% | £104,125 | 2.0% |
| Bodedern | 93 | 1.6% | £87,832 | 1.7% |
| Llangoed | 92 | 1.6% | £87,347 | 1.7% |
| Pentraeth | 83 | 1.4% | £79,936 | 1.5% |
| Llanidan | 89 | 1.5% | £76,096 | 1.4% |
| Mechell | 91 | 1.6% | £86,763 | 1.6% |
| Trewalchmai | 83 | 1.4% | £77,776 | 1.5% |
| Bodorgan | 91 | 1.6% | £83,023 | 1.6% |
| Llaneilian | 84 | 1.4% | £86,464 | 1.6% |
| Moelfre | 73 | 1.3% | £63,370 | 1.2% |
| Rhosybol | 68 | 1.2% | £66,191 | 1.3% |
| Bryngwran | 68 | 1.2% | £60,529 | 1.1% |
| Bodffordd | 70 | 1.2% | £59,522 | 1.1% |
| Cwm Cadnant | 71 | 1.2% | £74,441 | 1.4% |
| Aberffraw | 64 | 1.1% | £54,259 | 1.0% |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | 60 | 1.0% | £67,974 | 1.3% |
| Llanddaniel | 49 | 0.8% | £48,921 | 0.9% |
| Cylch y Garn | 46 | 0.8% | £48,739 | 0.9% |

| Disgrifiad | Rhif | Canran | Gwerth | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **Ardaloedd Trefi a Chymunedau Lleol (parhad)** | | | | |
| Trearddur | 51 | 0.9% | £58,995 | 1.1% |
| Llanddona | 46 | 0.8% | £46,025 | 0.9% |
| Tref Alaw | 44 | 0.8% | £51,167 | 1.0% |
| Llanfaethlu | 48 | 0.8% | £48,784 | 0.9% |
| Llanfachraeth | 44 | 0.8% | £41,774 | 0.8% |
| Llanddyfnan | 34 | 0.6% | £36,110 | 0.7% |
| Rhoscolyn | 19 | 0.3% | £20,294 | 0.4% |
| Penmynydd | 15 | 0.3% | £14,236 | 0.3% |
| Llaneugrad | 10 | 0.2% | £10,718 | 0.2% |

* Hawliadau wedi'u pasportio yw Lwfans Ceisio Gwaith (yn seiliedig ar Incwm), Cymorthdal Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (yn gysylltiedig ag Incwm) a Gwarant Credyd Pensiwn lle mae'r Adran Gwaith a Phensiynau eisoes wedi dilysu incwm.

**Tabl 2: Oed - Hawliadau gan Bobl o Oed Gweithio a Phensiynwyr 31 Hydref 2018**

| Disgrifiad | Rhif | Canran | Gwerth | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a ddyfarnwyd** | **5,807** | **100%** | **£5,289,851** | **100%** |
| **Grŵp Oed** | | | | |
| Oed Gweithio | 2,967 | 51.1% | £2,610,229 | 49.3% |
| Oed Pensiynwr | 2,840 | 48.9% | £2,679,622 | 50.7% |
| **Hawliadau pasport* yn ôl Grŵp Oed** | | | | |
| Oed Gweithio | 2,094 | 36.1% | £1,934,622 | 36.6% |
| Oed Pensiynwr | 1,888 | 32.5% | £1,912,661 | 36.2% |
| **Di-basport h.y. hawliadau safonol yn ôl Grŵp Oed** | | | | |
| Oed Gweithio | 873 | 15.0% | £675,607 | 12.7% |
| Oed Pensiynwr | 952 | 16.4% | £766,961 | 14.5% |
| **Cyfansoddiad Aelwydydd yn ôl Grŵp Oed - Cwpl** | | | | |
| Oed Gweithio | 658 | 11.3% | £719,635 | 13.6% |
| Oed Pensiynwr | 763 | 13.1% | £860,804 | 16.3% |
| **Cyfansoddiad Aelwydydd yn ôl Grŵp Oed - Sengl** | | | | |
| Oed Gweithio | 2,309 | 39.8% | £1,890,594 | 35.7% |
| Oed Pensiynwr | 2,077 | 35.8% | £1,818,818 | 34.4% |

* Hawliadau pasport yw Lwfans Ceisio Gwaith (yn seiliedig ar Incwm), Cymorthdal Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (yn gysylltiedig ag Incwm) a Gwarant Credyd Pensiwn lle mae'r Adran Gwaith a Phensiynau eisoes wedi dilysu incwm.

**Tabl 3: Oed – Aelwydydd gyda chyfrifoldeb am Blant 31 Hydref 2018**

| Disgrifiad | Rhif | Canran | Gwerth | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a ddyfarnwyd** | **5,807** | **100%** | **£5,289,851** | **100%** |
| **Cyfansoddiad Aelwydydd - Statws** | | | | |
| Cwpl | 1,421 | 24.5% | £1,580,441 | 29.9% |
| Sengl | 4,386 | 75.5% | £3,709.410 | 70.1% |
| **Cyfansoddiad Aelwydydd - Plant** | | | | |
| **Dim plant** | **4,484** | **77.1%** | **£4,092,261** | **77.4%** |
| 1 plentyn | 566 | 9.7% | £494,035 | 9.3% |
| 2 blentyn | 421 | 7.3% | £374,120 | 7.0% |
| 3 phlentyn | 208 | 3.6% | £196,722 | 3.7% |
| 4 plentyn | 92 | 1.6% | £92,758 | 1.8% |
| 5 plentyn | 19 | 0.3% | £18,819 | 0.4% |
| 6 phlentyn | 10 | 0.2% | £12,492 | 0.2% |
| 7 plentyn | 3 | 0.1% | £3,578 | 0.1% |
| 8 plentyn | 1 | 0.0% | £1,744 | 0.0% |
| 9 plentyn | 3 | 0.1% | £3,322 | 0.1% |

| Disgrifiad | Rhif | Canran | Gwerth | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **Cyplau â Phlant** | | | | |
| Oed Gweithio | 391 | 6.7% | £422,224 | 8.0% |
| Oed Pensiynwr | 19 | 0.4% | £23,304 | 0.4% |
| **Sengl â phlant** | | | | |
| Oed Gweithio | 181 | 15.4% | £183,310 | 13.8% |
| Oed Pensiynwr | 2 | 0.4% | £1,949 | 0.4% |
| **Cyplau â phlant dan 5 oed** | | | | |
| Oed Gweithio | 181 | 3.1% | £183,310 | 3.5% |
| Oed Pensiynwr | 2 | 0.0% | £1,949 | 0.0% |
| **Sengl â phlant dan 5 oed** | | | | |
| Oed Gweithio | 346 | 6.0% | £276,582 | 5.2% |
| Oed Pensiynwr | 0 | 0.0% | £0 | 0.0% |

**Tabl 4: Aelwydydd lle ni ellir cynhyrchu taliadau anabledd penodol * ar hyn o bryd ar gyfer 2018**

| Disgrifiad | Rhif | Canran | Gwerth | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm gostyngiadau'r Dreth Gyngor a ddyfarnwyd** | | | | |
| **Cyfansoddiad Aelwydydd yn ôl Grŵp Oed** | | | | |
| Oed Gweithio | | | | |
| Oed Pensiynwr | | | | |

* Elfen Gofal y Lwfans Byw i'r Anabl (Isel, Canolig, Uchel), Lwfans Gweini, Elfen Cymorth y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Lwfans Analluogrwydd a Thaliadau Annibyniaeth Personol.

**Tabl 5: Dadansoddiad o nodweddion a ddiogelir: Rhyw, rhiant Sengl – ni ellir gynhyrchu ar hyn o bryd ar gyfer 2018**

| Disgrifiad | Rhif | Canran | Gwerth | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm gostyngiadau'r Dreth Gyngor a ddyfarnwyd** | | | | |
| **Aelwydydd Rhiant Sengl - Benyw** | | | | |
| Oed Gweithio | | | | |
| Oed Pensiynwr | | | | |
| **Aelwydydd Rhiant Sengl - Gwryw** | | | | |
| Oed Gweithio | | | | |
| Oed Pensiynwr | | | | |

**Tabl 6: Cefndir Ethnig Ynys Môn 31 Hydref 2018**

| Tarddiad Ethnig | Cyfrifiad Mawrth 2011 | Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Medi 2017 |
|---|---|---|
| Prydeinig Gwyn | 96.6% | 81.0% |
| Gwyn arall | 1.7% | 18.4% |
| Etifeddiaeth gymysg | 0.8% | 0.3% |
| Asiaidd (Pawb) | 0.7% | 0.3% |
| Du (Pawb) | 0.1% | 0.0% |
| Arall (Pawb) | 0.3% | 0.0% |

**Tabl 7: Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ychwanegol a ddyfarnwyd dan y cynllun dewisol lleol 31 Hydref 2018. Does dim modd darparu rhaniad ar hyn o bryd ar gyfer 31 Hydref 2018.**

| Disgrifiad | Rhif | Canran | Gwerth | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm gostyngiadau'r Dreth Gyngor a ddyfarnwyd** | | | | |
| Pensiwn Gweddwon Rhyfel (Cyn 1973) | | | | |
| Pensiwn Anabledd Rhyfel | | | | |

ATODIAD B

# Cyngor Sir Ynys Môn

# Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2019/20

# Cynllun Penodedig ar gyfer Hawlwyr sy'n Bensiynwyr a phobl nad ydynt yn Bensiynwyr

**Rhagarweiniad**

Ers 1 Ebrill 2013, mae Budd-dal y Dreth Gyngor, sef dull  o gynorthwyo teuluoedd incwm isel gyda'u Dreth Gyngor, wedi cael ei ddiddymu. Cafodd ei ddisodli gan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

Ar 19 Rhagfyr 2012, gwnaed rheoliadau gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun cenedlaethol ar gyfer Cymru, sef "Rheoliadau Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012 Rhif 3144 (C.316)" **(Rheoliadau Rhagnodedig)** a "Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2012 Rhif 3145 (C.317)" **(Rheoliadau Diofyn)**.  Ar 22 Ionawr 2013, gwnaed rheoliadau diwygiedig pellach gan Lywodraeth Cymru "Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r  Dreth Gyngor (Rheoliadau Rhagnodedig a Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2013" **(Rheoliadau Diwygiedig).**

Roedd y Rheoliadau Rhagnodedig yn cynnwys cymal machlud.  O ganlyniad i'r cymal yma, roedd y rheoliadau a nodwyd uchod ond yn berthnasol am y flwyddyn ariannol 2013/14.  Dan y cymal yma roedd yn ofynnol i adolygu'r rheoliadau a dod a rhai newydd ymlaen erbyn 1 Ionawr 2014 gan Weinidogion Cymru.  Petai rheoliadau newydd ddim yn cael eu rhoi ymlaen erbyn y dyddiad yma, ni fyddai darpariaeth ar gyfer Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i'w gweithredu yng Nghymru ar ôl 31 Mawrth 2014.

Ar 26 Tachwedd 2013, cymeradwyodd Cynlluniad Cymru ddwy set o reoliadau newydd : "Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynlluniau Diofyn) (Cymru) 2013" **(Rheoliadau Diofyn)** a'r "Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013" **(Rheoliadau Rhagnodedig)**.  Mae'r rhain ar gael ar : -

**Rheoliadau Diofyn**

http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2013/3035/contents/made/welsh

**Rheoliadau Rhagnodedig**

http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2013/3029/contents/made/welsh

**Rheoliadau Diwygiedig**

Ar ?? Ionawr 2019, cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru set bellach o reoliadau diwygio, yn bennaf i uwchraddio'r ffigyrau ariannol yn unol â chynnydd yng nghostau byw ac i roi sylw i nifer o fân-bwyntiau technegol – "Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Rheoliadau Rhagnodedig a'r Cynlluniau Diofyn) (Cymru) (Diwygiad) 2018" (**Rheoliadau Diwygio**).  Mae'r rhain ar gael ar :-

http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2019/??/contents/made/welsh

Mae'r rheoliadau hyn, felly yn pennu prif nodweddion y cynllun y dylai pob Cyngor yng Nghymru ei fabwysiadu.  Felly, mae cyfrifoldeb yn parhau ar Gyngor Sir Ynys Môn i fabwysiadu cynllun.  Rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn fabwysiadu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor erbyn 31 Ionawr 2019 ar gyfer 2019/20 ymlaen.

Bydd Cynllun lleol Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn yn seiliedig ar Reoliadau Rhagnodedig Llywodraeth Cymru (fel y diwygiwyd). Mae'r Rheoliadau Rhagnodedig hyn hefyd yn caniatáu i Gyngor Sir Ynys Môn fabwysiadu cynllun sy'n cynnwys amrediad cyfyngedig o elfennau dewisol i ddarparu cefnogaeth bellach ar gyfer y Dreth Gyngor.  Mewn achosion lle mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu elfennau dewisol ychwanegol, nodir yr elfennau dewisol hyn yn y ddogfen hon.

Oni fydd Cyngor Sir Ynys Môn yn gwneud cynllun erbyn 31 Ionawr 2019, yna daw'r cynllun diofyn i rym yn unol â darpariaethau'r Rheoliadau Diofyn. Fodd bynnag, ni fedr Cyngor Sir Ynys Môn ddefnyddio unrhyw ddisgresiwn oni bai ei fod yn mabwysiadu ei gynllun ei hun dan y Rheoliadau Rhagnodedig.

**Gofynion y Cynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**

Cymeradwyodd y Cyngor llawn Cyngor Sir Ynys Môn ei Gynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar 11 Rhagfyr  2018 mewn perthynas â'r flwyddyn yn cychwyn ar 1 Ebrill 2019. Mae'n nodi, yn unol â'r Rheoliadau Rhagnodedig:-

- Categorïau o bobl sydd â hawl neu sydd ddim â hawl i ostyngiad;
- Y gostyngiadau y mae pobl ym mhob categori â hawl iddynt;
- Gofynion gweithdrefnol y Cynllun:-

**1.** Y weithdrefn y dylai person ei dilyn i ymgeisio am ostyngiad dan y cynllun.

**2.** Y weithdrefn y dylai person ei dilyn i apelio yn erbyn penderfyniad gan awdurdod o ran hawl person i ostyngiad dan y cynllun neu swm unrhyw ostyngiad y mae gan y person hawl iddo.

**3.** Y weithdrefn y dylai person ei dilyn i gyflwyno cais i awdurdod am ostyngiad dan Adran 13A (1) (c)  Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Gweler isod y linc i'r Polisi Dewisol Tuag at y Dreth Gyngor

**http://www.ynysmon.gov.uk/lles-ac-arian/y-dreth-gyngor/lleihewch-eich-bil-dreth-gyngor/cymorth-dewisol-tuag-at-y-dreth-gyngor?redirect=false**

Mabwysiadodd Cyngor Sir Ynys Môn ei Gynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn seiliedig ar ofynion fel y cânt eu nodi yn Rheoliadau Llywodraeth Cymru sef "Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 Rhif 3029 (C. 301) (Rheoliadau Rhagnodedig)" a'r "Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2019 Rhif ?? (C. ?) (Rheoliadau Diwygio)". Mae'r Rheoliadau Rhagnodedig a'r rheoliad diwygio ar gael ar:-

http://www.legislation.gov.uk/wsi/2013/3029/contents/made/welsh

http://www.legislation.gov.uk/wsi/2019/??/contents/made/welsh

I grynhoi:-

**Rhan 1 y Rheoliadau Rhagnodedig**:

Mae'n cynnwys darpariaethau rhagarweiniol a diffiniadau o eiriau ac ymadroddion allweddol a ddefnyddir yn y cynllun hwn.

**Rhan 2 y Rheoliadau Rhagnodedig: gofynion y cynllun mewn perthynas ag awdurdodau bilio yng Nghymru (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

Beth y mae'n rhaid i'r cynllun a fabwysiedir gan Gyngor Sir Ynys Môn ei gynnwys – categorïau o bersonau, gostyngiadau a gofynion gweithdrefnol y cynllun.

**Rhan 3 y Rheoliadau Rhagnodedig: Categorïau o bersonau sydd â hawl i ostyngiad dan y cynllun hwn (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

**Pensiynwyr** sydd yng Nghategorïau A i B.

**Pobl nad ydynt yn bensiynwyr** sydd yng Nghategorïau C i D.

**Rhan 4 y Rheoliadau Rhagnodedig: Categorïau o bersonau na ddylid eu cynnwys dan y cynllun hwn (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

Categorïau o bersonau sydd i gael eu heithrio o'r cynllun hwn, gan gynnwys pobl sy'n cael eu trin fel rhai nad ydynt yn byw ym Mhrydain Fawr a phobl y mae rheolau mewnfudo'n berthnasol iddynt.

Personau y mae eu cyfalaf yn uwch na £16,000.

Personau sy'n absennol am gyfnod o eiddo.

Personau sy'n fyfyrwyr.

**Rhan 5 ac Atodlenni 1 i 5 y Rheoliadau Rhagnodedig: materion y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cynllun hwn yng nghyswllt pensiynwyr (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio**

Yn Atodlenni 1 i 5, nodir y rheolau sy'n berthnasol i benderfynu ar hawl pensiynwyr i gael gostyngiad ynghyd â swm y gostyngiad hwnnw dan y cynllun hwn ac uchafswm y Gostyngiad yn y Dreth Gyngor dan y cynllun hwn. Maent hefyd yn nodi sut y mae incwm a chyfalaf ar gyfer pensiynwyr yn cael eu trin wrth weithio allan eu hawl am ostyngiad dan y cynllun hwn.

**Rhan 5 ac Atodlenni 6 i 10 y Rheoliadau Rhagnodedig: materion y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cynllun hwn mewn perthynas â phobl nad ydynt yn bensiynwyr (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

Yn Atodlenni 6 i 10, nodir y rheolau sy'n berthnasol i benderfynu ar gymhwyster pobl nad ydynt yn bensiynwyr i ostyngiad ynghyd â swm y gostyngiad dan y cynllun hwn ac uchafswm y Gostyngiad yn y Dreth Gyngor dan y cynllun hwn. Maent hefyd yn nodi sut y bydd incwm a chyfalaf ar gyfer pobl nad ydynt yn bensiynwyr yn cael eu trin wrth weithio allan eu hawl i ostyngiad dan y cynllun hwn, gan gynnwys mewn achosion lle mae person nad yw'n bensiynwyr neu ei b/phartner yn cael credyd cynhwysol.

**Atodlen 11 y Rheoliadau Rhagnodedig (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

Nodi y darpariaethau ar gyfer defnyddio'r cynllun hwn yn achos myfyrwyr.

**Rhan 5 ac Atodlenni 12 i 14 y Rheoliadau Rhagnodedig: materion y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cynllun hwn mewn perthynas â phob ymgeisydd h.y. pensiynwr a phobl nad ydynt yn bensiynwyr (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

Mae Atodlen 12 yn ymwneud â materion gweithdrefnol y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cynllun hwn. Mae'n disgrifio'r weithdrefn y dylai person ei ddilyn wrth wneud cais am ostyngiad yn y Dreth Gyngor dan y cynllun hwn. Mae Atodiad 1 y cynllun hwn yn rhoi manylion ynghylch sut y gall person wneud cais i Gyngor Sir Ynys Môn am ostyngiad yn y Dreth Gyngor.

Mae Atodlen 12 hefyd yn disgrifio sut y gall person apelio yn erbyn penderfyniadau penodol a wneir gan Gyngor Sir Ynys Môn dan y cynllun hwn.

Gan fod Cyngor Sir Ynys Môn yn defnyddio dulliau cyfathrebu electronig mewn perthynas â chyflwyno cais a rhoi gostyngiad, ceir yn Atodlen 12 fanylion am faterion y mae'n rhaid eu cynnwys dan y cynllun hwn.

Mae Atodlenni 13 a 14 yn disgrifio pwy a fedr wneud cais dan y cynllun hwn, dyddiad cyflwyno'r cais, ôl-ddyddio ceisiadau i bensiynwyr a phobl nad ydynt yn bensiynwyr, diwygio a thynnu ceisiadau yn ôl a'r dystiolaeth a'r wybodaeth y mae eu hangen gyda'r cais. Mae Atodlenni 13 a 14 hefyd yn nodi'r gofynion dan y cynllun hwn o ran y wybodaeth y mae'n rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn ei ddarparu wrth roi gwybod i'r ymgeisydd am y penderfyniad a'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys yn y rhybudd o benderfyniad.

**Rhan 6 y Rheoliadau Rhagnodedig (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

Gosod allan y darpariaethau trosiannol fydd yn berthnasol i bobl sy'n derbyn, neu sydd wedi gwneud cais i dderbyn, gostyngiad o dan y cynlluniau gostyngiadau cyfredol, pan fydd y cynlluniau newydd yn dod i rym.

**Elfennau dewisol y cytunwyd arnynt gan Gyngor Sir Ynys Môn i ddarparu cefnogaeth ar gyfer y Dreth Cyngor yn ychwanegol at y gofynion statudol a nodwyd yn y Rheoliadau Rhagnodedig a fabwysiadwyd gan y Cyngor**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi penderfynu mabwysiadu Cynllun Dewisol Lleol ar gyfer Pensiwn Anabledd Rhyfel a Phensiynau Gweddwon Rhyfel. Manylir ar hyn yn Atodiad 2 lle nodir yr elfennau hynny o bensiynau o'r fath a fydd yn cael eu diystyru fel incwm. Mae hwn yn gymorth at y Dreth Gyngor sy'n ychwanegol at y gefnogaeth sy'n ofynnol yn statudol yn y Rheoliadau Rhagnodedig.

Hwn fydd yr unig ddisgresiwn lleol y bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn ei ddefnyddio dan ei Gynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

**ATODIAD 1**

**Manylion am y drefn lle y gall rhywun wneud cais am ostyngiad o dan y cynllun**

Rhaid i bob person wneud cais am Ostyngiad Dreth Gyngor, oni bai bod rheoliadau pellach gan Lywodraeth Cymru yn datgan fel arall. Bydd hon yn ffurflen electronig neu'n ffurflen gais bapur ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a rhaid ei danfon i un o'r swyddfeydd dynodedig canlynol:-

**A.** Gellir gwneud cais electronig fel a ganlyn: -

**i.** Drwy apwyntiad i fynychu i gwblhau'r ffurflen yng Nghyswllt Môn,Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, LL77 7TW (Ffôn 01248 755869/70/72/73/74/75/76/77/78/79) neu i ymweld â chleientiaid bregus yn eu cartref i gwblhau'r ffurflen gais (Ffôn 01248 752658/752226);

**ii.** Drwy apwyntiad i lenwi'r ffurflen dros y ffôn yn Swyddfeydd Adain Refeniw a Budd-daliadau, Swyddogaeth Adnoddau, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, LL77 7TW (Ffôn 01248 752658/752226);

**iii.** Drwy apwyntiad i gwblhau'r ffurflen hefo "partneriaid" cymeradwy hefo hyfforddiant priodol. Y rhai cyfredol yw -

- Canolfan JE O'Toole, Sgwâr Trearddur, Caergybi, LL65 1NB (Ffôn 01407 760208);
- unrhyw swyddfa Cyngor ar Bopeth sydd ar yr Ynys (Ffôn 01248 722652);
- Swyddfa Cymorth Tai, Cyngor Sir Ynys Môn, Sgwâr Trearddur, Caergybi, LL65 1NB (Ffôn 01407 765912) a Gwasanaethau Cwsmer Tai, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni (Ffôn 01248 752200); ac
- Swyddfeydd Digartref Ynys Môn, Caergybi (Ffôn 01407 765557).

Efallai, yn y flwyddyn, bydd yr Awdurdod yn ychwanegu at y rhestr yma o "bartneriaid" cymeradwyo hefo hyfforddiant priodol;

**iv.** Yn electronig drwy wefan Cyngor Sir Ynys Môn - http://www.ynysmon.gov.uk/lles-ac-arian/budd-daliadau-a-hawliau-lles/cais-ar-lein-budd-dal-tai-a-cynllun.gostyngiadaur-dreth-gyngor/ neu safleoedd hunan wasanaeth o fewn :-

- Cyswllt Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, LL77 7TW (Ffôn 01248 755869/70/72/73/74/75/76/77/78/79);
- Caffi Stesion y Llan, Yr Hen Stesion, Bridge Street, Llanerchymedd LL71 8EU (Ffôn 01248 470481);
- Canolfan Iorwerth Rowlands, Steeple Lane, Biwmares, LL58 8AE (Ffôn 01248 811508);
- Llyfrgell Amlwch, Lôn Parys, Amlwch, LL68 9EA (Ffôn 01407 830145);
- Llyfrgell Niwbwrch, Neuadd Prichard Jones, Niwbwrch, Llanfairpwllgwyngyll LL61 6SY (Ffôn 01248 440770);
- Canolfan JE O'Toole, Sgwâr Trearddur, Caergybi, LL65 1NB (Ffôn 01407 760208);
- Canolfan Gymunedol Gwelfor, Ffordd Tudur, Morawelon, Caergybi LL65 2DH (Ffôn 01407 763518);

**v.** Dogfen Mewnbwn Awdurdod Lleol yr Adran Gwaith a Phensiynau (LAID) a Gwybodaeth Cwsmer Awdurdod Lleol (LACI) **(i hawlwyr Budd-dal Tai yn unig. NID YW'N BERTHNASOL I HAWLWYR OEDRAN GWAITH CREDYD CYNHWYSOL);**

**vi.** Yn electronig ar unrhyw ffurf arall y bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn penderfynu arno yn y dyfodol.

**B.** Gellir cyflwyno cais ar bapur drwy'r dulliau canlynol: -

**i.** Trwy gyfrwng ffurflenni cais a gymeradwywyd a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn Swyddogaeth Adnoddau, Adain Refeniw a Budd-daliadau yn ei swyddfeydd dynodedig yn Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, LL77 7TW neu'r Swyddfa Budd-daliadau, Canolfan J E O'Toole, Sgŵar Trearddur, Caergybi, LL65 1NB.

**CYNLLUN LLEOL - DIYSTYRU PENSIWN RHYFEL**
**Atodlen 4, Rheoliad 30 - Pensiynwyr**
**Atodlen 9, Rheoliad 31 – Heb fod yn Bensiynwyr**

| ELFENNAU UNIGOL | DIYSTYRU INCWM |
|---|---|
| Pensiwn Anabledd Rhyfel | Ydyw<br>(£10 statudol, 100% Lleol) |
| Pensiwn Gweddwon Rhyfel | Ydyw<br>(£10 statudol, 100% Lleol) |
| Pensiwn Gweddwon Rhyfel (cyn 1973 - SPAL) | Ydyw<br>(2019/20) 100% statudol, £ ??. ?? yn amodol ar uwchraddio blynyddol*) |
| Atodiad Anghyflogadwy | Na |
| Lwfans ychwanegol ar gyfer Gwraig (a delir gydag Atodiad Anghyflogadwy) | Na |
| Lwfans Gweini Cyson | Ydyw (statudol) |
| Lwfans Annilysrwydd | Na |
| Lwfans ‘Cysuron’ | Na |
| Lwfans Oed | Na |
| Lwfans ar gyfer Galwedigaeth o Safon Is | Na |
| Atodiad Symudedd Pensiynwyr Rhyfel | Ydyw (statudol) |
| Lwfans Anabledd Difrifol Eithriadol | Ydyw (statudol) |
| Lwfans Galwedigaethol Anabledd Difrifol | Ydyw (statudol) |
| Lwfans Plant | Na |

* gosodir gan y Lluoedd Morwrol, y Fyddin a’r Awyrlu ac ati, Gorchymyn Pensiwn Gwasanaeth “Anabledd a Marwolaeth” 2006. Nid yw’r ffigyrau uwchraddio ar gyfer 2019 /20 wedi dod i law eto.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith**<br>**Cyngor Sir** |
| **Dyddiad:** | **29 Hydref 2018**<br>**11 Rhagfyr 2018** |
| **Pwnc:** | **Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu – Cylch Gorchwyl Diwygiedig** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Robin Williams (Deilydd Portffolio Cyllid)** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Marc Jones, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk<br><br>**Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro**<br>LynnBall@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg**<br>**01248 752611**<br>MarionPryor@ynysmon.go.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

| A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau |
|---|
| Fod y Pwyllgor Gwaith yn argymell i'r Cyngor ei fod yn cymeradwyo'r newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor, sef cylch gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fel y'i hamlinellir yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn.<br><br>**Rhesymau**<br>Mae arfer dda'n awgrymu y dylai pwyllgorau archwilio adolygu eu cylch gorchwyl yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn briodol. Adolygwyd cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ddiwethaf ym mis Chwefror 2015, a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Ebrill a'r Cyngor Sir ym mis Mai 2015.<br><br>Ym mis Mai 2018, bu i Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) adolygu a diweddaru ei ganllawiau'n llawn er mwyn rhoi ystyriaeth i newidiadau deddfwriaethol a datblygiadau sydd wedi effeithio ar y sector cyhoeddus. |

| |
|---|
| Roedd aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu'n awyddus iawn i fod yn rhan o'r adolygiad o'r cylch gorchwyl ac roeddent yn bresennol mewn gweithdy i drafod y canllawiau diwygiedig a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2018.<br><br>Mae'r canllawiau diwygiedig yn diweddaru swyddogaethau craidd y pwyllgor archwilio mewn perthynas â llywodraethu, rheoli risg, rheolaeth fewnol ac archwilio. Mae hyn yn cynnwys rheoliadau a chanllawiau statudol diwygiedig, yn cynnwys fersiynau diwygiedig Safonau Archwilio Mewnol ac Allanol y Sector Cyhoeddus, a Fframwaith Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol a chanllawiau cysylltiedig.<br><br>Yn ogystal, diweddarwyd rôl y pwyllgor archwilio mewn perthynas ag atal twyll er mwyn adlewyrchu'r Cod Ymarfer Rheoli'r Risg o Dwyll a Llygredigaeth.<br><br>Mae'r canllawiau'n parhau i ganolbwyntio ar y ffactorau sy'n cefnogi gwelliant. Maent yn cynnwys y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar aelodau pwyllgor archwilio ac yn canolbwyntio ar lle mae pwyllgor archwilio'n ychwanegu gwerth. Yn ogystal, mae'n darparu cefnogaeth ymarferol er mwyn arfarnu effeithiolrwydd y pwyllgor a chynllunio gwelliannau.<br><br>Mae'r adroddiad hwn yn cynnig cylch gorchwyl wedi ei ddiwygio'n llwyr er cymeradwyaeth. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Mae opsiwn i wneud dim byd ac i beidio newid y cylch gorchwyl presennol. Fodd bynnag, cydnabyddir fod angen diweddaru'r cylch gorchwyl presennol er mwyn cydymffurfio â chanllawiau'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i gyflawni ei gyfrifoldebau. Mae canllawiau CIPFA yn cynrychioli'r arfer orau ar gyfer pwyllgorau archwilio mewn awdurdodau lleol ledled y DU. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae hwn yn newid cyfansoddiadol, y mae angen barn y Pwyllgor Gwaith arno cyn cyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor Llawn er cymeradwyaeth. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Cymeradwywyd heb unrhyw sylwadau ychwanegol (28/08/18) |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Er mwyn sicrhau nad oes oedi yn y broses o gymeradwyo datganiadau ariannol y Cyngor, gofynnodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu barhau i gymeradwyo penodiadau aelodau lleyg yn hytrach na throsglwyddo'r cyfrifoldeb i'r Cyngor Llawn yn unol â'r argymhelliad yng nghanllawiau CIPFA. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Cymeradwywyd, gyda mân sylwadau, a rhoddwyd sylw i'r materion hynny. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| **7** | **Caffael** | Amherthnasol |
| **8** | **Sgriwtini** | Amherthnasol |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | Trafododd aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ofynion canllawiau diwygiedig CIPFA yn ystod gweithdy a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2018. Cynhwyswyd eu sylwadau yn y cylch gorchwyl diwygiedig. Cymeradwyodd y Pwyllgor y Cylch Gorchwyl Diwygiedig yn ei gyfarfod ar 19 Medi 2018. |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
|---|

**FF – Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, Eitem Rhif 9 ar y Rhaglen, 19 Medi 2018
- Cyflwyniad Gweithdy'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, 13 Mehefin 2018
- *Audit Committees: Practical Guidance for Local Authorities and Police*, CIPFA, 2018, ar gael o www.cipfa.org.uk/publications
- *Position Statement: Audit Committees in Local Authorities and Police,* CIPFA, 2018 ar gael o www.cipfa.org.uk/publications
- *Public Sector Internal Audit Standards (PSIAS)* a'r dogfennau cefnogol *Local Government Application Note for the United Kingdom Public Sector Internal Audit Standards (LGAN)*
- Siarter Archwilio Mewnol (Medi 2017)
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Adran 85 yn arbennig
- Canllawiau Statudol o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Llywodraeth Cymru 2012
- Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014
- Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018
- *Statement on the Role of the Head of Internal Audit in Public Service Organisations*, CIPFA, 2010
- *Statement on the Role of the Chief Financial Officer in Local Government,* CIPFA, 2016
- Strategaeth Rheoli Trysorlys 2018/19
- *Treasury Management in Public Services: Code of Practice and Cross-Sectoral Guidance Notes*, CIPFA, Cyfrol 2017
- *Code of Practice on Managing the Risk of Fraud and Corruption*, CIPFA, 2014
- Cyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adrodd i:** | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu<br>Pwyllgor Gwaith (29 Hydref 2018)<br>Y Cyngor Sir (30 Hydref 2018) |
| **Dyddiad:** | 19 Medi 2018 |
| **Pwnc:** | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu - Cylch Gorchwyl wedi ei Ddiweddaru |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog S151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg<br>01248 752611<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae arfer dda yn awgrymu y dylai pwyllgorau adolygu eu cylch gorchwyl o bryd i'w gilydd er mwyn sefydlu a yw'n parhau i fod briodol. Adolygodd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ei gylch gorchwyl ddiwethaf ym mis Chwefror 2015, ac fe'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Ebrill a chan y Cyngor Sir ym mis Mai 2015. Ym mis Mai 2018, fe wnaeth y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ei adolygu'n llawn a'i ddiweddaru i gymryd i ystyriaeth y newidiadau deddfwriaethol a datblygiadau proffesiynol sydd wedi effeithio ar y sector cyhoeddus. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig cylch gorchwyl diwygiedig llawn i'r Pwyllgor ei ystyried cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor i'w gymeradwyo. | |

## 1. Rhagarweiniad a Chefndir

1.1. Mae pwyllgorau archwilio yn elfen allweddol o lywodraethu corfforaethol ac yn chwarae rhan bwysig o ran cefnogi awdurdodau lleol. Maent yn ffynhonnell sicrwydd bwysig ynghylch trefniadau sefydliad i reoli risg, cynnal amgylchedd rheoli effeithiol ac adrodd ar berfformiad ariannol a pherfformiad arall.

1.2. I fod yn wirioneddol effeithiol, mae'r prif swyddog ariannol yn mynnu bod pwyllgor archwilio effeithiol yn darparu cefnogaeth a her. Yn ychwanegol, rôl hanfodol i'r pwyllgor archwilio yw goruchwylio'r swyddogaeth archwilio mewnol, gan helpu i sicrhau ei bod yn ddigonol ac yn effeithiol. Mae'r ddwy elfen hon bellach wedi'u hymgorffori yn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) a'r Nodyn Cymhwysiad Llywodraeth Leol ar gyfer y Deyrnas Unedig (LGAN).

1.3. Bu nifer o ddatblygiadau arwyddocaol eraill mewn arferion llywodraethu ac archwilio ers 2015, sydd wedi amlygu pwysigrwydd y pwyllgor archwilio, gan gynnwys Cyflawni Llywodraethiant Da mewn Llywodraeth Leol: Fframwaith (CIPFA / Solace, 2016).

1.4. Mae Rhaglen Waith y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn darparu ar gyfer adolygiad rheolaidd o'i gylch gorchwyl. Roedd yr adolygiad diwethaf yn cydnabod newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio a'r canllawiau sy'n ymwneud â phwyllgorau archwilio, yn enwedig, y rôl fwy sydd i'r pwyllgor archwilio ym mhob agwedd ar sicrwydd. Roedd hyn yn dilyn argymhelliad y Pwyllgor i'r Cyngor newid ei enw i'r

'Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu' er mwyn gwneud rôl y Pwyllgor o ran llywodraethiant a sicrwydd cyffredinol yn fwy tryloyw.

1.5. Roedd y Pwyllgor i fod i adolygu ei gylch gorchwyl yn ei gyfarfod ym mis Medi 2017. Fodd bynnag, yn y cyfarfod hwnnw a chyfarfodydd dilynol, cymeradwyodd y Pwyllgor ohirio'r adolygiad hyd nes y byddai canllawiau'r Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifeg Cyhoeddus (CIPFA) newydd yn cael eu cyhoeddi.

## 2. Canllawiau Diwygiedig

2.1. Mae arweiniad CIPFA yn cynrychioli'r arfer orau ar gyfer pwyllgorau archwilio mewn awdurdodau lleol ledled y DU. Cyhoeddodd ei ganllaw newydd ym Mai 2018, ac fe'i cylchredwyd i aelodau'r Pwyllgor ar 25 Mai 2018. Roedd yr Aelodau'n awyddus i fod yn rhan o'r adolygiad o'r cylch gorchwyl a mynychwyd gweithdy i drafod y canllawiau diweddaraf ar 13 Mehefin 2018.

2.2. Mae'r canllawiau diwygiedig yn diweddaru swyddogaethau craidd y pwyllgor archwilio mewn perthynas â llywodraethu, rheoli risg, rheolaeth fewnol ac archwilio. Mae CIPFA hefyd wedi diweddaru rôl y pwyllgor archwilio mewn perthynas â gwrth-dwyll i adlewyrchu'r Côd Ymarfer ar Reoli'r Risg o Dwyll a Llygredd.

2.3. Mae'r canllawiau yn parhau i gynnwys ffocws cryf ar y ffactorau sy'n cefnogi gwelliant. Mae'r rhain yn cynnwys y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar aelodau'r pwyllgor archwilio ac yn canolbwyntio ar ble mae'r pwyllgor archwilio yn ychwanegu gwerth. Mae hefyd yn darparu cefnogaeth ymarferol i werthuso effeithiolrwydd pwyllgorau ac i gynllunio gwelliannau.

2.4. Mae'r canllawiau wedi eu hymgorffori yn y cylch gorchwyl yn bennaf, ac eithrio'r gofyniad i'r cyngor llawn gymeradwyo penodi aelodau lleyg. Roedd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 yn pryderu y byddai oedi o ran cymeradwyo aelodau lleyg yn golygu y byddai'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu hefyd yn cael ei ohirio, a allai achosi problemau o ran cymeradwyo'r datganiad cyfrifon drafft erbyn y dyddiad cau. Felly, mae'r gofyniad blaenorol ar gyfer sicrhau cymeradwyaeth aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn parhau.

## 3. Ymgynghoriad

3.1. Wrth ddatblygu'r cylch gorchwyl, cymerwyd i ystyriaeth y rheoliadau a'r canllawiau penodol sy'n briodol i'r Cyngor (a restrir yn Atodiad A ). Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a'r Swyddog Monitro a gweddill yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Ymgynghorwyd â'r ddau aelod lleyg, Mr Dilwyn Evans a Mr Jonathan Mendoza hefyd. Cafwyd sylwadau defnyddiol gan yr holl ymgynghoreion.

## 4. Argymhelliad

4.1. Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystyried y cylch gorchwyl drafft ac yn gwneud unrhyw sylwadau cyn i'r telerau diwygiedig gael eu hargymell gan y Pwyllgor Gwaith ar 29 Hydref 2018 i'w mabwysiadu gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 30 Hydref 2018.

# Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

## Cylch Gorchwyl Drafft

### Medi 2018

## Datganiad o bwrpas

1. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn elfen allweddol o lywodraethiant corfforaethol y Cyngor. Mae'n darparu ffocws annibynnol a lefel uchel ar y trefniadau archwilio, sicrwydd ac adrodd sy'n sail i lywodraethiant a safonau ariannol da.

2. Pwrpas y pwyllgor archwilio yw darparu sicrwydd annibynnol i aelodau'r Cyngor llawn (*'y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu'*) o ddigonolrwydd y fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd rheolaeth fewnol a chywirdeb y prosesau adrodd ariannol a llywodraethiant. Mae'n goruchwylio archwiliad mewnol ac allanol a rheoleiddwyr eraill, gan helpu i sicrhau bod trefniadau sicrwydd effeithiol yn eu lle.

3. Mae gwahaniad clir rhwng rôl y Pwyllgor Archwilio a phwyllgorau sgriwtini. Fel rhan o rôl y pwyllgor archwilio, mae'n ceisio sicrwydd bod rheolaethau mewnol y cyngor yn gweithio ac yn rheoli risgiau'n effeithiol, yn hytrach na chraffu gweithgareddau.

## Cyfansoddiad a threfniadau

4. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn gorff anweithredol a sefydlwyd dan ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ac mae'n bwyllgor cwbl gyfansoddiadol o'r Cyngor sy'n gweithredu ar lefel strategol. Bydd y pwyllgor yn arwain ei fusnes yn anwleidyddol ac mae'n rhaid iddo gydymffurfio â'r rheolau sy'n ymwneud â chydbwysedd gwleidyddol, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

5. Bydd y pwyllgor yn cynnwys wyth aelod etholedig a dau aelod lleyg. Bydd cydbwysedd gwleidyddol o ran yr aelodau etholedig ac ni fyddant yn aelodau o'r pwyllgor gwaith, ond mae'n ofynnol i'r Aelod Portffolio Cyllid, i'r graddau y mae hynny'n bosibl, fynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor. Bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn argymell penodi'r ddau aelod lleyg i'r pwyllgor archwilio. Bydd yr aelodau lleyg yn gwasanaethu am gyfnod penodol i gyd-fynd â hyd tymor y Cyngor, h.y. pum mlynedd, a byddant yn gwasanaethu am ddau dymor. Mae'r holl aelodau, gan gynnwys aelodau lleyg, yn ddarostyngedig i Gôd Ymddygiad y Cyngor a byddant yn datgan unrhyw fuddiannau. Bydd gan yr aelodau lleyg statws cyfartal â'r aelodau etholedig o ran mynediad i staff a gwybodaeth, at ddibenion y pwyllgor archwilio.

6. Gall cadeirydd y pwyllgor archwilio fod yn gynghorydd neu'n aelod lleyg, ond ni chaiff fod yn aelod o grŵp sy'n ffurfio rhan o bwyllgor gwaith y cyngor, ac eithrio pan fo pob grŵp yn cael ei gynrychioli ar y pwyllgor gwaith (ac yn yr achos hwnnw, ni ddylai'r cadeirydd fod yn aelod o'r pwyllgor gwaith). Bydd aelodau'r pwyllgor yn penderfynu ar gadeirydd ac is-gadeirydd y pwyllgor. Bydd gan bob aelod o'r pwyllgor, gan gynnwys aelodau lleyg, bleidlais.

7. Rhaid i unrhyw swyddog neu aelod sy'n cael cais i fynychu cyfarfod pwyllgor archwilio wneud hynny. Rhaid iddynt ateb unrhyw gwestiynau a ofynnir iddynt, ac eithrio rhai y gallent wrthod eu hateb os oeddent yn y llys. Gall y pwyllgor wahodd eraill i fynychu, ond nid oes unrhyw reidrwydd ar unrhyw berson arall a wahoddir i fynychu i wneud hynny.

8. Bydd y pwyllgor yn cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn a rhaid iddo gwrdd os yw'r cyngor llawn yn penderfynu bod angen, neu os yw o leiaf draean o aelodau'r pwyllgor yn gofyn i'r Cadeirydd gynnal cyfarfod. Bydd y cyngor yn cyhoeddi dyddiadau'r pwyllgor yn flynyddol ond gellir trefnu cyfarfodydd ychwanegol yn ôl disgresiwn y Cadeirydd os rhoddir y nifer o ddyddiau angenrheidiol a bod yr agenda yn cael ei chyhoeddi cyn y cyfarfod, yn unol â'r rheoliadau.

9. Bydd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151, fel y swyddog sy'n gyfrifol am weinyddiaeth ariannol, yn cynghori'r pwyllgor. Bydd y Pwyllgor yn darparu cefnogaeth effeithiol i’r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151 a fydd, o ganlyniad, yn cael mynediad uniongyrchol a dirwystr i'r pwyllgor.

10. Gall y pwyllgor gomisiynu gwaith gan yr archwilwyr allanol a mewnol a bydd y ddau yn cynghori'r Pwyllgor. Yn ogystal, gall y Pwyllgor geisio cyngor annibynnol o’r tu allan i'r Cyngor, o fewn y gyllideb a gymeradwywyd.

11. Mae gan archwilwyr allanol a mewnol y Cyngor yr hawl i ofyn i gadeirydd y pwyllgor ystyried unrhyw fater y dylid, ym marn yr archwilwyr, ei ddwyn at sylw'r Cyngor.

12. Bydd pob aelod newydd yn derbyn cyflwyniad llawn i'r pwyllgor. Bydd gan aelodau ddisgrifiadau rôl a byddant yn adolygu eu gwybodaeth a'u sgiliau trwy broses hunanasesu. Byddant yn derbyn hyfforddiant parhaus priodol yn eu rôl yn unol â rhaglen hyfforddi flynyddol a byddant yn derbyn sesiynau briffio rheolaidd ar ddeddfwriaeth newydd, canllawiau proffesiynol ac ymchwil.

## Trefniadau atebolrwydd

13. Bydd y pwyllgor yn adrodd yn ôl i'r cyngor llawn *('y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu')* yn flynyddol, ganfyddiadau'r pwyllgor archwilio, casgliadau ac argymhellion ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor; trefniadau adrodd ariannol, a swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol.

14. Bydd y pwyllgor yn adrodd i'r cyngor llawn *('y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu')* yn flynyddol ar effeithiolrwydd y pwyllgor wrth gyflawni ei bwrpas a'i gylch gorchwyl cytunedig. Bydd hunanasesiad rheolaidd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi cynllunio rhaglen waith y pwyllgor archwilio a chynlluniau hyfforddi a bydd yn llywio adroddiad blynyddol y pwyllgor.

15. Mae'r pwyllgor yn ddarostyngedig i drefniadau arferol sy’n ymwneud â bod yn agored. Cynhelir cyfarfodydd yn gyhoeddus, cyhoeddir rhaglenni ac adroddiadau ac maent ar gael i'w harchwilio. Yr eithriad i hyn yw lle mae 'eitemau eithriedig' yn cael eu hystyried, sef materion sydd yn bennaf yn cynnwys trafodaethau ynghylch unigolion a enwir neu sy'n cyfeirio at faterion busnes y Cyngor a allai niweidio buddiannau'r Cyngor yn fasnachol, yn ariannol ac yn gyfreithlon.

## Llywodraethu

16. Bydd y pwyllgor yn adolygu ac yn asesu trefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor yn erbyn y fframwaith llywodraethiant da[1], gan gynnwys y fframwaith moesegol, a bydd yn ystyried y côd llywodraethu lleol.

17. Bydd y pwyllgor yn adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS) cyn gofyn am gymeradwyaeth y cyngor llawn ac yn ystyried a yw'n briodol adlewyrchu'r amgylchedd risg a'r sicrwydd ategol, gan ystyried barn y gwasanaeth archwilio mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y cyngor.

18. Bydd y pwyllgor yn helpu'r cyngor i weithredu gwerthoedd llywodraethu moesegol. Bydd yn hyrwyddo mesurau i wella tryloywder ac atebolrwydd ac adroddiadau cyhoeddus effeithiol i randdeiliaid yr awdurdod a'r gymuned leol. Fel rhan o'i adolygiad o drefniadau llywodraethu, bydd yn sicrhau bod trefniadau digonol ar waith i orfodi ymrwymiad cryf i werthoedd moesol a chydymffurfiad cyfreithiol ar bob lefel.

19. Bydd y pwyllgor yn adolygu'r trefniadau llywodraethu a sicrwydd sydd ar gael ar gyfer partneriaethau neu drefniadau cydweithio o bwys.

## Rheoli Trysorlys

20. Mae'r cyngor llawn wedi enwebu'r pwyllgor archwilio i fod yn gyfrifol am sicrhau craffu effeithiol ar strategaeth a pholisïau rheoli trysorlys.

21. Bydd y pwyllgor yn ymgymryd â rôl archwilio yn unol â Chod Ymarfer Rheoli Trysorlys CIPFA, cyn ei gymeradwyo gan y cyngor llawn. Lle mae'n ymgymryd â'r rôl graffu hon, bydd yn ymdrechu i ddatblygu mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion trysorlys ymhlith yr aelodau.

22. Bydd y pwyllgor yn adolygu'r polisi a'r gweithdrefnau rheoli trysorlys er mwyn bodloni ei hun fod y rheolaethau'n foddhaol. Bydd yn derbyn adroddiadau bob

[1] Cyflawni Llywodraethiant Da mewn Llywodraeth Leol: Fframwaith, CIPFA / SOLACE, 2016

chwe mis ar weithgareddau, materion a thueddiadau i gefnogi dealltwriaeth y pwyllgor o weithgareddau rheoli trysorlys.

23. Bydd y pwyllgor yn adolygu proffil a phrosesau risg y trysorlys, a bydd yn adolygu'r sicrwydd a roddir ynghylch rheoli trysorlys.

## Gwerth am arian

24. Bydd y pwyllgor yn cefnogi datblygu trefniadau cadarn i sicrhau bod y cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau a bod trethdalwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwerth rhagorol am arian.

25. Bydd y pwyllgor yn adolygu ymagwedd gyffredinol y cyngor tuag at werth am arian ac yn asesu a yw'n cyd-fynd ag amcanion llywodraethu a'r sicrwydd ynghylch hyn i ategu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

26. Bydd y pwyllgor yn ystyried sicrwydd ac asesiadau ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn, yn enwedig adroddiadau gwella blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru.

## Fframwaith sicrwydd

27. Bydd y pwyllgor yn ystyried fframwaith sicrwydd y cyngor ac yn sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â risgiau a blaenoriaethau'r cyngor yn ddigonol. Bydd hyn yn gymorth i gefnogi'r pwyllgor wrth iddo gymeradwyo'r cynllun archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg trwy nodi i ba raddau y bydd yn dibynnu ar archwiliad mewnol am ei ofynion sicrwydd.

28. Bydd y pwyllgor yn sicrhau bod eglurder ynghylch y sicrwydd a ddarperir, bod cyfrifoldeb yn cael ei ddyrannu'n glir ar gyfer darparu sicrwydd ac osgoi dyblygu.

## Rheoli risg

29. Bydd sicrwydd dros reoli risg yn elfen allweddol sy'n sail i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. I'r perwyl hwn, bydd y pwyllgor yn adolygu ac yn asesu datblygiad a gweithrediad rheolaeth risg effeithiol yn y cyngor. Yn benodol, bydd yn:

    - Goruchwylio polisi a strategaeth rheoli risg yr awdurdod, a'u gweithredu'n ymarferol
    - Goruchwylio'r modd y caiff rheoli risg ei integreiddio i brosesau llywodraethu a gwneud penderfyniadau'r sefydliad
    - Adolygu'r trefniadau i gydlynu a rheoli risgiau, gan gynnwys y broses a'r llinellau adrodd

- Adolygu'r proffil risg, cadw i fyny â meysydd sylweddol o risgiau strategol a risgiau gweithredol a phrosiectau mawr
- Adolygu'r sicrwydd sydd ar gael ar gyfer rheoli risgiau partneriaeth, gan gynnwys proffil risg y Cyngor fel rhan o'r bartneriaeth
- Adolygu'r gofrestr risg gorfforaethol a cheisio sicrwydd bod y rheolwyr yn cymryd perchenogaeth briodol ac yn rheoli risgiau yn effeithiol
- Mofyn sicrwydd bod asesiadau risg digonol yn cefnogi strategaethau a pholisïau a bod risgiau yn cael eu rheoli a'u monitro'n weithredol.
- Dilyn i fyny a monitro risgiau a nodwyd gan archwilwyr ac arolygwyr i sicrhau eu bod wedi'u hintegreiddio i'r broses rheoli risg
- Cefnogi datblygiad ac ymgorffori arferion da yn y maes rheoli risg.

## Mynd i'r afael â thwyll a llygredd

30. Bydd y pwyllgor yn adolygu effeithiolrwydd trefniadau chwythu chwiban y cyngor, gan gynnwys y polisi.
31. Bydd y pwyllgor yn monitro'r strategaeth, y camau gweithredu a'r adnoddau gwrth-dwyll a llygredd, er mwyn sicrhau eu bod yn cwrdd â'r arferion, y safonau llywodraethu a ddeddfwriaeth a argymhellir.
32. Bydd y pwyllgor yn adolygu'r asesiad o risgiau twyll a niwed posibl i'r cyngor yn sgil twyll a llygredd. Bydd yn adolygu'r proffil risg twyll er mwyn deall lefel y risg o dwyll y mae'r awdurdod yn agored iddo a'r goblygiadau i'r amgylchedd rheoli ehangach.
33. Bydd yn goruchwylio unrhyw feysydd sylweddol o dwyll, a nodir mewn adroddiad blynyddol gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151, ac yn monitro cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â gwendidau rheoli.

## Archwiliad mewnol

34. Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae gofyniad penodol i'r pwyllgor archwilio oruchwylio trefniadau archwilio mewnol y cyngor.
35. Rôl y pwyllgor archwilio mewn perthynas ag archwilio mewnol fydd:
    - goruchwylio ei annibyniaeth, gwrthrychedd, perfformiad a phroffesiynoldeb
    - cefnogi effeithiolrwydd y broses archwilio fewnol
    - hyrwyddo defnydd effeithiol o archwiliad mewnol o fewn y fframwaith sicrwydd.

36. Bydd y pwyllgor yn adolygu ac yn cymeradwyo'r siarter archwilio mewnol, sy'n diffinio pwrpas, awdurdod a chyfrifoldeb y gweithgaredd archwilio mewnol.

37. Os yw'n berthnasol, bydd yn adolygu cynigion ac yn gwneud argymhellion mewn perthynas â phenodi darparwyr allanol a all ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol.

38. Bydd y pwyllgor yn cymeradwyo (ond ddim yn rheoli) y strategaeth archwilio fewnol sy'n seiliedig ar risg, gan gynnwys anghenion archwilio mewnol o ran adnoddau a'r defnydd o ffynonellau sicrwydd eraill. Bydd ganddo ddealltwriaeth dda o'r lefel o sicrwydd y mae rheoli risg yn ei ddarparu pan fydd yn adolygu'r strategaeth archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg. Bydd y pwyllgor yn cymeradwyo newidiadau interim sylweddol i'r strategaeth.

39. Bydd y pwyllgor yn gwneud ymholiadau priodol i reolwyr a'r pennaeth archwilio mewnol i benderfynu a oes unrhyw sgôp amhriodol neu gyfyngiadau o ran adnoddau.

40. Bydd y pwyllgor yn ystyried adroddiad blynyddol gan y pennaeth archwilio mewnol ar berfformiad y swyddogaeth archwilio mewnol, gan gynnwys perfformiad darparwyr allanol gwasanaethau archwilio mewnol.

41. Bydd y pwyllgor yn ystyried adroddiad blynyddol y pennaeth archwilio mewnol a'r farn ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y cyngor ynghyd â chrynodeb o'r gwaith sy'n cefnogi'r farn. Bydd y rhain yn cynorthwyo'r pwyllgor wrth iddo adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

42. Bydd y pwyllgor yn ystyried y datganiad yn yr adroddiad blynyddol ar lefel y gydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a chanlyniadau'r Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella sy'n cefnogi'r datganiad - bydd y rhain yn nodi dibynadwyedd casgliadau'r archwilwyr mewnol.

43. Bydd y pwyllgor yn ystyried diweddariadau ar waith archwilio mewnol gan gynnwys canfyddiadau allweddol, materion sy'n peri pryder, ymatebion gan reolwyr a chamau gweithredu o ganlyniad i waith archwilio mewnol. Bydd yn ystyried crynodebau o adroddiadau archwilio mewnol penodol fel y gofynnir amdanynt, gan gynnwys effeithiolrwydd rheolaethau mewnol a bydd yn monitro gweithrediad y camau gweithredu y cytunwyd arnynt.

44. Bydd y pwyllgor yn derbyn adroddiadau yn amlinellu'r camau a gymerwyd lle mae'r pennaeth archwilio mewnol wedi dod i'r casgliad bod y rheolwyr wedi derbyn risg ar lefel a allai fod yn annerbyniol i'r awdurdod neu fod pryderon ynghylch cynnydd o ran gweithredu'r camau y cytunwyd arnynt.

45. Bydd y pwyllgor yn ystyried adroddiadau ar achosion lle nad yw'r swyddogaeth archwilio mewnol yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a'r Nodyn Cymhwysiad Llywodraeth Leol, gan ystyried a yw'r diffyg

cydymffurfiaeth yn ddigon arwyddocaol fel bod rhaid ei gynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

46. Bydd y pwyllgor yn ystyried, yn cymeradwyo ac, yn achlysurol, yn adolygu unrhyw ddulliau diogelu sydd wedi cael eu sefydlu i gyfyngu ar rwystrau i annibyniaeth a gwrthrychedd sydd gan y pennaeth archwilio mewnol yn deillio o rolau neu gyfrifoldebau ychwanegol sydd y tu allan i’r maes archwilio mewnol.

47. Bydd y pwyllgor yn cyfrannu at y Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella ac, yn benodol, at yr asesiad ansawdd allanol o archwiliad mewnol sy'n digwydd o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Bydd yn goruchwylio cymwysterau ac annibyniaeth yr asesydd.

48. Bydd y pwyllgor yn ystyried adroddiad ar effeithiolrwydd archwiliad mewnol i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, lle bo angen gwneud hynny yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

49. Bydd y pwyllgor yn cefnogi datblygiad dulliau cyfathrebu effeithiol â’r pennaeth archwilio mewnol. Mae'r ymgysylltiad rhwng y pennaeth archwilio mewnol a'r pwyllgor archwilio yn elfen hanfodol o ddarparu gwasanaeth archwilio mewnol effeithiol.

50. Bydd y pwyllgor yn darparu mynediad rhydd a cwbl ddirwystr i gadeirydd y pwyllgor archwilio ar gyfer y pennaeth archwilio mewnol, gan gynnwys y cyfle i gyfarfod yn breifat gyda'r pwyllgor.

## Archwiliad allanol

51. Bydd y pwyllgor yn cefnogi annibyniaeth a gwrthrychedd archwiliad allanol trwy ystyried asesiad blynyddol yr archwilydd annibynnol o'i annibyniaeth.

52. Bydd y pwyllgor yn ystyried llythyr blynyddol yr archwilydd allanol a'r adroddiad i'r *'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu'*. Bydd yn cyfrannu at ymateb y cyngor i'r llythyr archwilio blynyddol.

53. Bydd y pwyllgor yn goruchwylio trefniadau archwilio allanol, yn rhoi sylwadau ar sgôp a dyfnder y gwaith archwilio allanol ac yn sicrhau ei fod yn rhoi gwerth am arian. Bydd yn ystyried adroddiadau archwilio allanol a bydd yn monitro eu hargymhellion.

54. Bydd y pwyllgor yn cynghori ac yn argymell effeithiolrwydd y berthynas rhwng archwiliadau allanol a mewnol ac asiantaethau arolygu eraill neu gyrff perthnasol.

55. Bydd cyfle i'r pwyllgor archwilio gwrdd yn breifat ac ar wahân gyda'r archwiliwr allanol, yn annibynnol o’r swyddogion hynny y mae'n rhaid i'r archwilydd gynnal perthynas waith â hwy.

## Adrodd ariannol

56. Bydd y pwyllgor yn adolygu ac yn craffu ar faterion ariannol y cyngor, gan wneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â hwy.

57. Bydd y pwyllgor yn adolygu, cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y cyngor llawn, ddatganiadau ariannol blynyddol yr awdurdod, gan gynnwys y rhagair esboniadol, negeseuon allweddol, tueddiadau, cysondeb â pherfformiad ariannol, addasrwydd a chydymffurfiaeth â pholisïau a thriniaethau cyfrifyddu a meysydd dyfarnu pwysig.

58. Bydd y pwyllgor yn ystyried adroddiad yr archwilydd allanol i'r 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu' ar faterion sy'n deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon ac a oes angen eu dwyn i sylw'r cyngor ai peidio.

## Rheoleiddwyr ac arolygwyr eraill

59. Bydd y pwyllgor yn derbyn ac yn ystyried adroddiadau gan unrhyw reoleiddwyr neu arolygwyr eraill, a fydd yn ffynhonnell sicrwydd ddefnyddiol. O ran y rhain, bydd yr awdurdod yn sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu diangen rhwng y pwyllgor archwilio ac unrhyw bwyllgor trosolwg a sgriwtini wrth ystyried adroddiadau o'r fath.

## Atodiad A – Adroddiadau, Rheoliadau a Pholisïau a Ystyriwyd

- Cyflwyniad i'r Gweithdy Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, 13 Mehefin 2018
- *Pwyllgorau Archwilio: Canllawiau Ymarferol ar gyfer Awdurdodau Lleol a'r Heddlu*, CIPFA, 2018, ar gael o www.cipfa.org.uk/publications
- *Datganiad Sefyllfa: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu* , CIPFA, 2018, ar gael o www.cipfa.org.uk/publications
- *Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus* (PSIAS) a'r *Nodyn Cymhwysiads Llywodraeth Leol* ategol ar gyfer Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus y Deyrnas Unedig (LGAN)
- Siarter Archwilio Mewnol (Medi 2017)
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, yn benodol, Adran 85
- Canllawiau Statudol o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Llywodraeth Cymru, 2012
- Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014
- Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiad) 2018
- *Datganiad ar Rôl y Pennaeth Archwilio Mewnol mewn Sefydliadau Gwasanaethau Cyhoeddus*, CIPFA, 2010
- *Datganiad ar Rôl y Prif Swyddog Ariannol mewn Llywodraeth Leol*, CIPFA, 2016
- Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2018/19
- *Rheoli Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Côdd Ymarfer a Nodiadau Cyfarwyddyd Traws-Sectoraidd* , CIPFA, Argraffiad 2017
- *Côd Ymarfer ar Reoli'r Risg o Dwyll a Llygredd* , CIPFA, 2014
- Cyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH A'R CYNGOR LLAWN** |
| **Dyddiad:** | **29.10/2018 / 11.12.2018** |
| **Pwnc:** | **NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD – DIWYGIAD I'R CÔD YMDDYGIAD I SWYDDOGION A'R CANLLAWIAU AR Y CÔD YMDDYGIAD I SWYDDOGION** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD DAFYDD RHYS THOMAS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **LYNN BALL – PENNAETH GWASANAETH (BUSNES Y CYNGOR) / SWYDDOG MONITRO** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **MARED WYN YAXLEY – CYFREITHIWR (LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL)**<br>**Est 2566**<br>**mwycs@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **AMHERTHNASOL – MAE'N EFFEITHIO AR BOB AELOD** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

1. Fod y Cyngor yn:

1.1 Mabwysiadu'r Côd Ymddygiad i Swyddogion yn **Atodiad 2**;

1.2 Mabwysiadu'r Canllawiau Lleol ar y Côd Ymddygiad i Swyddogion yn **Atodiad 3**;

1.3 Awdurdodi'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad, yn cynnwys unrhyw newidiadau dilynol, er mwyn adlewyrchu'r ffaith fod **Atodiadau 2 a 3** wedi cael eu mabwysiadu.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Fel rhan o'r Adroddiad Archwilio Mewnol ar Ddiwylliant Foesegol, gwnaed argymhellion mewn perthynas â'r Côd Ymddygiad i Swyddogion. Mae rhan berthnasol yr Adroddiad hwnnw wedi'i gynnwys yn **Atodiad 1**. O ganlyniad i'r sylwadau hynny, diwygiwyd y Côd Ymddygiad a'r Canllawiau presennol.

Diwygiwyd y Côd Ymddygiad ei hun yn unol â deddfwriaeth. Mân newidiadau ydynt ac fe'u hamlygir yn **Atodiad 2**.

Diweddarwyd y Canllawiau er mwyn eu gwneud yn haws eu defnyddio, yn ogystal ag ymgorffori'r gofynion deddfwriaethol newydd. Mae'r Canllawiau yn seiliedig ar Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol Côd Ymddygiad i Weithwyr y Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae **Atodiad 3** yn cynnwys copi o'r Canllawiau newydd. Ni amlygwyd y newidiadau i'r ddogfen wreiddiol gan fod newidiadau sylweddol wedi'u gwneud i'r Canllawiau.

Cylchredwyd y Côd Ymddygiad a'r Canllawiau i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Penaethiaid Gwasanaeth a'r Pennaeth Archwilio a Risg er mwyn ymgynghori â nhw. Diwygiwyd y Canllawiau gwreiddiol er mwyn ymgorffori'r sylwadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad hwnnw. Yn gyffredinol derbyniwyd adborth cadarnhaol i'r broses ymgynghori ac roedd y swyddogion yn croesawu'r Canllawiau newydd.

Mae gan y Cyngor yr opsiwn o wrthod mabwysiadu'r dogfennau diwygiedig yn **Atodiadau 2 a 3**, ond byddai mabwysiadu'r dogfennau diwygiedig yn datrys rhai o'r pryderon a godwyd yn yr Adroddiad Archwilio ar Ddiwylliant Moesegol yn **Atodiad 1**.

Y bwriad, os bydd y Cyngor yn cymeradwyo'r Côd a'r Canllawiau, yw eu cyhoeddi ar Borth Polisi'r Cyngor. Bydd y Côd a'r Canllawiau yn cael eu cynnwys yn y drefn "Derbyn Polisïau Corfforaethol" lle mae'n ofynnol i swyddogion 'glicio i dderbyn' ac ateb cwestiynau'n gywir mewn perthynas â'r dogfennau diwygiedig. Ar hyn o bryd mae ymgynghoriad yn cael ei gynnal gyda'r Uwch Dîm Rheoli a'r Penaethiaid Gwasanaeth ynglŷn â chwestiynau'r "prawf".

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Gan fod yr adroddiad yn argymell diwygio'r Cyfansoddiad (Mae'r Côd Ymddygiad i Swyddogion wedi'i gynnwys yn adran 5.2), rhaid i'r Pwyllgor Gwaith ystyried yr adroddiad hwn cyn i'r Cyngor wneud penderfyniad terfynol. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Nid yw'n groes i Bolisïau'r Cyngor. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Nid oes goblygiadau cyllidebol. |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Dim sylwadau. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim sylwadau. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Adroddiad gan yr Adran Gyfreithiol/Swyddog Monitro – cefnogir y cynnig |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Gwnaed nifer o sylwadau mewn perthynas â'r ymgynghoriad ac ymgorfforwyd yr awgrymiadau yn y ddogfen derfynol. |
| 5 | **Eiddo** | Cefnogi |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Dim sylwadau |
| 7 | **Caffael** | Amherthnasol |
| 8 | **Sgriwtini** | Amherthnasol |
| 8 | **Aelodau Lleol** | Nid yw'r mater hwn yn ymwneud â Wardiau |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | Amherthnasol |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad 1 - detholiad o'r Adroddiad Archwilio Mewnol ar Ddiwylliant Moesegol<br><br>Atodiad 2 – Côd Ymddygiad Swyddogion drafft<br><br>Atodiad 3 – Canllawiau drafft ar y Côd Ymddygiad Swyddogion |

| FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| Dim |

SWYDDOGOL

# Diwylliant Moesegol

## Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol

## Medi 2017

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod Dibriffio | Dyddiadau Amrywiol - | Archwilwyr | Marion Pryor – Pennaeth Archwilio a Risg<br>Eurwen Williams – Prif Archwiliwr Mewnol |
| Dyddiad Cyhoeddi Adroddiad Drafft | 24/05/17 | | |
| Dyddiad Derbyn Sylwadau | 06/09/17 | | |
| Dyddiad Cyhoeddi'r Adroddiad Terfynol | 06/09/17 | At | Dr Gwynne Jones – Prif Weithredwr |
| | | Copïau i | Dr Caroline Turner – Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes)<br>Annwen Morgan – Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau)<br>Lynn Ball – Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro<br>Marc Jones – Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.1.5 (a) | Nid yw'r Cyngor ar hyn o bryd yn gofyn i'w swyddogion a staff asiantaeth dystio i'w dealltwriaeth o'r Côd Ymddygiad a'u cydymffurfiaeth ag ef. Yn ogystal, nid yw'r Rhestr Wirio ar gyfer Sesiynau Cynefino'r Gwasanaethau yn nodi'r angen i godi ymwybyddiaeth ynghylch hyn.<br>Mae risg na fydd Swyddogion:<br>• yn ymwybodol o safon yr ymddygiad moesegol y mae'r Cyngor yn dymuno ei sicrhau<br>• yn datgan diddordebau personol newydd (a rhai cyfredol) a all wrthdaro â'u dyletswyddau cyhoeddus ac o'r herwydd ni fydd rheolwyr yn sefydlu trefniadau effeithiol ar gyfer sicrhau nad oes cyswllt rhwng y gwaith a wneir gan yr aelod staff penodol a'r diddordeb/cyswllt y maent wedi ei nodi ac<br>• na fyddant yn cofrestru unrhyw roddion neu letygarwch y maent wedi eu derbyn mewn perthynas â'u gwaith fel swyddogion y Cyngor. | **C4** | Bydd hyn yn cael ei drafod gan yr UDA mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Swyddogaeth [AD] a threfniadau priodol yn cael eu gweithredu i roi sylw i'r materion a nodwyd. | Medi 2018 | Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a'r Swyddog Monitro a'r Pennaeth Proffesiwn – Adnoddau Dynol |

# Cyngor Sir Ynys Môn

# Côd Ymddygiad i Swyddogion

# Fersiwn 23.0 (Gorffennaf 20012018)

**Am y Côd Ymddygiad hwn**

- Nodwch os gwelwch yn dda fod y rhifo yn y Côd yn adlewyrchu'r ffaith ei fod ar gael hefyd yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Mae'r ddogfen fel yr ymddengys yma yn gyflawn a gellir dibynnu arni
- Mae'r Côd hwn yn statudol a gorfodol ac yn cynnwys gofynion sy'n statudol.
- Mae'r Côd yn berthnasol, yn awtomatig i holl weithwyr Cyngor Sir Ynys Môn ac mae'n rhan o'n telerau ac amodau cyflogaeth
- Mae'r Côd hwn hefyd yn berthnasol i'r holl gontractwyr, a'r holl staff asiantaeth, gweithwyr sy'n cael eu secondio, gweithwyr dros dro a gwirfoddolwyr
- Pwrpas y Côd yw nodi'r lefel ymddygiad gofynnol a ddisgwylir
- Mae ffocws y Côd ar egwyddorion cyffredinol, fel gonestrwydd a gwrthrychedd
- Mae canllawiau lleol ar gael sy'n rhoi gwybodaeth fanylach am faterion fel datganiadau o ddiddordeb a rhoddion a lletygarwch lle nad oes manylion digonol yn y Côd
- Dylid cael cyngor, gan y Swyddog Monitro, ar unrhyw faterion neu bryderon penodol sydd heb eu cynnwys yn y Côd neu'r canllawiau lleol

**Hanes Diwygio**

| Fersiwn | Dyddiad | Crynodeb o'r newidiadau |
|---|---|---|
| 2.0 | Gorffennaf 2001 | Côd statudol wedi disodli côd gwirfoddol lleol. Ni fu newid yn yr egwyddorion a'r disgwyliadau cyffredinol. |
| 3.0 | Gorffennaf 2018 | Ychwanegu cyfeiriad at Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |

| Dyddiad yr adolygiad nesaf | |
|---|---|
| Adolygir y polisi hwn yn : | Os bydd newid statudol |
| Cynhelir yr adolygiad gan: | Swyddog Monitro |

**Manylion Cyswllt:**

**Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro**
**lynnball@ynysmon.gov.uk / ffôn: 01248 752586**

Byddwn yn falch o ddarparu'r polisi hwn ar ffurf arall ar gais. Defnyddiwch y manylion cyswllt uchod os gwelwch yn dda.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg.

This document is available in English.

## Côd Ymddygiad Gweithwyr

**5.2 Côd Ymddygiad ar gyfer Gweithwyr Cymwys Awdurdodau Perthnasol Yng Nghymru**

**Y Côd** (yn unol â'r Gorchymyn Côd Ymddygiad (Gweithwyr Llywodraeth Leol Cymwys) (Cymru 2001)

**Egwyddorion Cyffredinol**

5.2.1 Mae gan y cyhoedd hawl i ddisgwyl y safonau ymddygiad uchaf gan bob gweithiwr cymwys yn yr awdurdodau perthnasol. Rôl gweithwyr o'r fath yw gwasanaethu'r awdurdod sy'n eu cyflogi wrth iddo roi cyngor, rhoi ei bolisïau ar waith a chyflwyno gwasanaethau i'r gymuned leol. Wrth gyflawni eu dyletswyddau, rhaid iddynt weithredu yn union, yn onest, yn ddiduedd ac yn wrthrychol.

**Atebolrwydd**

5.2.2 Mae gweithwyr cymwys yr awdurdodau perthnasol yn gweithio i'r awdurdod sy'n eu cyflogi ac yn gwasanaethu'r cyfan o'r awdurdod hwnnw. Maent yn atebol i'r awdurdod hwnnw ac mae arnynt ddyletswydd tuag ato. Rhaid iddynt weithredu yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Côd hwn, gan gydnabod dyletswydd holl weithwyr y sector cyhoeddus i gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yn rhesymol ac yn unol â'r gyfraith.

**Amhleidioldeb Gwleidyddol**

5.2.3 Rhaid i weithwyr cymwys yr awdurdodau perthnasol, p'un a ydynt o dan gyfyngiad gwleidyddol neu beidio, ddilyn holl bolisïau'r awdurdod sydd wedi'u mynegi'n gyfreithlon a rhaid iddynt beidio â chaniatáu i'w barn bersonol neu wleidyddol hwy eu hunain ymyrryd â'u gwaith. Os yw'r gweithwyr cymwys o dan gyfyngiad gwleidyddol (oherwydd y swydd sydd ganddynt, natur y gwaith a wnânt, neu'r cyflog a delir iddynt), rhaid iddynt gydymffurfio ag unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu gweithgareddau gwleidyddol.

**Cysylltiadau ag aelodau, y cyhoedd a gweithwyr eraill**

5.2.4 Mae cyd-barch rhwng gweithwyr cymwys ac Aelodau yn hanfodol ar gyfer llywodraeth leol dda, a dylai'r cyswllt gwaith gael ei gadw ar sail broffesiynol.

5.2.5 Dylai gweithwyr cymwys yr awdurdodau perthnasol ymdrin â'r cyhoedd, Aelodau a gweithwyr eraill gyda chydymdeimlad, yn effeithlon ac yn ddiduedd.

**Cydraddoldeb**

5.2.6 Rhaid i weithwyr cymwys yr awdurdodau perthnasol gydymffurfio â pholisïau sy'n ymwneud â materion cydraddoldeb, fel y cytuna'r awdurdod arnynt, yn ychwanegol at ofynion y gyfraith.

**Stiwardiaeth**

5.2.7 Rhaid i weithwyr cymwys yr awdurdodau perthnasol sicrhau eu bod yn defnyddio'r cronfeydd cyhoeddus a ymddiriedir iddynt mewn modd cyfrifol a chyfreithlon, a rhaid iddynt beidio â defnyddio eiddo, cerbydau na chyfleusterau eraill yr awdurdod at ddibenion personol oni bai eu bod wedi'u hawdurdodi i wneud hynny.

**Diddordebau Personol**

5.2.8 Er mai mater iddynt hwy yn unig yw bywyd preifat gweithwyr cymwys, rhaid iddynt beidio â chaniatáu i'w diddordebau preifat wrthdaro â'u dyletswydd gyhoeddus. Rhaid

iddynt beidio â chamddefnyddio'u safle swyddogol na gwybodaeth a sicrheir yng nghwrs eu cyflogaeth i hybu eu diddordebau preifat, na diddordebau pobl eraill. Yn benodol, rhaid iddynt gydymffurfio â'r canlynol:

5.2.8.1 unrhyw reolau sydd gan eu hawdurdod perthnasol bod rhaid i weithwyr gofrestru a datgan diddordebau ariannol a diddordebau anariannol,

5.2.8.2 unrhyw reolau sydd gan eu hawdurdod perthnasol bod rhaid i weithwyr ddatgan lletygarwch neu roddion a gynigiodd neu a roes unrhyw berson neu gorff sy'n gwneud busnes neu'n ceisio gwneud busnes gyda'r awdurdod iddynt, neu sy'n manteisio neu'n ceisio manteisio mewn modd arall o gael perthynas â'r awdurdod. Rhaid i weithwyr cymwys beidio â derbyn buddion trydydd parti oni bai bod eu hawdurdod perthnasol wedi'u hawdurdodi i wneud hynny.

**Rhannu pryderon**

5.2.9 Os digwydd bod gweithiwr cymwys yn dod i wybod am weithgareddau y mae'n credu eu bod yn anghyfreithlon, yn amhriodol, yn anfoesegol neu fel arall yn anghyson â'r Côd hwn, dylai'r gweithiwr roi gwybod am y mater, gan weithredu yn unol â'i hawliau dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, ac â gweithdrefn yr awdurdod perthnasol ar gyfer rhoi gwybod yn gyfrinachol, neu unrhyw Weithdrefn arall sydd wedi'i chynllunio i'r diben hwn.

**Ymdrin â Gwybodaeth**

5.2.10 Yr arfer yn yr awdurdodau perthnasol fydd bod yn agored wrth ledaenu gwybodaeth ac wrth wneud penderfyniadau. Er hynny, fe all gwybodaeth benodol fod yn gyfrinachol neu'n sensitif ac felly yn amhriodol ar gyfer cynulleidfa ehangach. Os oes angen bod yn gyfrinachol er mwyn diogelu preifatrwydd neu hawliau unigolion neu gyrff, ni ddylid rhyddhau gwybodaeth i unrhyw un heblaw aelod, gweithiwr i'r awdurdod perthnasol neu berson arall y mae ganddynt hawl i'w chael neu y mae angen iddynt gael ei gweld er mwyn cyflawni eu swyddogaethau'n iawn. Ni ellir cymryd bod dim yn y Côd hwn yn drech na'r dyletswyddau yn y statudau neu'r gyfraith gyffredin i gadw gwybodaeth benodol yn gyfrinachol, neu i ddatgelu gwybodaeth benodol.

**Penodi Staff**

5.2.11 Rhaid i weithwyr cymwys yr awdurdodau perthnasol sy'n ymwneud â recriwtio a phenodi staff sicrhau bod penodiadau'n cael eu gwneud ar sail rhagoriaeth. Er mwyn osgoi unrhyw gyhuddiad posibl o ragfarn, rhaid i weithwyr o'r fath beidio ag ymwneud ag unrhyw benodiad, nac unrhyw benderfyniadau eraill sy'n ymwneud â disgyblu, dyrchafu neu dâl ac amodau unrhyw weithiwr arall, neu ddarpar weithiwr, y maent yn perthyn iddynt, neu y mae ganddynt berthynas bersonol agos â hwy y tu allan i'r gwaith.

**Ymchwiliadau gan Swyddogion Monitro**

5.2.12 Pan fydd swyddog monitro'n cynnal ymchwiliad yn unol â rheoliadau a wneir dan adran 73(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000, rhaid i weithiwr cymwys gydymffurfio ag unrhyw ofynion a wneir gan y swyddog monitro hwnnw mewn cysylltiad ag ymchwiliad o'r fath.

**Deddf Llwgrwobrwyo 2010**

Mae'n drosedd dan Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010 i dderbyn mewn modd llwgr unrhyw rodd, ffi, gwobr neu fantais yn eich rôl fel swyddog o'r Cyngor. Mae'n drosedd hefyd i gynnig, addo neu roddi llwgrwobr.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Formatted: Font: Bold

Formatted: Font: Bold

Rhaid i weithwyr lynu wrth Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n manylu ar y 5 ffordd o weithio y mae eu hangen er mwyn cyflawni'r 7 nod llesiant.

| **Gwerthoedd Gwasanaethau Cyhoeddus – yr hyn yr ydym yn gredu ynddo** | **Wellbeing delivery principles – how we will work** |
|---|---|
| **Gweithio ar gyfer y tymor hir:** Mae gwarchod gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain yn golygu integreiddiad a chydweithio tymor hir a gwirioneddol sy'n edrych ar lesiant pobl a chymunedau, llewyrch economaidd ac iechyd yr amgylchedd naturiol. | **Tymor Hir**: Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd |
| **Yn tyfu ac yn gwella drwy'r amser:** Byddwnyn bositif ac ar ein gorau er budd pobl Cymru a'r naill a'r llall drwy ddewis agweddau ac ymddygiadau posirif, croesawu cyfleon i ddysgu a datblygu a rhannu syniadau ynghylch ffyrdd o wella a chyflawni gwasanaethau cyhoeddus. | **Atal**: Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion |
| **Gweithio gyda'n gilydd:** Lle mae pawb yn ymwneud â darparu gwasanaethau cyhoeddus ac yn gwerthfawrogi cyfraniadau eraill, yn rhannu egwyddorion cyffredin ac yn cydweithio er budd pobl Cymru, o fewn ac ar draws ffiniau sefydliadol a sectorau. | **Integreiddio**: Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff chyoeddus eraill |
| **Trin pawb â pharch:** Mae cydnabod, gwerthfawrogi a pharchu amrywiaeth pobl Cymru yn ganolog i ystyried pobl fel unigolion a gwneud y peth iawn, ar yr adeg iawn ac yn y lle iawn ar gyfer y naill a'r llall. | **Cydweithio**: Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant |
| **Rhoi pobl yn gyntaf:** Mae angen i'n sefydliad ganolbwyntio ar anghenion pobl Cymru. Mae hyn yn golygu bod angen i ni ddwyn pobl i mewn i'r broses o wneud penderfyniadau sy'n cael effaith arnyn nhw a'u cymunedau. | **Cynnwys**: Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu |

**Canllawiau Pellach:**
Wrth gyflawni ei ddyletswyddau, rhaid i bob swyddog roi sylw dyledus i'r Côd hwn ac i'r Canllawiau Lleol ar y Côd Ymddygiad i Swyddogion y bydd y Cyngor yn eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd.

**Formatted:** Welsh
**Formatted:** Font: Arial, Bold
**Formatted:** Font: Arial
**Formatted:** Welsh
**Formatted:** Welsh
**Formatted:** Welsh
**Formatted:** Font: Arial, 12 pt, Bold, Not Italic
**Formatted:** Heading 4, Border: Top: (Single solid line, Custom Color(RGB(65,217,242)), 6 pt Line width)
**Formatted:** Font: Arial, 12 pt, Not Italic
**Formatted:** Font: Arial
**Formatted:** Welsh
**Formatted:** Welsh
**Formatted:** Welsh
**Formatted:** Font: Arial, 12 pt, Bold, Not Italic
**Formatted:** Heading 4, Border: Top: (Single solid line, Custom Color(RGB(175,230,34)), 6 pt Line width)
**Formatted:** Font: Arial, 12 pt, Not Italic
**Formatted:** Font: Arial
**Formatted:** Welsh
**Formatted:** Welsh
**Formatted:** Welsh
**Formatted:** Font: Arial, 12 pt, Bold, Not Italic
**Formatted:** Heading 4, Border: Top: (Single solid line, Custom Color(RGB(255,221,23)), 6 pt Line width)
**Formatted:** Font: Arial, 12 pt, Not Italic
**Formatted:** Font: Arial
**Formatted:** Welsh
**Formatted:** Welsh
**Formatted:** Welsh
**Formatted:** Font: Arial, 12 pt, Bold, Not Italic
**Formatted:** Heading 4, Border: Top: (Single solid line, Custom Color(RGB(0,225,200)), 6 pt Line width)
**Formatted:** Font: Arial, 12 pt, Not Italic
**Formatted:** Font: Arial
**Formatted:** Welsh
**Formatted:** Welsh
**Formatted:** Welsh

# Cyngor Sir Ynys Môn

# Canllawiau Lleol ar y Côd Ymddygiad i Swyddogion

# Fersiwn 2.0 (Gorffennaf 2018)

Am y canllawiau hyn

- Mae'n rhaid i weithwyr y Cyngor ddilyn Côd Ymddygiad statudol sy'n ffurfio rhan o'n telerau ac amodau cyflogaeth

- Mae manylion yn brin yn y côd staudol ac felly cynhyrchwyd y canllawiau hyn mewn ymdrech i fynd i'r afael â'r cwestiynau hynny sy'n codi amlaf, megis: -
  - Beth yw'r safonau disgwyliedig;
  - Sut a phryd i ddatgan diddordeb;
  - Sut i ddelio â rhoddion a lletygarwch;
  - Perthynas gyda chontractwyr;
  - Mae'r ffurflenni y mae'n rhaid eu cwblhau er mwyn cofrestru diddordeb ynghlwm yn Atodiadau 1 a 2 i'r canllwiau hyn.

**Hanes diwygio**

| Fersiwn | Dyddiad | Crynodeb o'r newidiadau |
|---|---|---|
| 1.0 | 14 Mawrth 2016 | Dim newidiadau hyd yma |
| 2.0 | Gorffennaf 2018 | I gyd-ddigwydd â newidiadau i'r Côd ei hun yn arbennig mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |

| Dyddiad yr adolygiad nesaf | |
|---|---|
| Adolygir y polisi hwn yn: | Gorffennaf 2019 |
| Cynhelir yr adolygiad gan: | Swyddog Monitro |

**Manylion cyswllt:**

**Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro**
**lynnball@ynysmon.gov.uk / ffôn: 01248 752586**

Byddwn yn falch o ddarparu'r polisi hwn ar ffurf arall ar gais. Defnyddiwch y manylion cyswllt uchod os gwelwch yn dda.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg.

This document is available in English.

## Canllawiau Lleol ar y Côd Ymddygiad i Swyddogion

Mae Adran 5.2 ein Cyfansoddiad yn cynnwys Côd Ymddygiad i Swyddogion http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/cyfansoddiad/cyfansoddiad-rhan-5-codau-a-phrotocolau/cyfansoddiad-52-cd-ymddygiad-swyddogion/

Yn y Canllawiau hyn, rhoddir cyngor ar elfennau allweddol y Côd. Ni fedr unrhyw Gôd nodi'r ymddygiad priodol ar gyfer pob sefyllfa. Mae'r Cyngor yn dibynnu arnoch chi i lunio barn resymol ynghylch yr hyn sy'n iawn ac yn gywir ym mhob sefyllfa.

### 1. EGWYDDORION CYFFREDINOL

Mae'r Cyngor Sir yn ymrwymo i'r egwyddorion statudol mewn perthynas ag ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus ac yn eu cymeradwyo fel yr egwyddorion sylfaenol a ddylai roddi arweiniad i bob Aelod a Swyddog o ran eu hymddygiad.

Yn ôl yr egwyddorion statudol, rhaid i chi gyflawni ein dyletswyddau gyda sylw dyledus i:-

| | | |
|---|---|---|
| Anhunanoldeb | Gonestrwydd | Uniondeb a phriodoldeb |
| Cyfreithlondeb | Stiwardiaeth | Gwrthrychedd |
| Cydraddoldeb a Pharch | Bod yn agored | Atebolrwydd |
| Arweinyddiaeth | | |

### 2. PRYD MAE'R CÔD HWN YN BERTHNASOL?

2.1 Mae'r Côd hwn yn rhan o delerau ac amodau eich cyflogaeth ac yn rhan o'r contract cyfreithiol rhyngoch chi a'n sefydliad.

2.2 Gellir delio gydag achosion o dorri'r Côd i Swyddogion dan Weithdrefn Ddisgyblu'r Cyngor http://monitor.ynysmon.gov.uk/yn-y-gwaith/ymddygiad-yn-y-gwaith/trefn-ddisgyblu/

2.3 Bydd angen i weithwyr asiantaeth, swyddogion sy'n cael eu secondio a gweithwyr dros dro lynu wrth y safonau sydd wedi eu nodi yn y Côd.

2.4 Disgwylir i wirfoddolwyr hefyd lynu wrth y safonau sydd wedi eu nodi yn y Côd a bydd hyn yn cael ei nodi yn eich 'telerau cyflogaeth' fel gwirfoddolwr sydd wedi ei gymeradwyo.

2.5 Mae'r Côd yn berthnasol **yn ychwanegol at** unrhyw godau ymarfer proffesiynol a chodau ymddygiad eraill y mae'n rhaid i swyddogion arbenigol a chynrychiolwyr undeau llafur lynu wrthynt.

2.6 Dylech hefyd gyfeirio at y Côd mewn gwybodaeth sy'n ymwneud â chaffael. Er nad yw'n bosibl gorfodi'r Côd yn erbyn contractwyr neu sefydliadau partner eraill yn uniongyrchol, mae disgwyl iddynt hwythau hefyd lynu wrtho.

2.7 Nid yw'r Côd hwn yn ymwneud ag ymddygiad aelodau etholedig oherwydd

mae ganddynt hwy eu côd ymddygiad eu hunain.

## 3. Y SAFONAU A DDISGWYLIR

### A. Eich cyfrifoldebau o safbwynt gwasanaeth cyhoeddus

- Mae'n ddyletswydd arnoch i lynu wrth y gyfraith ac ymddwyn bob amser yn unol â'r ymddiriedaeth gyhoeddus a roddwyd ynoch ac mewn modd sy'n cynnal hyder y cyhoedd yn y Cyngor.

- Mae dyletswydd gyffredinol arnoch i weithredu er budd y Cyngor yn ei gyfanrwydd a'r gymuned leol.

- Ynghyd ag osgoi amhriodoldeb gwirioneddol, dylech osgoi ymddangos fel petaech yn ymddwyn yn amhriodol.

- Pan yn cyflawni eich swyddogaethau, mae cyfrifoldeb arnoch i sicrhau bod eich penderfyniadau a'ch gweithredoedd yn rhydd o unrhyw ragfarn, llygredd, gwahaniaethu a diddordebau personol. Lle mae gennych ddiddordebau preifat sy'n gwrthdaro â'ch dyletswydd gyhoeddus, rhaid i chi ddatrys y gwrthdaro hwn o blaid y budd cyhoeddus.

- Rhaid i chi:
    - Ddatgan unrhyw ddiddordebau preifat sy'n gwrthdaro, neu y gellid eu hystyried fel rhai sy'n gwrthdaro, gyda'ch swyddogaeth, eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau swyddogol, gan gynnwys y rheiny y byddwch eisoes yn eu cyflawni, pan fyddwch yn cychwyn gweithio i'r Cyngor **(gwybodaeth bellach ar gael dan baragraff 4)**;
    - Wrthod unrhyw roddion neu letygarwch a gynigir i chi yn eich swyddogaeth yn y gwaith neu, os byddai hynny'n achosi embaras i'r sawl sy'n eu rhoddi, dylech ddatgan y rhoddion hynny a'u rhoi at achos da **(gwybodaeth bellach ar gael dan baragraff 5)**;
    - Sicrhau nad yw eich barn bersonol neu wleidyddol yn amharu ar eich gwaith neu eich polisïau;
    - Sicrhau eich bod yn datgan unrhyw gyflogaeth neu rôl arall a all wrthdaro gyda'ch swydd bresennol a hynny cyn cymryd y swydd honno;
    - Datgan unrhyw gyflogaeth ychwanegol gyda thâl neu ddi-dâl, gweithgareddau gwirfoddoli neu benodiadau cyhoeddus fel bod hyn yn dryloyw;
    - Sicrhau nad ydych yn cymryd rhan mewn unrhyw broses recriwtio os ydych mewn perthynas agos â, neu'n perthyn yn agos i, ymgeisydd ar gyfer y swydd;
    - Datgan unrhyw berthnasau neu ddiddordebau mewn sefydliad arall sy'n rhan o ymarfer caffael; a
    - Datgan unrhyw ddiddordebau busnes (gan gynnwys bod yn gyfarwyddwr neu'n gyfranddaliwr) sydd gennych chi (neu aelodau o'ch teulu) a allai wella eich diddordebau busnes o ganlyniad i'ch swydd.

- Ni ddylech elwa'n bersonol o'ch gallu i gael mynediad at yr adnoddau sydd ar gael i chi wneud eich gwaith. O ganlyniad, rhaid i chi lynu wrth holl

bolisïau defnydd derbyniol y Cyngor pan fyddwch yn defnyddio adnoddau i gyflawni eich rôl a'ch dyletswyddau swyddogol. Mae hyn yn cynnwys yr holl offer TGCh (cyfrifiaduron, gliniaduron, e-bost), sianelau cyfryngau cymdeithasol, cerbydau, ffonau (llinellau tir a ffonau symudol) ac offer swyddfa gan gynnwys peiriannau argraffu a llun-gopïo.

- Dylech barchu rôl eich Aelodau Etholedig a'u trin gyda chwrteisi. Mae'r Cyngor hwn wedi mabwysiadu Protocol i reoli'r berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion a dylech lynu wrth ei ddarpariaeth. Mae ar gael yn: (http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/cyfansoddiad/cyfansoddiad-rhan-5-codau-a-phrotocolau/cyfansoddiad-531-protocol-ar-gyfer-y-berthynas-rhwng-aelodau-a-swyddogion/)

- Wrth wneud penodiadau, dyfarnu contractau neu gynnal unrhyw fusnes arall, dylech sicrhau bod eich penderfyniadau yn cael eu gwneud yn ôl teilyngdod yn unig, drwy gystadleuaeth deg ac mewn modd sy'n cydymffurfio gyda Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor a sicrhau eich bod yn cadw trywydd archwilio cyfatebol, sydd wedi'i ddogfennu.

  http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/cyfansoddiad/cyfansoddiad-rhan-4-rheolau-gweithdrefn/cyfansoddiad-49-rheolau-gweithdrefn-contractau?redirect=false

  http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/cyfansoddiad/cyfansoddiad-rhan-4-rheolau-gweithdrefn/cyfansoddiad-48-rheolau-gweithdrefn-ariannol?redirect=false

**B. Yn ymrwymedig i anghenion eich cwsmeriaid, defnyddwyr gwasanaeth a phartneriaid**

- Mae gan gwsmeriaid, defnyddwyr gwasanaeth a phartneriaid yr hawl i gael eu trin yn deg ac yn gyfartal. Ni ddylech wneud unrhyw beth a allai gael ei ystyried fel gwahaniaethu yn erbyn cwsmeriaid y Cyngor, defnyddwyr gwasanaeth a phartneriaid neu a allai gael ei ystyried fel bwlio neu aflonyddu, megis gwneud sylwadau ymosodol neu ddirmygus ynghylch oed, rhyw, hil, crefydd neu gredo, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, ailaseinio rhyw neu unrhyw nodwedd arall sy'n cael ei diogelu'n gyfreithiol.

- Dylai cwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaeth fedru defnyddio eu dewis iaith ac mae'r Cyngor yn ymrwymo i'w gwneud yn haws i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau pob dydd. Byddwch yn cynorthwyo'r Cyngor mewn perthynas â'r ymrwymiad hwn.

**C. Yn gyfrifol gyda gwybodaeth**

- Mae cyfrifoldeb arnoch i drin a rheoli gwybodaeth yn briodol ac i sicrhau nad yw'n cael ei ddefnyddio ond i'r pwrpas y mae'n cael ei chadw ar ei gyfer.

- Dylech sicrhau bod gwybodaeth gyfrinachol, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch unigolion, yn cael ei thrin yn unol â'r safonau disgwyliedig sydd

wedi eu nodi ym Mholisi Diogelu Data'r Cyngor
http://monitor.ynysmon.gov.uk/adnodd-corfforaethol/llywodraethu-gwybodaeth-diogelu-data/diogelu-data/polisi-diogelu-data-polisiau-diogelu-gwybodaeth-a-dogfennau-perthnasol?redirect=false

**D. Dyletswydd Gofal ar gyfer Diogelu, Llesiant, Iechyd a Diogelwch**

- Rhaid i chi roi sylw dyledus i'r rhwymedigaethau dan Atodiad 4Ch Polisi Diogelu'r Cyngor
http://monitor.ynysmon.gov.uk/Journals/p/e/l/YM-Polisi-Gweithdrefn-Diogelu-Corfforaethol_Adolygiad-2016_V4.0_Terfynol.pdf

**E. Codi Pryderon**

- Rydych yn gyfrifol am gyflawni eich swyddogaethau a'ch dyletswyddau swyddogol mewn modd cyfreithlon a chlir a hynny'n unol â gofynion y Côd.

- Fodd bynnag, os ydych yn ymwybodol fod gweithredoedd eraill efallai'n syrthio'n is na'r safonau hyn neu'n torri ein cyfrifoldebau o ran iechyd a diogelwch neu'n peri risg i iechyd a diogelwch eraill, mae dyletswydd ychwanegol arnoch dan y Côd. Fe'ch cyfeirir at y Weithdrefn Rhannu Pryderon.

**F. Cyfathrebu a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol**

- Pan yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a digidol er defnydd personol neu swyddogol, mae angen i chi gofio eich cyfrifoldebau fel gweithiwr sy'n cynnwys –
    - Peidio â datgelu gwybodaeth heb awdurdod
    - Peidio â chymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd gwleidyddol neu unrhyw weithgaredd cyhoeddus arall neu wneud sylwadau a allai effeithio ar eich didueddrwydd neu achosi embaras i'ch cyflogwr; a
    - Osgoi gwneud unrhyw fath o sylwadau a allai gael eu hystyried gan eraill fel bwlio, neu rai sy'n ymosodol neu'n aflonyddu.

**G. Y gellir ymddiried ynoch i ddelio gydag arian**

- Mae cyfrifoldeb arnoch i sicrhau bod yr arian yr ydych yn ei ddefnyddio i wneud eich gwaith yn cael ei ddefnyddio'n ddoeth i sicrhau gwerth am arian ac i'r pwrpas y bwriadwyd ef ar ei gyfer. Ymddiriedir ynoch i sicrhau fod gwariant priodol a chymesur yn cael ei wneud mewn perthynas â gweithgareddau'r Cyngor.

## 4. DATGAN DIDDORDEB – POB SWYDDOG

**SYLWER OS GWELWCH YN DDA**:
Nid oes ond angen i chi ddatgan diddordebau personol sy'n gwrthdaro, neu a all wrthdaro, gyda'ch dyletswyddau i'r Cyngor.
Os ydych yn ansicr o gwbl, dylech ddatgan eich diddordeb gan ddefnyddio'r ffurflen berthnasol a thrafod y mater hwn gyda'ch rheolydd llinell.

**A. Y gofyniad**

Nid oes angen i Swyddogion gael cofrestr sefydlog o ddiddordebau fel yr un sydd ar gael ar gyfer Aelodau etholedig, h.y. yn manylu ar fudd mewn eiddo, aelodaeth o gyrff allanol ac ati. Mae'r ddyletswydd sydd ar Swyddogion i ddatgelu diddordeb yn un ar sail "fel a phryd" petai mater penodol yn dod i'ch sylw.

Wrth gyflawni eich cyfrifoldebau fel Swyddogion y Cyngor, dylech ddatgan ar unwaith unrhyw ddiddordebau ariannol neu bersonol perthnasol i'ch rheolwyr llinell, lle bynnag y byddai methiant i wneud hynny'n tanseilio hyder y cyhoedd yng ngweithgareddau'r Cyngor (e.e. mewn cyfarfodydd / cyfathrebiadau eraill pan mae'r diddordeb yn berthnasol). Yn yr amgylchiadau hyn, dylai rheolwyr llinell wneud trefniadau eraill, h.y. ni ddylech gymryd rhan neu ddylanwadau ar unrhyw fater sy'n golygu y gallech chi (neu eich teulu/cyfeillion) elwa arnynt neu golli allan o'u herwydd. **Mae hyn yn berthnasol i bob Swyddog ar bob lefel**.

Bydd y trefniadau amgen y bydd angen i'r Rheolwr Llinell benderfynu arnynt yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Gallai fod cyn lleied â sicrhau bod swyddog arall yn delio â'r mater a bod mynediad i'r ffeiliau yn cael ei wrthod i'r unigolion sy'n datgan y diddordeb personol neu gall fod mor sylweddol â throsglwyddo swyddog i dîm / gwasanaeth arall os yw'r diddordeb yn sylweddol a bod y broses yn debygol o fod yn un hir e.e. cynnig arfaethedig i allanoli gwasanaeth.

Efallai y bydd rhaid hefyd llenwi un o'r ffurflenni yn **ATODIADAU 1 a 2** a gall rheolwyr llinell gynghori pa un all fod yn briodol.

## B. Beth allai fod yn fudd neu'n ymwneud?

Gall ddiddordebau neu ymwneud a allai wrthdaro gyda diddordebau'r Cyngor fod yn rhai ariannol ac / neu anariannol, er enghraifft:

- Partneriaeth mewn busnes
- Gwaith a wneir i unrhyw berson neu sefydliad ac eithrio fel un sy'n gweithio i'r Cyngor
- Gwasanaethau fel aelod o grŵp, pwyllgor neu fwrdd y gall ei waith wrthdaro gyda'r Cyngor
- Ceisiadau a gyflwynwyd gan berthnasau neu gyfeillion i'w hystyried gan y Cyngor, e.e. tendro am waith
- Llywodraethwr Ysgol, neu glerc cyngor sydd yn awdurdodaeth yr Awdurdod.

**Nid yw hon yn rhestr derfynol**. Mae angen i chi ofyn mewn modd rhesymol a gwrthrychol a oes gennych ddiddordeb personol ac ystyried a fyddai methiant ar eich rhan i ddatgelu'r diddordeb hwnnw yn cael effaith niweidiol ar hyder y cyhoedd yn ein gweithgareddau.

## C. Beth ddylwn i ei wneud os oes gennyf ddiddordeb personol i'w ddatgan?

- Yn gyffredinol:
  Dylech wneud datganiadau o ddiddordeb ariannol neu anariannol pryd

bynnag y gall ein diddordebau personol wrthdaro â diddordeb y cyhoedd. Dylid gwneud datganiadau o'r fath i'n rheolwr llinell / goruchwyliwr ar y ffurflen "Hysbysiad o Fuddiant personol" sydd ynghlwm yn **Atodiad 1**. Bydd cyfrifoldeb ar bob rheolwr llinell i gadw unrhyw hysbysiadau a gaiff am y cyfnod y bydd yr hysbysiadau hynny'n ddilys.

➔ Mewn cyfarfodydd:

Os oes gennych ddiddordeb personol mewn unrhyw fater sy'n codi mewn unrhyw gyfarfod yr ydych yn adrodd iddo neu'n cynghori (neu y gallwch gael cais i'w gynghori neu y gallwch fel arall ddylanwadu arno) unrhyw Gynghorydd(Gynghorwyr) yn y Cyngor, neu unrhyw drydydd parti, rhaid i chi ddatgan y diddordeb a pheidio â chymryd rhan yn y drafodaeth neu'r penderfyniad ar y mater.

Bydd unrhyw ddatganiad a wneir mewn cyfarfod swyddogol yn cael ei gofnodi yn y cofnodion.

Os yn briodol, dylid gwneud trefniadau i weithiwr arall fynychu ac adrodd /cynghori ar y mater.

Un enghraifft fyddai cymryd rhan mewn cyfarfod mewn perthynas ag ysgol y mae eich mab/merch/ŵyr/wyres yn ei mynychu.

Os oes gennych ddiddordeb personol a allai wrthdaro gyda diddordebau'r Cyngor, yna ni chewch ond aros yn y cyfarfod a chymryd rhan yn y trafodaethau os yw'r person sy'n llywyddu yn y cyfarfod (ac ar ôl cael cyngor gan y Swyddog Monitro) yn fodlon y byddai gwneud hynny er budd y Cyngor neu'r bobl leol.

Dylai'r holl ddiddordebau personol sydd gennych mewn perthynas â materion a drafodir mewn cyfarfodydd gael eu datgan ar y "Ffurflen Datgan a Chofrestru Buddiant Personol – Gweithiwr" sydd ynghlwm yn **ATODIAD 2**.

## 5. <u>RHODDION A LLETYGARWCH</u>

### A. Y gofyniad

- Rhaid i chi ystyried y sefyllfa'n ofalus cyn derbyn unrhyw rodd bersonol neu gynigion o letygarwch. Yr egwyddor yw bod rhaid i chi osgoi rhoddi eich hun mewn sefyllfa lle gallai derbyn rhodd neu letygarwch o'r fath gael ei ystyried fel rhywbeth a allai ddylanwadu ar eich penderfyniadau neu eich barn wrth ddyfarnu contractau, gwneud penodiadau, penderfynu ar geisiadau cynllunio ac ati.

- **Cyn penderfynu gwrthod neu wrthod gyda chrebwyll, rodd personol neu gynnig o letygarwch, dylech ofyn y cwestiynau canlynol**:

    - A yw'r rhoddwr, neu'r digwyddiad, yn arwyddocaol yn y gymuned neu'r ardal? Os ydyw, a fyddai gwrthod yn debygol o bechu?

    - A oes disgwyl i chi fynychu oherwydd eich statws yn y gymuned neu'r ardal?

    - A fydd eraill o statws tebyg yn y gymuned neu gymunedau eraill yn mynychu'r digwyddiad?

- Beth ydych chi'n meddwl yw'r cymhelliad y tu ôl i'r gwahoddiad?

- A fyddai derbyn y gwahoddiad yn amhriodol mewn unrhyw fodd neu'n eich rhoi dan bwysau mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n ymwneud â'r Cyngor rŵan neu yn y dyfodol?

- A fyddai modd i chi gyfiawnhau'r penderfyniad i'r Cyngor, y wasg a'r cyhoedd?

- A yw graddfa'r lletygarwch, neu natur y rhodd, yn rhesymol ac yn briodol?

- A yw'n debygol y bydd disgwyliad arnoch i ymateb i'r lletygarwch ac os felly, sut?

- A ydych chi'n gyfforddus am eich penderfyniad?

- **Dylech wrthod unrhyw roddion personol a chynigion o letygarwch os ydych yn meddwl y gallai hynny niweidio hyder y cyhoedd ynoch neu yn y Cyngor**.

## B. Derbyn rhoddion / lletygarwch

- Rhaid i reolwyr llinell awdurdodi derbyn lletygarwch ymlaen llaw.

- Mae gan y Cyngor Gofrestr ar gyfer cofnodi derbyn rhoddion neu letygarwch sy'n werth **£10 neu fwy** ac mae angen i chi gofrestru rhoddion, a gwahoddiadau a dderbynnir, yn y Gofrestr honno gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (Gwasanaethau Pwyllgorau, rhif ffôn: 01248 752514).

- Lle mae'r rhoddion neu'r lletygarwch yn werth **£10 neu lai**, dylid cofnodi'r rhodd/lletygarwch gyda'ch rheolwr llinell.

- Dylid cofrestru unrhyw gynigion o lety a lletygarwch y gellid tybio eu bod yn cael effaith ar bwerau gwneud penderfyniadau neu lunio barn, hyd yn oed os cânt eu gwrthod.

- Efallai y byddwch yn cael eitemau fel arwydd o ewyllys da pan yn mynychu cynadleddau neu ar ymweliadau sifig. Efallai y byddwch o bryd i'w gilydd yn derbyn dyddiaduron, pinnau ysgrifennu, calendrau ac ati. **Nid oes angen cofrestru'r rhain**.

- Fodd bynnag, mewn achosion ble mae gwerth, neu werth amcangyfrifiedig rhesymol, yr ewyllys da a gynigiwyd yn werth mwy na £10, dylid ei gofrestru.

## C. "Lletygarwch" – Beth mae'n ei olygu a beth sydd angen i mi ei ystyried?

- Gellir diffinio lletygarwch fel unrhyw beth ac eithrio'r cynnig o ddiodydd di-alcohol a lluniaeth ysgafn.

- Ni ddylech ond derbyn lletygarwch os oes angen gwirioneddol i'r Cyngor gael ei gynrychioli mewn achlysur neu ddigwyddiad. Po fwyaf "moethus" yw'r lletygarwch, pwysica'n y byd yw i chi fod yn ofalus.

- Mae lletygarwch a geir drwy fynychu cynadleddau a chyrsiau perthnasol yn dderbyniol lle mae'n amlwg bod y lletygarwch yn gorfforaethol yn hytrach na phersonol a lle nad yw lletygarwch o'r fath yn cael effaith ar unrhyw benderfyniadau o ran prynu.

- Wrth dderbyn lletygarwch, dylech fod yn arbennig o sensitif o ran yr amseriad mewn perthynas â phenderfyniadau y bydd y Cyngor o bosib yn eu gwneud ac a allai gael effaith fuddiol neu andwyol ar y sawl sy'n darparu'r lletygarwch.

- Lle mae angen mynd ar ymweliadau i archwilio offer, neu ymweliadau sy'n gysylltiedig â dyfarnu unrhyw gontract, dylech bod y Cyngor yn talu costau unrhyw ymweliadau er mwyn osgoi rhagfarnu uniondeb unrhyw benderfyniadau a wneir wedyn i brynu.

- Ni ddylech ddefnyddio gwasanaethau contractwyr a gyflogir gan y Cyngor i chi eich hun ar gyfer prynu deunyddiau, llafur neu offer am bris cost, masnachol neu ostyngol.

**ENGHREIFFTIAU**

→Fel rhan o fy swydd gyda CSYM rydw i'n mynychu cynhadledd gyda'r corff proffesiynol sy'n rheoleiddio fy mhroffesiwn. Oherwydd lefel fy aelodaeth gyda'r corff proffesiynol (CSYM sydd yn talu'r ffi aelodaeth) nid oes rhaid i mi dalu ffi i fynychu'r gynhadledd hyfforddi hon. Oes angen i mi ddatgan hyn?

Mae lletygarwch a dderbynnir drwy fynychu cynhadleddau a chyrsiau perthnasol yn dderbyniol os yw'n eglur fod y lletygarwch yn gorfforaethol yn hytrach na phersonol, a lle nad yw derbyn lletygarwch o'r fath yn dylanwadu ar benderfyniadau i brynu. Felly, o dan yr amgylchiadau hyn, nid oes angen cofrestru presenoldeb yn y gynhadledd, hyd yn oed os na chodir ffi.

→Un noson pan fyddaf mewn cynhadledd, byddaf yn mynychu cinio nos a drefnir gan un o gleientiaid CSYM. Rwyf wedi cael gwahoddiad am fod CSYM ar y gronfa ddata cwsmeriaid y cleient. Oes angen i mi gofrestru'r lletygarwch hwn?

Gan fod hyn yn cynnwys cinio nos, tybir y byddai gwerth y lletygarwch yn fwy na £10. Felly, rhaid iddo gael ei gofrestru yng Nghofrestr y Cyngor, sy'n cael ei gadw gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.
Fodd bynnag, cyn derbyn, dylech ystyried a ddylech chi dderbyn y lletygarwch ai peidio.
Ystyriwch yr amseriad – fydd contract y cwsmer yn cael ei adnewyddu'n fuan? Fyddwch chi'n rhan o'r broses gwneud penderfyniad?

Peidiwch â rhoi eich hun mewn sefyllfa lle y gellid tybio bod derbyn lletygarwch o'r fath yn dylanwadu ar eich penderfyniadau neu'ch barn mewn perthynas â gwobrwyo contract yn y dyfodol.

→Mae gwesty a bwyty newydd wedi agor ar Ynys Môn. Maent yn cynnal agoriad mawreddog a gwahoddwyd pob Pennaeth Gwasanaeth, y Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Rheoli. A yw'n dderbyniol iddynt oll fynychu?

Byddai'n dderbyniol i'r Prif Weithredwr a Phennaeth yr adran Economaidd fynychu'r digwyddiad hwn gan ei fod yn ddigwyddiad rhwydweithio lle y gall CSYM ddangos ei gefnogaeth i fenter busnes newydd yn yr ardal (os gwneir hynny ar gyfer prosiectau tebyg eraill hefyd). Mae'r lletygarwch yn gorfforaethol yn hytrach na phersonol. Bydd rhaid cofrestru'r lletygarwch gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.
Fodd bynnag, ni fyddai'n briodol i bob un o'r swyddogion eraill fynychu. Er enghraifft,
Ni ddylai'r Pennaeth Cynllunio fynychu – gellid tybio ei fod ef/hi yn rhagfarnus wrth benderfynu ar gais cynllunio.
Ni ddylai'r Pennaeth Iechyd yr Amgylchedd fynychu – bydd ef/hi (ei swyddogion) yn gyfrifol am fonitro diogelwch bwyd ayb yn yr adeilad a ni ddylid rhoi'r argraff iddo/iddi gael ei ddylanwadu yn flaenorol.
Ni ddylai'r Pennaeth Trwyddedu fynychu – efallai y bydd rhaid iddo/iddi (ei swyddogion) ystyried materion yn ymwneud â thrwydded y Gwesty/Bwyty yn y dyfodol, ayb.
Rhaid i chi ystyried yr amgylchiadau ar y pryd a beth allai, o fewn rheswm, godi yn y dyfodol.

## 6. LLYGREDD

- Rhaid i chi fod yn ymwybodol ei bod yn drosedd dan Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010 i dderbyn neu roddi unrhyw rodd, fenthyciad neu wobr neu fantais yn

eich capasiti swyddogol "am wneud, neu beidio â gwneud rhywbeth" neu am "ffafrio neu anffafrio" unrhyw berson. Os gwneir honiad yn eich erbyn, bydd rhaid i chi ddangos na chafwyd unrhyw wobrwyon o'r fath drwy ddulliau llwgr.

- Er eich diogelwch eich hun, os bydd rhywun yn cysylltu gyda chi mewn modd a ymddengys i chi neu a allai ymddangos i drydydd parti fel petai'n anelu at dderbyn rhyw fath o driniaeth ffafriol, neu mewn amgylchiadau amheus mewn perthynas â chontract, yna rhaid i chi roi gwybod i'ch rheolwr llinell.

## 7. DYFARNU ARCHEBION A CHONTRACTAU

- Rhaid dyfarnu archebion a chontractau yn ôl teilyngdod, trwy gystadleuaeth deg, yn unol â Rheolau Gweithdrefn Contract y Cyngor.

  http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/cyfansoddiad/cyfansoddiad-rhan-4-rheolau-gweithdrefn/cyfansoddiad-49-rheolau-gweithdrefn-contractau/

  http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/cyfansoddiad/cyfansoddiad-rhan-4-rheolau-gweithdrefn/cyfansoddiad-48-rheolau-gweithdrefn-ariannol/

- Dylai swyddogion sy'n ymwneud â'r broses dendro ac/neu ddelio gyda chontractwyr fod yn glir ynghylch y gwahaniad rhwng rôl cleient a chontractwr yn y Cyngor. Rhaid i Swyddogion sydd â chyfrifoldeb cleient a chontractwr fod yn ymwybodol o'r angen i fod yn atebol ac yn agored.

- Rhaid i Swyddogion mewn unedau contractwr neu gleient fod yn deg ac yn ddiduedd wrth ddelio gydag unrhyw gwsmeriaid, cyflenwyr, contractwyr ac isgontractwyr.

- Ni ddylai Swyddogion sy'n cael gwybodaeth gyfrinachol ar dendrau neu gostau contractwyr mewnol neu allanol ddatgelu'r wybodaeth honno i unrhyw barti neu sefydliad heb awdurdod.

- Mae'n rhaid i swyddogion sy'n ystyried prynu allan fel rheolwyr neu gyflwyno tendr am unrhyw gontract (boed hynny am nwyddau, gwasanaethau a/neu waith) a/neu brynu unrhyw rai o asedau'r Cyngor (yn llawn neu'n rhannol) cyn gynted ag y byddant wedi llunio bwriad pendant:-

  1. Roi gwybod i'w rheolwr llinell a Gwasanaeth Caffael y Cyngor ar unwaith o'u bwriad;

  2. Cydymffurfio ar unwaith ag unrhyw gyfarwyddyd rhesymol gan reolwyr sy'n gofyn i chi adleoli i Dîm neu Wasanaeth gwahanol (gan gynnwys mewn lleoliad gwahanol), i weithio yn unol ag unrhyw brotocol gweithredol a ddyluniwyd i sicrhau nad oes ganddynt unrhyw gyswllt efo, neu fynediad at, y trafodiad yng nghwrs eu cyflogaeth. Mae'r gofynion hyn i sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu ganfyddedig rhwng eu swyddogaethau personol a phroffesiynol;

3. O’r dyddiad pan fyddant wedi llunio’r bwriad, hyd nes y caiff y contract terfynol ei lofnodi/yr ymarfer ei gwblhau, ni ddylent:-

   a. Drafod unrhyw beth yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol ynglŷn â’r trafodiad, neu’r trafodiad arfaethedig, eu mynegiant o ddiddordeb neu unrhyw gyflwyniad tendr, neu fater cysylltiedig, gydag unrhyw un yn y Cyngor ar wahân i’r hyn a ragnodir ym mharagraff 1 uchod ac wedi hynny dim ond gyda Gwasanaeth Caffael y Cyngor neu unrhyw dîm bid a benodir i ymdrin â’r trafodiad;

   b. Fynediad at, neu ofyn, neu awgrymu bod unrhyw Swyddog arall o’r Cyngor yn sicrhau mynediad at, yn darparu gwybodaeth, neu ddogfennau, yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol, iddynt oni bai bod hynny trwy wneud cais ffurfiol i Wasanaeth Caffael y Cyngor neu unrhyw dîm bid;

   c. Gael neu geisio cael, yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol, trwy ba bynnag ffordd, unrhyw fudd, ffafriaeth neu fantais dros unrhyw fidiwr arall neu fidiwr posib arall.

4. Adrodd ar unwaith i Wasanaeth Caffael y Cyngor / tîm bid am unrhyw ymgais i wneud cyswllt â hwy, unrhyw drafodaeth, mynediad at wybodaeth, cymorth neu gyngor a gynigiwyd iddynt gan unrhyw Swyddog o’r Cyngor nad yw wedi ffurfio rhan o’r broses dendro ffurfiol trwy’r Gwasanaeth Caffael / y tîm bid.

- Os yw swyddogion yn ceisio prynu allan fel rheolwyr, yn cyflwyno tendr am unrhyw gontract (boed hynny am nwyddau, gwasanaethau a/neu waith) a/neu’n prynu unrhyw rai o asedau’r Cyngor (yn llawn neu’n rhannol), mae’n bosib y caiff eu cais ei eithrio neu ei ddiystyru os ydynt wedi bod ynghlwm â’r broses cyn tendro yn rhinwedd unrhyw rôl, neu i raddau, sy’n creu mantais iddynt hwy dros ymgeisiwyr/bidwyr eraill i’r fath raddau na fedr y Cyngor gywiro’r balans hwnnw a sicrhau chwarae teg i bawb. Bydd y penderfyniad hwnnw yn ddewis i’r Cyngor yn llwyr.

- Dylai Swyddogion sicrhau nad ydynt yn dangos unrhyw ffafriaeth arbennig tuag at Swyddogion cyfredol neu Swyddogion sydd wedi gadael yn ddiweddar na’u partneriaid, perthnasau agos neu gydnabod o ran dyfarnu contractau i fusnesau y maent yn eu rhedeg neu’n eu cyflogi mewn capasiti lefel uwch neu lefel reoli.

- Yn unol ag Adran 117 Deddf Llywodraeth Leol 1972, rhaid i chi wneud datganiad ffurfiol am gontractau neu gontractau personol gyda’r Cyngor lle mae gennych ddiddordeb ariannol ynddynt. Rhaid cofrestru datganiadau o’r fath ar y Ffurflen Hysbysiad o Diddordeb Personol (**ATODIAD 1**).

## 8 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU’R DYFODOL (CYMRU) 2015

Disgwylir i bob sefydliad cyhoeddus yng Nghymru lynu wrth Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. I sicrhau hyn, rhaid i’r Cyngor feddwl mwy am y tymor hir, gweithio’n well gyda phobl, cymunedau a’i gilydd, geisio atal

problemau a mabwysiadu ymagwedd fwy cydlynus. Pan yn gwneud penderfyniadau, rhaid i'r Cyngor gymryd i ystyriaeth yr effaith y gallai'r penderfyniadau hynny eu cael ar bobl sy'n byw yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae'r 5 ffordd o weithio wedi eu cynnwys yn y Côd Ymddygiad i Swyddogion a rhaid eu cymryd i ystyriaeth er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni'r saith nod llesiant.

**9. GWRTHDARO RHWNG RÔL FEL SWYDDOG A DINESYDD**

1. Derbynnir fod nifer o swyddogion hefyd yn ddinasyddion yn yr ardal ac mae'n anorfod y bydd angen i swyddogion ymarfer eu hawliau fel unigolion preifat mewn rhai sefyllfaoedd penodol. Gallai hyn fod am nifer o wahanol resymau megis (a) nid yw sbwriel y swyddog wedi cael ei gasglu (b) gweithredu fel ysgrifennydd sefydliad gwirfoddol wrth wneud cais am grantiau, (c) trefnu darpariaeth gofal ar gyfer perthynas; neu (d) gwrthwynebu cais cynllunio drws nesaf i'w gartref o/hi.

2. Yn y lle cyntaf, fe ddylai'r swyddog ofyn iddo'i hun – allai rhywun arall weithredu yn fy lle?
   Er enghraifft, os yw'r swyddog yn cynrychioli corff neu sefydliad arall, fe ddylai'r swyddog ystyried gofyn i rywun arall gyflawni'r rôl; neu os mai cynrychioli aelod o'r teulu yw'r diddordeb personol, fe ddylai'r swyddog ystyried a oes modd i berthynas arall arwain ar hyn.

3. Os nad oes modd i'r Swyddog osgoi dod i gysylltiad â'r Cyngor yn eu capasiti personol, cynghorir swyddogion i ystyried y canllawiau canlynol:
   a. Wrth ysgrifennu at y Cyngor (neu unrhyw un arall), ni ddylai Swyddogion ddefnyddio papur swyddogol y Cyngor na chyfeiriad e-bost mewnol gan y byddai hyn yn amhriodol gan y gallai achosi dryswch o ran pa rôl mae'r swyddog yn ei chyflawni, h.y. capasiti fel swyddog neu unigolyn preifat.
   b. Wrth ysgrifennu at y cyngor, neu wrth gysylltu drwy unrhyw ffordd arall, ar y cyswllt cyntaf, dylid datgan yn ffurfiol ei fod o / hi yn gweithredu mewn capasiti preifat ac nid fel swyddog.
   c. Os trafodir materion ar lafar fe ddylai swyddogion gadarnhau manylion y drafodaeth honno yn ysgrifenedig. Fe ddylai'r cadarnhad ysgrifenedig ddatgan ei fod o/hi yn gweithredu mewn capasiti preifat ac nid fel swyddog.
   d. Os yw'r Cyngor wedi cysylltu â swyddog yn eu rôl fel dinesydd yn yr ardal (e.e. ymgynghoriad ar fater cynllunio), fe ddylai'r swyddog ddatgan yn glir ei statws fel Swyddog gyda'r Cyngor.
   e. Ni ddylai swyddogion gamddefnyddio eu rôl er mwyn cael mynediad at swyddogion eraill neu wybodaeth na fyddai ar gael i aelodau'r cyhoedd.

4. Atgoffir Swyddogion o'r gofynion mewn perthynas â datgan diddordeb personol sydd wedi'u cynnwys ym mharagraff 4 o'r Canllawiau hyn.

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Ffurflen Hysbysiad o Fuddiant Personol / Notification of Personal Interest Form

**Nodwch- Rydych angen datgelu unrhyw fuddiannau personol sydd yn gwrthdaro, neu yn gallu gwrthdaro, efo'ch dyletswyddau yn y Cyngor yn unig.**
**Os ydych yn ansicr, dylech ddatgelu eich buddiant ar y ffurflen hon neu eu trafod efo'ch rheolwr.**

**Please note- You only need to disclose personal interests which conflict, or may conflict, with your duties in the Council.**
**If you are at all unsure, you should disclose your interest using this form or discuss this with your manager.**

| **CHI – Y GWEITHIWR: / YOU – THE WORKER:** | |
|---|---|
| Enw: / Name: | |
| Swydd: / Job Title: | |
| Gwasanaeth: / Service: | |

<table>
<tr><td>EICH DATGANIAD: /<br>YOUR DECLARATION:</td><td></td></tr>
<tr><td>Math o Ddatganiad: /<br>Type of Declaration:</td><td>Manylion: /<br>Details:</td></tr>
<tr><td>Perthynas: / Relationship:<br><br>Cynghorydd/ ◯<br>Councillor<br><br>Contractwr/ ◯<br>Contractor<br><br>Gweithiwr/ ◯<br>Employee<br><br>Arall/ ◯<br>Other</td><td>Enw: /<br>Name:<br><br>Swyddogaeth: /<br>Post Title:<br><br>Natur fy mherthynas gyda’r unigolyn:/<br>Nature of my relationship to the named person:<br><br>Manyldeb o unrhyw gysylltiad neu gwrthdaro rhwng buddiannau: /<br>Details of any potential contact/conflict of interest:</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| Buddiant personol neu aelodaeth o gorff allanol, busnes, partneriaeth, corf proffesiynol neu gymdeithas gyfrinachol e.e. Corff Llywodraethol Ysgol, rôl mewn grŵp gwirfoddol, cysylltiad â busnes teuluol: /<br><br>Personal interest or membership of an organisation, business, partnership, professional body or secret society e.g. school governing body, voluntary organisation role, involvement in a family business: | Disgrifiad o fy muddiant: /<br>Description of my interest:<br><br>Enw a lleoliad y grŵp / mudiad o dan sylw (os yn gymwysiadol): /<br>Name and location of organisation concerned (if applicable):<br><br>Dyddiad Cychwyn: /<br>Effective date:<br><br>Budd / goblygiad ariannol: /<br>Financial benefit / implication:<br><br>Manylion y camau a ellir eu cymryd i warchod buddiant y Cyngor: /<br>Details of steps that could be taken to protect the Council's interest: |

| | |
|---|---|
| **Buddiant mewn tir o fewn y Sir**<br>Cyfeiriad neu ddisgrifiad o dir neu eiddo yr ydych gyda buddiant ynddo, natur y buddiant a'r defnydd a wneir o'r tir.<br>[Mae buddiant o dan yr adran hon yn cynnwys:<br>(a) buddiant fel rhydd-ddeiliad neu lesddeiliad am brydles o 12 mis neu fwy;<br>(b) buddiant fel deiliad opsiwn neu ddarpar brynwr; neu<br>(c) os ydych yn ceisio cadarnhau caniatâd cynllunio neu unrhyw ganiatâd neu benderfyniad ar y tir gan y Cyngor.]<br><br>**Interest in Land within the County**<br><br>Address or description of land or property in which you have an interest, the nature of the interest and the use to which the land is put.<br>[Interest under this section includes:<br>(a) Interests as a freeholder or leaseholder for a lease of 12 months or more<br>(b) Interest as an option holder or prospective purchaser; or<br>(c) Interests by which you are directly concerned in seeking planning permission or some other consent or decision of the Council. | |

| | |
|---|---|
| **Gwybodaeth ychwanegol/ Unrhyw ddatganiad arall:**<br>Rhowch unrhyw wybodaeth arall y dylech ei ddatgelu am eich buddiannau busnes, cyllid neu bersonol.<br><br>**Further information/ Any other declaration:**<br>Please give any further information you may wish to record about your business, financial or personal interests. | |
| **Hysbysu newidiadau**<br><br><br>**Notification of Changes** | Rwyf yn ymgymryd i hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig o fewn 28 diwrnod o unrhyw newid i fy sefyllfa fel a nodir yn y datganiad yma.<br><br>I undertake to notify the Council in writing within 28 days of any change to my circumstances as detailed in this declaration. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Dyddiad: / Date:** | | **Llofnod:/ Signature:** | |

**ATODIAD / ENCLOSURE 2**

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

## Hysbysiad o Fuddiant Personol mewn cyfarfod / Notification of Personal Interest in a meeting

| | |
|---|---|
| Enw'r Gweithiwr: / Employee Name: | |
| Swydd: / Job Title: | |
| Gwasanaeth: / Service: | |

Rwy'n eich hysbysu yn ysgrifenedig o fuddiant personol a ddatgelais yn y cyfarfod canlynol: / I give you written notification of a personal interest disclosed by me at the following meeting:

……………………………………………………………………………………….(enw'r cyfarfod /name of meeting)

a gynhaliwyd ar / held on…………………………………………(dyddiad y cyfarfod / date of meeting)

Manylion y buddiant personol: / Detail of Personal Interest:

……………………………………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………………………………

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llofnod: / Signature: | | Dyddiad: / Date: | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad:** | **26/11/18 a 11/12/18** |
| **Pwnc:** | **Datganiad Polisi Gamblo 2019-2022** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Richard Dew** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Dylan Williams**<br>**Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Sion Hughes**<br>**752843**<br>**slhpp@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | |

| **A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith argymell i'r Cyngor Llawn ei fod yn mabwysiadu'r Datganiad o Bolisi Gamblo ar gyfer 2019-2022.<br><br>Yn unol â Deddf Gamblo 2005, mae'n rhaid i'r Cyngor fabwysiadu Datganiad o Bolisi Gamblo bob tair blynedd. Mae'r Polisi hwn yn nodi'r modd y bydd y Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â rheoleiddio sefydliadau gamblo. Mae'r polisi drafft wedi cael ei gynhyrchu'n unol â chanllawiau'r Comisiwn Gamblo ar ffurf a chynnwys y Polisi. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Mae'n ofyniad cyfreithiol i'r Cyngor fabwysiadu'r Datganiad o Bolisi Gamblo. Nid oes unrhyw opsiwn arall ar gael. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Rhaid i'r Pwyllgor Gwaith wneud argymhellion i'r Cyngor oherwydd mae'r polisi'n rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi. Mae'n ffurfio rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi. |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Cefnogol i'r cynnwys |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim sylw |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylw |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | Ceir rhestr o gyrff y mae'n rhaid ymgynghori â nhw yn Atodiad 2 y polisi drafft sydd ynghlwm. Nid oedd gan Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Cymuned Llanidan unrhyw sylwadau. Nid oedd gan Gambling Aware unrhyw adborth ond roedd yn cyfeirio at ganllawiau'r Cymdeithasau Llywodraeth Leol ynghylch gamblo ac roedd y rheiny wedi cael eu cymryd i ystyriaeth wrth baratoi'r polisi drafft. Awgrymodd y Comisiwn Gamblo y dylai copi o'r asesiadau risg lleol ar gyfer eiddo fod ar gael ynddynt ac mae hynny wedi cael ei fabwysiadu yn y polisi drafft. Ni chafwyd unrhyw ymatebion eraill. |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Polisi Gamblo – Datganiad o Bolisi Trwyddedu, Deddf Gamblo 2005, 2019-2022 |

| FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |

# Cyngor Sir Ynys Môn

# Polisi Gamblo

Datganiad o Bolisi Trwyddedu, Deddf Gamblo 2005

2019 – 2022

Cynnwys


| Adran | Tudalen |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad | 3 |
| 2. Egwyddorion Sylfaenol | 5 |
| 3. Swyddogaethau'r Awdurdod Trwyddedu | 5 |
| 4. Awdurdod Cymwys ar gyfer Amddiffyn Plant | 6 |
| 5. Pennu Buddgyfranogwyr | 6 |
| 6. Cyfnewid Gwybodaeth | 7 |
| 7. Archwilio ac Achosion Troseddol | 8 |
| 8. Ffactorau Perthnasol wrth ystyried Ceisiadau ac Adolygiadau | 9 |
| 9. Gwneud Penderfyniadau | 13 |
| 10. Datganiad ynghylch Penderfyniadau am Gasinos | 17 |
| 11. Cyfundrefnau Rheoliadol Eraill | 17 |
| 12. Y Galw am Safleoedd Hapchwarae | 17 |
| 13. Gwybodaeth Ychwanegol | 17 |
| 14. Asesiadau Risg Lleol | 18 |
| 15. Declarasiwn | 20 |
| 16. Atodiadau | 21 |
| 1. Map | 21 |
| 2. Y rhai yr ymgynghorwyd â hwy | 22 |
| 3. Cynllun dirprwyo | 23 |
| | |

## 1. Cyflwyniad

Mae Ynys Môn yng Ngogledd-orllewin Cymru. Tir isel yw'r rhan fwyaf o'r ynys ac mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ar yr arfordir. Mae llawer o ymwelwyr yn cael eu denu i'r ynys, gan wneud cyfraniad pwysig i'r economi lleol. Mae amaethyddiaeth yn parhau i fod yn bwysig yma ac mae'n rhan hanfodol o hunaniaeth a diwylliant yr ynys. Dengys Cyfrifiad 2011 boblogaeth o 69,769 gyda 30,600 o aelwydydd. Y dref fwyaf yw Caergybi ac mae mwyafrif yr aneddiadau mwyaf sylweddol ar yr arfordir. Yr anheddiad mwyaf nad yw ar yr arfordir yw Llangefni, sef y dref sirol. Mae gan Ynys Môn gysylltiadau trafnidiaeth rhyngwladol cryf ag Iwerddon drwy Borthladd Caergybi. Mae'r A55, sydd yn rhan o'r Rhwydwaith Ffyrdd Traws-Ewropeaidd, a rheilffordd arfordir Gogledd Cymru, yn cysylltu'r ardal â gweddill y Gogledd a'r Deyrnas Gyfunol. Darperir map o'r Sir yn Atodiad 1.

Deddf Gamblo 2005 (y **"Ddeddf"**) sy'n rheoli pob darpariaeth ar gyfer gamblo yng ngwledydd Prydain, ac eithrio'r Loteri Genedlaethol a betio lled. Cafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 7 Ebrill 2005.

Fe sefydlodd y Ddeddf y Comisiwn Gamblo (y **"Comisiwn"**) sydd â chylch gwaith cenedlaethol, yn ogystal â nifer o reoleiddwyr lleol sef yr Awdurdodau Trwyddedu. Y Comisiwn sydd yn rheoleiddio gamblo masnachol yng ngwledydd Prydain mewn partneriaeth â'r Awdurdodau Trwyddedu. Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn (y **"Cyngor"**) gyfrifoldebau fel Awdurdod Trwyddedu ac felly mae arno amryw o rwymedigaethau o dan y Ddeddf.

Mae'r Comisiwn yn canolbwyntio'n bennaf ar weithredwyr a materion sydd o bwys yn genedlaethol neu'n rhanbarthol. Yr Awdurdodau Trwyddedu fydd fel rheol yn arwain o ran rheoleiddio gamblo yn lleol. Gall y Comisiwn a'r Awdurdodau Trwyddedu hefyd gydweithio'n uniongyrchol ar rai materion penodol.

Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer tri chategori o drwydded:

(i) Trwyddedau gweithredu
(ii) Trwyddedau personol
(iii) Trwyddedau eiddo

Mae'r Ddeddf hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhoi hawlenni i rai sefydliadau nad oes arnynt angen trwydded eiddo, ynghyd â nifer o ddarpariaethau penodol eraill gan gynnwys rhoi hawlen i safleoedd a drwyddedwyd i werthu alcohol, i osod niferoedd cyfyngedig o fathau penodol o beiriannau hapchwarae ar y safle.

Y Comisiwn sydd yn gyfrifol am roi Trwyddedau Gweithredu a Thrwyddedau Personol.

Y Cyngor sydd yn gyfrifol am roi trwyddedau eiddo yn Ynys Môn ar gyfer:

Neuaddau bingo;

Safleoedd betio (gan gynnwys traciau);

Canolfannau hapchwarae i oedolion; a

Chanolfannau adloniant teuluol;

am roi hawlenni ar gyfer:

Canolfannau adloniant teuluol didrwydded;

Clybiau;

Safleoedd a drwyddedwyd i werthu alcohol; a

Hapchwarae am wobrau;

ac am

weinyddu gosod Peiriannau Hapchwarae mewn safleoedd a drwyddedwyd i werthu alcohol (lle nad yw'r peiriannau hynny yn rhan o'r drefn ar gyfer rhoi trwyddedau neu hawlenni)

Mae'r rhestr uchod yn nodi rhai o brif gyfrifoldebau'r Cyngor o dan y Ddeddf ond nid yw'n rhestr orfodol.

Datganiad o Egwyddorion

Mae'r Ddeddf yn mynnu bod y Cyngor yn paratoi datganiad o'r egwyddorion y bwriada'r Cyngor eu cymhwyso wrth weithredu ei swyddogaethau o dan y Ddeddf. Darparwyd y Datganiad hwn o Bolisi Gamblo (y **"Polisi Gamblo"**) yn unol â'r gofyniad hwnnw.

Paratowyd y Polisi Gamblo gan ystyried darpariaethau'r Ddeddf, is-reoliadau, canllawiau a roddwyd i awdurdodau trwyddedu gan y Comisiwn, a'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y broses ymgynghori. Darperir rhestr lawn yn Atodiad 2 o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy wrth baratoi'r Polisi Gamblo.

Daw'r Polisi Gamblo i rym ar y dyddiad y'i mabwysiedir gan y Cyngor ac fe'i hadolygir yn ôl yr angen ond o leiaf bob tair blynedd o ddyddiad ei fabwysiadu ymlaen.

Mae'r Polisi Gamblo yn amodol ar newidiadau i'r statud. Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y Polisi Gamblo hwn a deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth neu ganllawiau statudol perthnasol, bydd y ddeddfwriaeth neu'r canllawiau hynny yn drech na'r Polisi.

## 2. Egwyddorion Sylfaenol

Mae’r Ddeddf yn sefydlu tri phrif amcan o ran trwyddedu: (yr **"Amcanion Trwyddedu"**):

- rhwystro gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd ac anhrefn, rhag bod yn gysylltiedig â throsedd ac anhrefn, a rhag cael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd;
- sicrhau bod gamblo’n cael ei gynnal yn deg ac yn agored; ac
- amddiffyn plant ac unigolion eraill sy’n agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio oherwydd gamblo.

Bydd y polisi’n hyrwyddo’r tri amcan trwyddedu hyn ac yn anelu i reoleiddio gamblo er budd y cyhoedd.

Wrth weithredu ei swyddogaethau o dan y Ddeddf, mae’n ofynnol i’r Cyngor anelu i ganiatáu i safleoedd gael eu defnyddio ar gyfer gamblo ar yr amod bod y Cyngor o’r farn bod hynny:

- yn unol ag unrhyw god ymarfer perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo;
- yn unol ag unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo;
- yn dangos cysondeb rhesymol â’r Amcanion Trwyddedu; ac
- yn unol â’r Polisi Gamblo hwn.

## 3. Swyddogaethau’r Awdurdod Trwyddedu

Mae’r Cyngor fel Awdurdod trwyddedu yn gyfrifol am nifer o swyddogaethau sydd yn ofynnol o dan y Ddeddf:

- Trwyddedu safleoedd lle mae gweithgareddau gamblo’n cael eu cynnal drwy roi trwyddedau safle
- Rhoi hawlenni ar gyfer hapchwarae mewn clybiau a pheiriannau mewn clybiau
- Derbyn hysbysiadau ar gyfer hyd at ddau beiriant hapchwarae mewn safleoedd a drwyddedwyd ar gyfer alcohol
- Rhoi hawlenni peiriant hapchwarae mewn safle trwyddedig lle bo safleoedd a drwyddedwyd ar gyfer alcohol yn gofyn am fwy na dau beiriant
- Caniatáu peiriannau hapchwarae lle caiff symiau bach eu mentro, mewn canolfannau adloniant teuluol didrwydded
- Rhoi Hysbysiadau Dros Dro
- Cofrestru Loterïau Cymdeithasau Bychain
- Rhoi hawlenni ar gyfer hapchwarae am wobrau
- Derbyn rhybuddion Defnydd Dros Dro
- Derbyn rhybuddion Defnydd Achlysurol

## 4. Awdurdod Cymwys ar gyfer Amddiffyn Plant

O dan Reoliadau (Datganiad Polisi Awdurdod Trwyddedu) (Cymru a Lloegr) 2006 Deddf Gamblo 2005 (y **"Rheoliadau Polisi"**) mae'n ofynnol i'r Cyngor nodi'r egwyddorion y bydd yn eu cymhwyso wrth weithredu ei bwerau o dan Adran 157(h) y Ddeddf i ddynodi, yn ysgrifenedig, gorff sydd yn gymwys i gynghori'r awdurdod ynghylch amddiffyn plant rhag niwed. Yr egwyddorion yw:

- Yr angen i'r corff fod yn gyfrifol am ardal sydd yn cynnwys y cyfan o ardal yr Awdurdod Trwyddedu; a
- Yr angen i'r corff fod yn atebol i unigolion a etholwyd yn ddemocrataidd yn hytrach nag unrhyw grwpiau a fyddai'n cael budd eu hunain.

Gan hynny, mae'r Cyngor yn dynodi Bwrdd Lleol Diogelu Plant Gwynedd a Môn i'r diben hwn.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd efallai yn ddoeth i sefydliadau eraill gyflawni'r swyddogaeth hon os bydd y Cyngor yn credu mai dyna sydd yn iawn er mwyn atal niwed corfforol, moesol neu seicolegol i blant.

## 5. Pennu Buddgyfranogwyr

O dan y Rheoliadau Polisi mae'n ofynnol i'r Cyngor nodi'r egwyddorion y bydd yn eu cymhwyso wrth weithredu ei bwerau o dan Adran 158 y Ddeddf i benderfynu a yw unigolyn yn fuddgyfranogwr mewn perthynas â thrwydded eiddo, neu mewn perthynas â chais ar gyfer neu mewn perthynas â thrwydded eiddo.

Mae'r Ddeddf yn diffinio unigolyn fel buddgyfranogwr mewn perthynas â thrwydded eiddo os yw, ym marn yr Awdurdod Trwyddedu sy'n rhoi'r drwydded neu y gwneir y cais iddo:

- yn byw yn ddigon agos i'r safle i fod yn debygol o gael ei effeithio gan y gweithgareddau awdurdodedig;
- yn meddu ar fuddiannau busnes a allai gael eu heffeithio gan y gweithgareddau awdurdodedig; gallai hyn gynnwys hefyd, er enghraifft, gymdeithasau masnach, elusennau, grwpiau ffydd a phractisau meddygol; neu
- yn cynrychioli unigolion sy'n bodloni un o'r diffiniadau uchod (er enghraifft Cymdeithasau Preswylwyr a Thenantiaid).

Lle bo unigolyn, ni waeth a yw'n cael ei effeithio'n uniongyrchol gan gais am Drwydded Eiddo neu a yw'n byw yn agos at yr eiddo lle gwnaed cais o'r fath neu beidio, yn cynnig ei hun i gynrychioli buddiannau rhai sy'n byw yn y cyffiniau, fe all yr Awdurdod Trwyddedu ofyn i'r unigolyn hwnnw ddarparu tystiolaeth briodol ei fod yn gweithredu fel cynrychiolydd i rywrai eraill.

Pan ystyrir a yw unigolyn yn fuddgyfranogwr ai peidio, bydd pob achos yn cael ei farnu yn ôl ei deilyngdod, gan ystyried yr amgylchiadau perthnasol gan gynnwys y rhai a gynhwysir yng Nghanllawiau'r Comisiwn ar gyfer Awdurdodau Trwyddedu.

Ni fydd y Cyngor yn ceisio pennu rheol sefydlog o ran pwy sy'n gymwys o dan yr amodau uchod ond mae o'r farn y bydd yn rhaid ystyried pob achos yn unol â'r ffeithiau penodol a barnu pob achos yn ôl ei deilyngdod.

Pan gyfeirir yn y Polisi Gamblo hwn at **"Fuddgyfranogwr"** cyfeirio a wneir at yr unigolion hynny yr ystyrir eu bod yn fuddgyfranogwyr mewn perthynas â'r amgylchiadau perthnasol yn unol â'r polisi uchod.

## 6. Cyfnewid Gwybodaeth

Mae'r Rheoliadau Polisi yn mynnu bod y Cyngor yn nodi pa egwyddorion y bydd yn eu cymhwyso wrth weithredu ei swyddogaethau o dan adrannau 29 a 30 y Ddeddf mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth rhwng y Cyngor a'r Comisiwn, a'r swyddogaethau o dan adran 350 y Ddeddf mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth rhwng y Cyngor ac unigolion eraill a restrir yn Atodlen 6 i'r Ddeddf.

Bydd y Cyngor yn gweithredu'n unol â darpariaethau'r Ddeddf pan gyfnewidir unrhyw wybodaeth, ac mae'n cydnabod nad oes dim yn y Ddeddf i awdurdodi datgeliad sydd yn mynd yn groes i Ddeddf Diogelu Data 2018 na'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, 2018. Bydd y Cyngor hefyd yn gweithredu'n unol â chanllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn, yn ogystal â rheoliadau perthnasol a wnaed o dan y Ddeddf. Bydd yn mabwysiadu egwyddorion gwell rheoleiddio sef y dylid cynnal gweithgareddau rheoleiddiol mewn modd tryloyw, atebol, cymesur a chyson ac y dylid targedu'r gweithgareddau at yr achosion hynny yn unig lle mae angen gweithredu. Y nod yw hyrwyddo ffyrdd effeithlon ac effeithiol o archwilio a gorfodi at ddibenion rheoleiddiol, sydd yn gwella'r canlyniadau rheoleiddiol heb fod yn fwrn ar fusnesau yn ddianghenraid.

Mae'r Cyngor yn bwriadu i'w brosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau fod yn dryloyw. I'r diben hwnnw, fe rennir yr holl sylwadau a wneir i'r Cyngor tra bo cais yn cael ei wneud ar gyfer Trwydded Eiddo â phawb sydd a wnelo â'r cais hwnnw (sef yr ymgeisydd, yr Awdurdodau Cyfrifol ac unrhyw Fuddgyfranogwyr).

Bydd y Cyngor yn cydymffurfio â deddfwriaeth rhyddid gwybodaeth (gan gynnwys Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 heb gyfyngiad) i'r graddau y mae deddfwriaeth o'r fath yn berthnasol i'r Cyngor ac i'r wybodaeth dan sylw.

Nid yw'r Cyngor ar hyn o bryd yn bwriadu sefydlu protocolau ychwanegol mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth ond fe barheir i adolygu hyn. Os sefydlir unrhyw brotocolau o'r fath gyda chyrff eraill mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth yna fe sicrheir bod y polisïau hynny ar gael i'r cyhoedd.

Gall y Cyngor o bryd i'w gilydd weithredu ei bwerau o dan adran 115 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 er mwyn cyfnewid data a gwybodaeth â'r heddlu a phartïon eraill (er enghraifft swyddog gorfodi, awdurdod trwyddedu, CThEM, y Tribiwnlys Haen Gyntaf a/neu yr Ysgrifennydd Gwladol) er mwyn cyflawni ei amcan statudol i leihau trosedd yn yr ardal.

## 7. Archwilio ac Achosion Troseddol

O dan y Rheoliadau Polisi mae’n ofynnol i’r Cyngor nodi’r egwyddorion y bydd yn eu cymhwyso wrth weithredu ei swyddogaethau o dan adran 15 y Ddeddf o ran archwilio safleoedd; a’r pwerau o dan adran 346 y Ddeddf i gychwyn achos troseddol mewn perthynas â’r troseddau a nodwyd yn yr adran honno.

Bydd y Cyngor yn dilyn arweiniad Canllawiau’r Comisiwn ar gyfer Awdurdodau Trwyddedu, Cod y Rheoleiddwyr a Pholisi Gorfodi’r Cyngor a bydd yn ystyried canllawiau’r Comisiwn ar bryniannau prawf pan ystyrir gwneud pryniannau prawf mewn safleoedd gamblo. Bydd y Cyngor hefyd yn dilyn ei bolisïau a’i weithdrefnau ei hun o ran defnyddio prawf-brynwyr sydd dan oed.

Bydd y Cyngor yn monitro ac yn ystyried gwaith y Weithrediaeth Gwell Rheoleiddio wrth i’r Weithrediaeth ystyried swyddogaethau rheoleiddiol awdurdodau lleol.

Wrth gyflawni ei swyddogaethau a’i bwerau o dan y Ddeddf mewn perthynas â gorfodi, bydd y Cyngor yn ceisio:

- **Gweithredu mewn modd cymesur**: dylai rheoleiddwyr ymyrryd pan fydd angen yn unig; dylai’r dulliau datrys fod yn briodol i'r risg sy’n bodoli a dylid darganfod beth yw’r costau a’u cadw mor isel ag y bo’r modd.
- **Bod yn atebol**: bydd rheoleiddwyr yn gallu cyfiawnhau penderfyniadau a byddant yn cael eu harchwilio gan y cyhoedd.
- **Bod yn gyson**: bydd y rheolau a’r safonau yn gydgysylltiedig ac yn cael eu rhoi ar waith mewn modd teg.
- **Bod yn dryloyw**: bydd rheoleiddwyr yn agored ac yn ceisio cadw rheoliadau yn syml a hawdd eu deall.
- **Targedu gwaith gorfodi**: bydd y rheoleiddio’n canolbwyntio ar y broblem gan achosi cyn lleied o faich dianghenraid ag y bo modd i fusnesau.

Bydd safleoedd yn cael eu harchwiliadau rheolaidd yn unol â chynllun. Bydd amlder yr archwiliadau yn cael ei bennu yn unol â’r risg sy’n perthyn i’r safle h.y. bydd y safleoedd yr ystyrir eu bod yn peri risg mwy yn cael eu harchwilio’n amlach na’r rhai sy’n peri risg is.

Wrth bennu’r risg, fe ystyrir:

- natur y gweithgareddau gamblo sy’n cael eu cynnal yn y safle;
- lleoliad y safle mewn perthynas ag ysgolion ac ati; a’r
- y trefniadau a wnaed gan y rheolwyr er mwyn cyflawni’r amcanion trwyddedu.

Efallai y cynhelir ymweliadau monitro ychwanegol, yn ôl doethineb tîm trwyddedu’r Cyngor, os ystyrir bod hyn yn angenrheidiol er mwyn bodloni gofynion yr amcan trwyddedu neu os derbynnir cwyn. Bydd yr Ardal yn cael ei monitro i sicrhau nad oes unrhyw safleoedd didrwydded.

Bydd y Cyngor yn ymdrechu i gydweithio â’r heddlu er mwyn gorfodi’r ddeddfwriaeth drwyddedu. Mae’r ddeddfwriaeth yn annog yr heddlu i rannu gwybodaeth am drwyddedeion a safleoedd trwyddedig o dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Mae gan y Cyngor bolisi gorfodi cyffredinol sydd yn unol â’r codau ymarfer a ddatblygwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron ac a fydd yn gymwys lle bo hynny’n briodol mewn perthynas â rheoli achosion troseddol.

Y Comisiwn yw'r corff gorfodi ar gyfer trwyddedau Gweithredu a Phersonol. Ni fydd pryderon ynghylch gwneuthuriad peiriannau hapchwarae, nac ynghylch eu cyflenwi na'u trwsio yn cael sylw gan y Cyngor ond fe ddylid hysbysu'r Comisiwn amdanynt.

## 8. Ffactorau perthnasol wrth ystyried ceisiadau ac adolygiadau

8.1 Ceisiadau

I wneud cais am Drwydded Safle, rhaid i unigolyn naill ai:

- ddal Trwydded Weithredu i'w awdurdodi i gynnal y gweithgaredd y ceisir Trwydded Safle ar ei gyfer; neu
- fod wedi gwneud cais am Drwydded Weithredu nad yw wedi cael ei benderfynu.

Gyda cheisiadau ar gyfer rhoi, trosglwyddo neu amrywio Trwydded Safle, mae'n rhaid cyflwyno asesiad sy'n dangos sut y bydd yr ymgeisydd yn hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu, ar ffurf Cofrestr Weithredu ysgrifenedig. Gall yr Ymgeisydd ofyn i'r Cyngor ei gynghori ynghylch pa fath o wybodaeth sydd i'w darparu.

Pan wneir cais am Drwydded Safle newydd (neu amrywiad ar Drwydded Safle sy'n bodoli eisoes) mae'n rhaid i'r ymgeisydd hefyd gynnal Asesiad Risg Lleol.

Bydd lefel y manylion sydd i'w darparu yn gymesur â graddfa a natur y cais a wneir.

Ystyrir pob cais yn unigol yn ôl ei deilyngdod ac yn unol â'r Ddeddf, y canllawiau perthnasol a'r Polisi Gamblo hwn.

8.2 Gwrthwynebu a Gwneud Sylwadau ac Adolygu Cais

Mae gan Fuddgyfranogwr neu Awdurdod Cyfrifol hawl i wneud sylwadau perthnasol yn ysgrifenedig ynglŷn â chais neu i ofyn i drwydded gael ei hadolygu.

Yr unig sylwadau sydd yn debygol o fod yn berthnasol yw rhai sy'n ymwneud â'r Amcanion Trwyddedu neu sy'n codi materion o dan y Polisi Gamblo hwn.

Rhoddir ystyriaeth briodol i bob sylw perthnasol oni bai ei fod yn ddisylwedd neu'n flinderus. Ar sail y ffeithiau y penderfynir a yw sylw'n ddisylwedd neu'n flinderus ac fe benderfynir ar bob achos yn unigol.

Pan benderfynir ar gais i roi Trwydded Safle neu i adolygu trwydded safle, fe ystyrir pa mor agos yw'r safle at ysgolion, canolfannau ar gyfer oedolion agored i niwed, neu ardaloedd preswyl lle mae llawer o deuluoedd sydd â phlant.

Bydd y penderfyniad, a yw safle o'r fath yn agos iawn at y safle gamblo arfaethedig ai peidio, yn amrywio yn unol â maint a natur y safle gamblo dan sylw.

Mae Canllawiau'r Comisiwn ar gyfer Awdurdodau Trwyddedu a'r Amodau a'r Codau Ymarfer ar gyfer Trwyddedau yn nodi materion ychwanegol y mae'n rhaid i'r Cyngor eu hystyried wrth edrych ar geisiadau am Drwyddedau Safle.

Lle darperir cyfleusterau gamblo mewn safle fel gweithgaredd ychwanegol i brif ddiben y safle (e.e. mannau gwasanaeth gerllaw ffyrdd a chanolfannau siopa), bydd y Cyngor yn disgwyl i'r ardal gamblo gael ei diffinio'n glir a chael ei goruchwylio'n ddigonol bob amser.

Bydd y Cyngor yn ystyried y ffactorau hyn a ffactorau perthnasol eraill wrth wneud ei benderfyniad, yn unol â holl amgylchiadau'r achos.

Penderfynir pob achos yn ôl ei deilyngdod a bydd yn dibynnu i raddau helaeth ar y math o gamblo y cynigir ei gynnal yn y safle. Felly, os gall ymgeisydd brofi'n effeithiol sut y gellid datrys pryderon ynghylch yr Amcanion Trwyddedu, fe gaiff hynny ei ystyried.

8.3 Ystyriaethau Amherthnasol

Nid yw gwrthwynebiad moesol i gamblo yn rheswm dilys dros wrthod ceisiadau am Drwyddedau Safle. Dylid nodi hefyd nad yw atal niwsans cyhoeddus ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn amcanion trwyddedu penodol (yn wahanol i'r sefyllfa o dan Ddeddf Trwyddedu 2003).

Yn unol â'r Ddeddf, pan benderfynir a ddylid rhoi Trwydded Safle ai peidio, ni fydd y Cyngor yn rhoi sylw i'r galw disgwyliedig am y safle gamblo sydd yn destun y cais.

8.4 Amodau

Cymhwysir rhai amodau i Drwyddedau Safle yn rhinwedd y Ddeddf (a rheoliadau a wneir dan y Ddeddf). At hynny, mae gan y Cyngor bŵer dan y Ddeddf i osod amodau pan fydd yn rhoi Trwydded Safle.

Wrth weithredu'r pŵer hwn, rhaid i'r Cyngor roi sylw i'w gyfrifoldebau dan y Ddeddf ac i'r polisi a nodir yn y paragraff hwn. Wrth ystyried gosod amodau, bydd y Cyngor yn gwneud defnydd o'r cyngor a'r canllawiau a roddwyd gan y Comisiwn a bydd raid iddo ystyried amgylchiadau pob achos unigol yn ôl ei deilyngdod.

Ni fydd y Cyngor yn gosod amodau ar Drwydded Safle oni bai fod y Cyngor yn ystyried bod amodau o'r fath yn angenrheidiol, rhesymol a chymesur i'r defnydd o'r safle ar gyfer gamblo yn unol â'r Amcanion Trwyddedu, y canllawiau a roddwyd gan y Comisiwn, codau ymarfer y Comisiwn a'r Polisi Gamblo hwn.

Wrth ystyried unrhyw gais, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ceisio osgoi dyblygu gwaith cyfundrefnau rheoleiddio eraill hyd y bo modd ac fel rheol fe ystyrir nad oes angen amodau os yw'r Cyngor o'r farn bod y materion y bwriedir i'r amodau roi sylw iddynt eisoes yn cael eu trin yn ddigonol gan ddeddfwriaeth arall.

Ni roddir amodau heblaw er mwyn bodloni gofynion yr Amodau Trwyddedu. Bydd amodau yn rhai cymesur a byddant yn briodol ar gyfer:

- y busnes, y sefydliad neu'r unigolyn dan sylw;
- graddfa'r gweithgaredd gamblo a nodir yn y cais; a'r
- risgiau a wêl y Cyngor.

Hyd y bo modd, bydd amodau a roddir ar Drwyddedau Safle yn adlewyrchu strategaethau atal trosedd yn lleol. Er enghraifft, efallai y bydd yn briodol gosod camerâu cylch cyfyng mewn rhai safleoedd.

Pan ystyrir pa amodau sydd i'w rhoi ar drwyddedau, bydd y Cyngor yn canolbwyntio'n bennaf ar effaith uniongyrchol y gweithgareddau sy'n digwydd mewn safle trwyddedig ar aelodau'r cyhoedd sy'n byw, yn gweithio neu yn gwneud pethau arferol yn yr ardal dan sylw.

Yn hyn o beth, mae'r Cyngor yn cydnabod, ar wahân i'r swyddogaeth drwyddedu, bod nifer o fecanweithiau eraill ar gael i fynd i'r afael ag ymddygiad afreolus a all ddigwydd y tu allan i safleoedd trwyddedig, gan gynnwys:

- rheolaeth gynllunio;
- mesurau parhaus i greu amgylchedd diogel a glân mewn partneriaeth â busnesau lleol, gweithredwyr cludiant ac adrannau eraill y Cyngor;
- cydgysylltu'n rheolaidd â'r heddlu ar faterion yn ymwneud â gorfodi'r gyfraith o ran anhrefn ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol;
- pŵer yr heddlu, Awdurdodau Cyfrifol eraill neu Fuddgyfranogwr i wneud cais am gael adolygu'r Drwydded Safle.

8.5 Mynediad

Mae'r rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf yn nodi'r darpariaethau mynediad ar gyfer pob math o safle yng Nghymru a Lloegr.

Wrth adolygu cais, bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth arbennig i unrhyw faterion sy'n ymwneud ag israniadau o fewn adeilad neu blot unigol a bydd yn sicrhau y cedwir at yr amodau gorfodol mewn perthynas â mynediad.

Yn y cyd-destun hwn, bydd y Cyngor yn ystyried y ffactorau a ganlyn mewn perthynas â safle sy'n destun cais am Drwydded Safle:

- a yw'r safle wedi cofrestru ar wahân ar gyfer trethi busnes;
- perchnogaeth safleoedd cyfagos;
- a oes modd cael mynediad i safleoedd cyfagos o'r stryd neu dramwyfa gyhoeddus; ac
- ai dim ond o safle gamblo trwyddedig arall y gellir cael mynediad i'r safle.

Nodir isod ddarpariaethau perthnasol y Comisiwn Gamblo ar gyfer pob math o safle:

Casinos:
Mae'n rhaid i'r brif fynedfa i'r safle fod o stryd. Yn y cyd-destun hwn mae "stryd" yn cynnwys unrhyw bont, ffordd, lôn, troedffordd, tanlwybr, sgwâr, cwrt, ale neu dramwy (gan gynnwys tramwy trwy safle caeedig fel rhodfa siopa), boed yn ffordd drwodd neu beidio.

Ni chaiff unrhyw fynediad i gasino fod o safle a ddefnyddir yn unig neu yn bennaf gan blant a/neu bobl ifanc.

Ni chaniateir i unrhyw gwsmer allu mynd i mewn i gasino yn uniongyrchol o safle arall sy'n desun Trwydded Safle ar gyfer gamblo.

Canolfan Hapchwarae i Oedolion:

Ni chaniateir i unrhyw gwsmer allu mynd i mewn i gasino yn uniongyrchol o safle arall sy'n desun Trwydded Safle ar gyfer gamblo.

Siopau Betio:

Mae'n rhaid i'r mynediad fod o stryd (gweler y diffiniad uchod) neu o set o safleoedd eraill sy'n destun Trwydded Safle ar gyfer betio.

Ni chaniateir mynediad uniongyrchol i siop fetio o safle arall a ddefnyddir ar gyfer manwerthu nwyddau neu wasanaethau.

Traciau:

Ni ddylai unrhyw gwsmer allu cael mynediad i'r safle yn uniongyrchol o:

- gasino; neu
- ganolfan hapchwarae i oedolion.

Safle Bingo:

Ni ddylai unrhyw gwsmer allu cael mynediad i'r safle yn uniongyrchol o:

- gasino;
- canolfan hapchwarae i oedolion; neu
- safle betio, ac eithrio trac.

Canolfan Adloniant Teuluol:

Ni ddylai unrhyw gwsmer allu cael mynediad i'r safle yn uniongyrchol o:

- gasino;
- canolfan hapchwarae i oedolion; neu
- safle betio, ac eithrio trac.

Ceir canllawiau pellach ar y mater hwn yn Rhan 7, Canllawiau'r Comisiwn ar gyfer Awdurdodau Trwyddedu a bydd yr awdurdod hwn yn ystyried y rheini hefyd wrth wneud penderfyniadau.

8.6 Canolfannau Adloniant Teuluol Didrwydded

Lle bo unigolyn yn bwriadu gweithredu sefydliad yn llwyr neu yn bennaf er mwyn cynnig peiriannau hapchwarae, ac nad oes gan y sefydliad Drwydded Safle berthnasol, gall yr unigolyn hwnnw wneud cais i'r Cyngor am hawlen i weithredu Canolfan Adloniant Teuluol ddidrwydded (ar yr amod y cydymffurfir â'r darpariaethau perthnasol a nodir yn y Ddeddf a'r rheoliadau a'r canllawiau perthynol i'r Ddeddf).

Ni ellir caniatáu cais am hawlen o'r fath oni bai fod y Cyngor yn fodlon y bydd y safle'n cael ei ddefnyddio fel Canolfan Adloniant Teuluol ddidrwydded a rhaid i ymgynghoriad fod wedi ei gynnal ynghylch y cais â phrif swyddog yr heddlu.

Bydd yr ystyriaethau perthnasol ar gyfer y Cyngor pan ystyria a ddylid rhoi hawlen o'r fath yn cynnwys (yn ddigyfyngiad) addasrwydd yr ymgeisydd, gan gynnwys unrhyw euogfarn a all olygu bod yr ymgeisydd yn anaddas i weithredu canolfan adloniant teuluol, ac addasrwydd y safle o ran lleoliad ac o ran materion yn ymwneud ag anhrefn.

Mae'r Cyngor yn disgwyl i unrhyw ymgeisydd am hawlen o'r fath fod wedi sefydlu polisïau a gweithdrefnau i amddiffyn plant rhag niwed. Yn y cyd-destun hwn ni fydd niwed yn gyfyngedig i niwed oherwydd gamblo ond mae'n cynnwys ystyriaethau ehangach mewn perthynas ag amddiffyn plant megis hyfforddi staff ar gyfer adegau pan amheuir triwantiaeth, a sut i drin plant nad oes neb yn eu gorchwylio, plant ifanc iawn, neu blant sy'n achosi anhrefn yn y safle ac o'i amgylch.

Dylai darpar ymgeiswyr roi sylw i'r darpariaethau perthnasol yn y Ddeddf, y rheoliadau perthnasol a'r canllawiau perthnasol o ran pa gategorïau o beiriant hapchwarae y caniateir eu defnyddio mewn Canolfan Adloniant Teuluol Ddidrwydded (neu unrhyw sefydliad arall a drwyddedir neu a ganiateir mewn modd arall gan y Cyngor).

8.7 Loterïau Cymdeithasau Bychain

Y Cyngor sydd yn gyfrifol am gofrestru cymdeithasau i redeg Loterïau Cymdeithasau Bychain. Dylai ymgeiswyr a gweithredwyr roi sylw i'r darpariaethau perthnasol yn y Ddeddf ac i'r rhannau perthnasol o Ganllawiau'r Comisiwn ar gyfer Awdurdodau Trwyddedu.

Bydd yr Awdurdod yn dilyn trefn seiliedig ar risg wrth gyflawni ei gyfrifoldebau gorfodi ar gyfer loterïau cymdeithasau bychain. Mae'r awdurdod hwn o'r farn y gallai'r rhestr isod, er nad yw'n rhestr orfodol, effeithio ar statws risg y gweithredwr:

- cyflwyno ffurflenni'n hwyr (rhaid cyflwyno ffurflenni cyn pen tri mis wedi'r dyddiad pan dynnwyd y loteri);
- cyflwyno ffurflenni anghyflawn neu anghywir; a
- mynd dros yr uchafsymiau ar gyfer loterïau cymdeithasau bychain.

## 9. Gwneud Penderfyniadau

9.1 Dirprwyo Swyddogaethau

Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth fel y gall y Pwyllgor Trwyddedu, Is-bwyllgor, neu un neu ragor o swyddogion y dirprwyir awdurdod iddynt, gyflawni rhai o bwerau a dyletswyddau'r Awdurdod Trwyddedu.

Ystyrir mai gweinyddol i raddau helaeth fydd llawer o'r swyddogaethau ac ni chredir y bydd dim cynhennus yn eu cylch. Er budd effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd, cyflawnir y rhan fwyaf o'r rhain gan swyddogion.

Mae rhestr o'r swyddogaethau trwyddedu a sut y caniateir eu dirprwyo o dan y Ddeddf i'w gweld yn Atodiad 3.

9.2 Y Drefn Apelio

Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth fel y bydd gan ymgeiswyr, trwyddedeion a'r rhai sy'n gwneud sylwadau perthnasol mewn perthynas â cheisiadau i'r Awdurdod Trwyddedu hawl mewn rhai achosion i apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir gan y Cyngor: nodir hyn yn llawnach yn adran 206 y Ddeddf.

Er mwyn gwneud apêl, dylai'r apelydd roi rhybudd i Lys Ynadon Caernarfon, o fewn 21 diwrnod, gan ddechrau ar y diwrnod pan hysbyswyd yr apelydd gan y Cyngor am y penderfyniad yr apelir yn ei erbyn.

Wrth benderfynu'r apêl, gall y Llys:

- wrthod yr apêl;

- roi yn lle'r penderfyniad yr apeliwyd yn ei erbyn, unrhyw benderfyniad arall y gallasai'r Cyngor ei wneud;
- cyfeirio'r achos i'r Cyngor, i ddelio â'r apêl yn unol â chyfarwyddyd y Llys.
- gwneud gorchymyn ynglŷn â chostau.

## 9.3 Cwynion yn erbyn Safleoedd Trwyddedig a Chyfarfodydd Cymrodeddu

Bydd y Cyngor yn ymchwilio i gwynion yn erbyn safleoedd trwyddedig, mewn perthynas â materion sydd a wnelo â'r Amcanion Trwyddedu. I ddechrau, anogir achwynyddion i grybwyll y gŵyn yn uniongyrchol wrth y trwyddedai neu'r busnes dan sylw er mwyn ceisio datrys y mater yn lleol.

Lle bo Buddgyfranogwr wedi gwneud sylwadau dilys ynghylch safle trwyddedig neu gais dilys yn gofyn i Drwydded Safle gael ei hadolygu, gall y Cyngor argymell yn gyntaf fod cyfarfod cymrodeddu yn cael ei gynnal er mwyn rhoi sylw i'r materion sy'n peri pryder a chael goleuni arnynt.

Nid yw argymhelliad o'r fath yn rhwymo unrhyw barti ac ni fydd yn rhagfarnu hawl unrhyw Fuddgyfranogwr i fynnu bod y Cyngor yn ystyried ei sylwadau neu ei gais dilys na hawl unrhyw ddeilydd trwydded i wrthod cymryd rhan mewn cyfarfod cymrodeddu.

## 9.4 Adolygu Trwyddedau

Bydd y Cyngor yn adolygu Trwydded Safle os bydd yn derbyn cais ffurfiol i gynnal adolygiad o'r fath gan Fuddgyfranogwr neu Awdurdod Cyfrifol yn unol â'r Ddeddf.

Gall cais o'r fath (ond nid oes raid iddo) gynnwys sylwadau i'r perwyl bod un neu ragor o'r gweithgareddau a ganlyn wedi cael eu cynnal yn y safle neu yn cael eu cynnal yno:

- defnyddio safle trwyddedig er mwyn gwerthu a dosbarthu cyffuriau Dosbarth A a gwyngalchu elw troseddau yn ymwneud â chyffuriau;
- defnyddio safle trwyddedig i werthu a dosbarthu arfau tanio anghyfreithlon;
- defnyddio safle trwyddedig ar gyfer puteindra neu werthu pornograffi anghyfreithlon;
- defnyddio safle trwyddedig fel canolfan ar gyfer gweithgaredd troseddol a drefnir;
- defnyddio safle trwyddedig i drefnu camdriniaeth neu ymosodiadau hiliol, homoffobig neu rywiol;
- defnyddio safle trwyddedig i werthu tybaco neu nwyddau sydd wedi eu smyglo;
- defnyddio safle trwyddedig i werthu nwyddau sydd wedi eu dwyn a/neu
- weithgareddau a all beri risg i blant a/neu unigolion agored i niwed.

Gall y Cyngor (ond nid oes raid iddo) wrthod cais am adolygiad os yw o'r farn bod un neu ragor o'r isod yn berthnasol:

- bod y sail yn ddisylwedd;
- bod y sail yn flinderus;
- bod y sail yn amherthnasol;
- ei bod yn sicr na fyddai'r sail yn peri i'r Cyngor ddiddymu neu atal trwydded na gosod na thynnu amodau oddi ar y Drwydded Safle;

- bod y sail fwy na heb yr un fath â'r sail a enwyd mewn cais blaenorol mewn perthynas â'r un safle; neu
- bod y sail fwy na heb yr un fath â sylwadau a wnaed pan ystyriwyd y cais am Drwydded Safle.

Gall y Cyngor hefyd ddewis adolygu Trwydded Safle yn ôl ei ddoethineb ei hun.

Unwaith y bydd adolygiad wedi ei gwblhau, mae'n rhaid i'r Cyngor, cyn gynted ag y bo modd, roi gwybod am ei benderfyniad i:

- ddeilydd y drwydded;
- y sawl a wnaeth gais am adolygiad (os yn berthnasol);
- y Comisiwn
- unrhyw unigolyn a wnaeth sylwadau;
- Prif Swyddog yr Heddlu; a
- Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi

9.5 Adnewyddu

Atgoffeir y rhai sy'n dal hawlenni 10 mlynedd ar gyfer hapchwarae mewn clybiau, peiriannau mewn clybiau a chanolfannau adloniant teuluol didrwydded, fod cyfnod adnewyddu'r hawlenni hyn yn dod i fyny o 2017 ymlaen. Cyfrifoldeb deiliaid yr hawlenni yw sicrhau y gwneir cais mewn da bryd.

9.6 Hawlenni hapchwarae mewn clybiau a hawlenni peiriannau mewn clybiau

Ni chaiff yr awdurdod wrthod cais heblaw am un neu ragor o'r rhesymau a ganlyn:

(a) (i) ar gyfer **hawlen hapchwarae mewn clybiau**: nad yw'r ymgeisydd yn glwb aelodau nac yn sefydliad lles glowyr

(ii) ar gyfer **hawlen peiriannau mewn clybiau**: nad yw'r ymgeisydd yn glwb aelodau, sefydliad lles glowyr na chlwb masnachol

(b) bod y safle'n cael ei ddefnyddio'n bennaf gan blant neu bobl ifanc

(c) bod ymgeisydd wedi cyflawni trosedd neu wedi torri un o amodau'r hawlen

(ch) bod hawlen y bu ymgeisydd yn ei dal wedi cael ei chanslo yn ystod y deng mlynedd diwethaf

(d) bod y Comisiwn neu brif swyddog yr heddlu yn lleol wedi mynegi gwrthwynebiad.

Ni chaiff yr awdurdod ganslo hawlen heblaw am un o'r rhesymau a ganlyn:

(a) bod y safle'n cael ei ddefnyddio yn llwyr neu yn bennaf gan blant neu bobl ifanc

(b) bod trosedd wedi ei chyflawni neu y torrwyd un o amodau'r hawlen yn ystod gweithgareddau hapchwarae.

Mae'n rhaid gwneud cais am adnewyddu hawlen yn ystod y cyfnod sy'n dechrau dri mis cyn i'r drwydded ddod i ben ac sy'n gorffen chwe wythnos cyn iddi ddod i ben. Mae'r drefn ar gyfer adnewyddu yr un fath ag ar gyfer gwneud cais. Gall hawlenni a roddwyd fynd yn ddi-rym mewn rhai amgylchiadau a gallant gael eu canslo a'u hamrywio.

Ni chwtogir hyd yr hawlen tra bydd cais am ei hadnewyddu, gan gynnwys apêl yn erbyn penderfyniad i beidio â'i hadnewyddu, yn cael ei ystyried.

Os bydd gan yr ymgeisydd dystysgrif safle clwb ar yr adeg pan adnewyddir hawlen, fe ddilynir y drefn llwybr carlam, fel sy'n digwydd pan ymgeisir am yr hawlen i ddechrau.

## 9.7 Canolfannau Adloniant Teuluol Didrwydded

Mae'n rhaid gwneud cais am adnewyddu hawlen yn ystod y cyfnod sy'n dechrau chwe mis cyn i'r drwydded ddod i ben ac sy'n gorffen dau fis cyn iddi ddod i ben. Mae'r drefn ar gyfer adnewyddu yr un fath ag ar gyfer gwneud cais. Ni chaiff yr awdurdod wrthod adnewyddu hawlen heblaw ar y sail:

- y gwrthodwyd mynediad i un o swyddogion awdurdodedig yr awdurdod lleol i'r safle heb esgus rhesymol
- na fyddai adnewyddu'r hawlen yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu. Yn hyn o beth, bydd y Cyngor wedi manteisio ar ymgynghori â phrif swyddog yr heddlu a bydd yn ymwybodol o unrhyw bryderon sydd wedi codi ynghylch y defnydd o'r safle yn ystod cyfnod yr hawlen.

Ni chwtogir hyd yr hawlen tra bydd cais am ei hadnewyddu, gan gynnwys apêl yn erbyn penderfyniad i beidio â'i hadnewyddu, yn cael ei ystyried.

## 9.8 Hawlenni hapchwarae am wobrau

Mae'n rhaid gwneud cais am adnewyddu hawlen yn ystod y cyfnod sy'n dechrau chwe mis cyn i'r drwydded ddod i ben ac sy'n gorffen dau fis cyn iddi ddod i ben. Mae'r drefn ar gyfer adnewyddu yr un fath ag ar gyfer gwneud cais.

Ni fydd hawlen yn peidio â bod yn ddilys tra bydd cais am ei hadnewyddu, gan gynnwys apêl yn erbyn penderfyniad i beidio â'i hadnewyddu, yn cael ei ystyried.

## 10 Datganiad ynghylch penderfyniadau am gasinos

Nid oes ar hyn o bryd unrhyw gasino'n gweithredu o fewn y Sir.

Mae trwyddedu casinos newydd yn cael ei reoleiddio gan y Ddeddf a'r rheoliadau perthnasol iddi. Nid yw'r Cyngor yn un o'r Awdurdodau Trwyddedu sydd â phwerau i roi Trwyddedau Safle ar gyfer casinos.

Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn rhoi disgresiwn i bob Awdurdod Trwyddedu gyhoeddi penderfyniad i beidio â rhoi trwyddedau safle ar gyfer casinos.

Nid yw'r Cyngor ar hyn o bryd wedi gwneud penderfyniad o'r fath i wahardd casinos.

Bydd y Cyngor yn parhau i adolygu mater Trwyddedau Safle ar gyfer casinos ac fe all newid ei bolisi mewn perthynas â hyn fel y gwêl yn dda. Os digwydd hynny, bydd y Cyngor yn ufuddhau i'r gyfraith berthnasol ac yn rhoi sylw i ganllawiau swyddogol perthnasol.

## 11 Cyfundrefnau rheoliadol eraill

Wrth ystyried materion mewn perthynas â'r polisi hwn, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ceisio osgoi dyblygu â chyfundrefnau rheoliadol eraill hyd y bo modd. Lle bo cyfundrefnau rheoliadol eraill yn bodoli, ni fydd y polisi hwn yn ceisio gosod unrhyw amod a fyddai'n dyblygu gofynion deddfwriaethol eraill. Yn yr un modd, pan benderfynir ar geisiadau neu apeliadau, fe roddir ystyriaeth i'r Ddeddf a ffactorau perthnasol y manylir arnynt yn y polisi hwn.

## 12 Y galw am safleoedd hapchwarae

Bydd pob cais am drwydded safle hapchwarae yn cael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod. Ni fydd ystyried y galw disgwyliedig am safleoedd hapchwarae yn ffactor berthnasol wrth benderfynu ar y cais, yn unol ag adran 153 y Ddeddf.

## 13 Gwybodaeth Ychwanegol

Mewn perthynas ag unrhyw wrthwynebiad i roi trwydded safle newydd, neu geisiadau am adolygu trwydded sy'n bodoli eisoes, dylai unrhyw wrthwynebiad fod yn seiliedig ar y tri amcan trwyddedu allweddol yn y Ddeddf:

- rhwystro gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd ac anhrefn, rhag bod yn gysylltiedig â throsedd ac anhrefn, a rhag cael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd;
- sicrhau bod gamblo'n cael ei gynnal yn deg ac yn agored; ac
- amddiffyn plant ac unigolion eraill sy'n agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio oherwydd gamblo.

Ni fydd unrhyw wrthwynebiad nad yw'n ymwneud â'r amcanion uchod yn cael ei ystyried yn wrthwynebiad perthnasol.

## 14 Asesiadau Risg Lleol

Mae'r Amodau Trwyddedu a Chodau Ymarfer yn mynnu bod gweithredwyr gamblo (h.y. gweithredwyr canolfannau hapchwarae i oedolion, safleoedd bingo, canolfannau adloniant teuluol, siopau betio a chyfryngwyr betio o bell) yn asesu'r risgiau lleol i'r Amcanion Trwyddedu, sy'n cael eu peri drwy ddarparu cyfleusterau gamblo ym mhob safle o'u heiddo, ac yn sicrhau bod ganddynt bolisïau, gweithdrefnau a mesurau rheoli yn eu lle i liniaru'r risgiau hynny.

Dylid adolygu a diweddaru'r asesiadau risg hyn:

- er mwyn rhoi ystyriaeth i newidiadau sylweddol yn yr amgylchiadau yn lleol, gan gynnwys yr amgylchiadau hynny a nodir yn natganiad polisi trwyddedu yr awdurdod;
- pan fydd newidiadau sylweddol yn safle trwyddedai, a all effeithio ar yr hyn a wnânt i liniaru risgiau lleol; a
- phan wneir cais am amrywio trwydded safle.

Mae'n rhaid i weithredwr gynnal asesiad risg lleol pan fydd yn gwneud cais am drwydded safle newydd.

Mae'n ofynnol i weithredwyr sicrhau bod yr asesiad risg ar gael i awdurdodau trwyddedu pan gyflwynir cais ar gyfer Trwydded Safle newydd neu ar gyfer amrywio Trwydded Safle, neu ar unrhyw adeg pan ofynnir amdano. Bydd yr asesiad risg yn rhan o drefn archwilio'r Cyngor ac efallai y gofynnir amdano pan fydd swyddogion yn edrych i mewn i gwynion. Bydd angen cadw copi o'r asesiad risg lleol ar y safle.

Mae'r Cyngor yn disgwyl i weithredwyr ystyried y materion isod wrth baratoi eu hasesiad risg.

- gwybodaeth a gedwir gan y trwyddedai ynghylch hunan-eithrio ac achosion o gamblo o dan oed;
- tueddiadau hapchwarae a allai olygu bod budd-daliadau'n cael eu gwario;
- trefnu i gyfnewid gwybodaeth yn lleol ynghylch hunan-eithrio a thueddiadau hapchwarae;
- lleoliad trefol, megis agosrwydd i ysgolion, yr amgylchedd masnachol, ffactorau arbennig sy'n effeithio ar nifer y bobl sy'n mynd heibio;
- yr amrywiaeth o gyfleusterau sydd yn ymyl y safle trwyddedig, megis safleoedd hapchwarae eraill, banciau, swyddfeydd post, a chyfleusterau lluniaeth ac adloniant;
- Problemau hysbys yn yr ardal, megis problemau sy'n deillio o bobl yn yfed ar y stryd, ieuenctid, pobl yn ymddwyn yn wrth-gymdeithasol, gweithgareddau delio mewn cyffuriau ac ati;

materion cysylltiedig â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys:

- unrhyw sefydliadau, mannau neu ardaloedd lle dylid disgwyl i blant a phobl ifanc fod yn bresennol, megis ysgolion, clybiau ieuenctid, parciau, mannau chwarae a lleoliadau adloniant megis alïau bowlio, sinemâu ac ati;
- unrhyw safleoedd lle mae plant yn ymgynnull, gan gynnwys arosfannau bws, caffis, siopau, ac unrhyw le arall y denir plant iddo;
- unrhyw fannau lle mae tuedd i bobl ifanc ymddwyn yn wrth-gymdeithasol, gan gynnwys gweithgareddau fel graffiti, yfed o dan oed, ac ati; ac
- achosion a gofnodwyd o bobl o dan oed yn ceisio gamblo dan oed, neu wybodaeth sydd gan y trwyddedai ynglŷn â hynny;

materion cysylltiedig ag oedolion agored i niwed, gan gynnwys:

- gwybodaeth a gedwir gan y trwyddedai ynghylch hunan-eithrio
- tueddiadau gamblo a allai fynd law yn llaw â dyddiadau taliadau ariannol, fel diwrnodau talu neu daliadau budd-dal
- unrhyw drefniant i gyfnewid gwybodaeth yn lleol ynghylch hunan-eithrio a thueddiadau gamblo; ac
- agosrwydd safleoedd a allai gael eu mynychu gan bobl agored i niwed e.e. ysbytai, cartrefi gofal preswyl, cyfleusterau meddygol, meddygfeydd, swyddfeydd tai cyngor, clinigau cyflyrau caeth neu ganolfannau cymorth, mannau lle gallai pobl sy'n ddibynnol ar alcohol neu gyffuriau ymgynnull, ac ati;

a

- ffactorau eraill a all fod yn berthnasol gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) faterion ffydd perthynol i unrhyw grefydd neu ffydd, gan gynnwys agosrwydd at eglwysi, mosgiau, temlau neu unrhyw fan addoli arall.

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr a dylid ystyried hefyd ffactorau perthnasol eraill nad ydynt i'w gweld yn y rhestr hon.

14.1 Asesiadau Risg – Mesurau Rheoli

Gall mesurau rheoli i liniaru risg tybiedig olygu cyfuniad o systemau, dyluniad a mesurau corfforol. Bydd mesurau rheoli priodol yn cael eu hasesu fesul achos yn ôl teilyngdod arbennig y mesurau bwriedig yng nghyd-destun yr amgylchiadau dan sylw.

Er enghraifft, er mwyn rhoi sylw i'r ffactorau risg o ran plant yn cael mynediad i safle gamblo sydd wedi'i gyfyngu i bobl dros 18 oed, efallai y byddai'r gweithredwr yn nodi'r mesurau a ganlyn:


- **Systemau:** polisïau ar gyfer cardiau PASS neu drefn gwirio oed, cynllun herio 25, a hyfforddi staff
- **Dyluniad**: Dyluniad allanol na fydd yn denu plant i'r safle, cynllun y fynedfa yn galluogi staff i fonitro pwy sy'n dod i mewn i'r safle a'u herio ynghylch eu hoed pan fo'n briodol.
- **Corfforol**: teledu cylch cyfyng a synwyryddion electronig

## 15 Declarasiwn

Darparwyd y Datganiad hwn o Bolisi Trwyddedu (Polisi Gamblo) gan roi sylw dyledus i'r amcanion trwyddedu yn y Ddeddf, y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo a'r ymatebion a dderbyniwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â hwy ynghylch y polisi.

## 16 Atodiadau

### Atodiad 1 Map o Ardal Cyngor Sir Ynys Môn



**Atodiad 2 Y rhai yr ymgynghorwyd â hwy**

- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn
- Cynghorau Tref a Chymuned Ynys Môn
- Cymdeithas Bwcis Prydain
- Y Gymdeithas Bingo
- Cymdeithas Masnach Arlwyo Adloniant Prydain,
- Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain
- Cymdeithas Parciau Gwyliau a Chartref Prydain
- Cyngor ar Bopeth
- Done Brothers
- Gamble Aware
- Y Comisiwn Gamblo
- GamCare
- Bwrdd Lleol Diogelu Plant Gwynedd a Môn
- Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
- Iechyd yr Amgylchedd, Cyngor Sir Ynys Môn
- Gwasanaeth Cynllunio Cyngor Sir Ynys Môn
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Heddlu Gogledd Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- William Hill

## Atodiad 3 Cynllun dirprwyo

| MATER I'W DRAFOD | CYNGOR LLAWN | IS-BWYLLGOR NEU BANEL | SWYDDOGION |
|---|---|---|---|
| Polisi trwyddedu tair blynedd | X | | |
| Polisi i beidio â chaniatáu casinos | X | | |
| Gosod ffioedd – pan yn addas | | Pwyllgor Gwaith | |
| Cais am drwydded eiddo | | Pan dderbynnir sylwadau sydd heb eu tynnu'n ôl | Pan na dderbynnir sylwadau neu eu bod wedi'u tynnu'n ôl |
| Cais am amrywio trwydded | | Pan dderbynnir sylwadau sydd heb eu tynnu'n ôl | Pan na dderbynnir sylwadau neu eu bod wedi'u tynnu'n ôl |
| Cais am drosglwyddo trwydded | | Pan dderbynnir sylwadau gan y Comisiwn | Pan na dderbynnir sylwadau gan y Comisiwn |
| Cais am drwydded dros dro | | Pan dderbynnir sylwadau sydd heb eu tynnu'n ôl | Pan na dderbynnir sylwadau neu eu bod wedi'u tynnu'n ôl |
| Adolygu trwydded eiddo | | X | |
| Cais am hawlenni peiriannau/clybiau hapchwarae | | Pan dderbynnir sylwadau sydd heb eu tynnu'n ôl | Pan na dderbynnir sylwadau neu eu bod wedi'u tynnu'n ôl |
| Diddymu hawlenni peiriannau/clybiau hapchwarae | | X | |
| Ceisiadau am hawlenni eraill | | | X |
| Diddymu hawlenni peiriant hapchwarae eiddo trwyddedig | | | X |
| Ystyried hysbysiadau defnydd dros dro | | | X |
| Penderfynu rhoi gwrth-hysbysiad i hysbysiad defnydd dros dro | | X | |
| Penderfynu a yw unigolyn yn fuddgyfranogwr | | | X |
| Penderfynu a yw sylwadau yn berthnasol | | | X |
| Penderfynu a yw sylwadau yn ddisylwedd, yn flinderus neu'n ailadroddus | | | X |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad:** | **27 Tachwedd, 2018** |
| **Teitl:** | **Gwe-ddarlledu** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Ystyried yr opsiynau ar gyfer ymestyn y ddarpariaeth gwe-ddarlledu i gynnwys pwyllgorau sgriwtini ac i wneud argymhelliad i'r Cyngor.** |
| **Awdur:** | **Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd** |

## 1.0 Cefndir

Paratowyd yr adroddiad hwn mewn ymateb i benderfyniad gan y Cyngor Sir ar 28 Medi 2018 i gyfeirio'r Rhybudd o Gynnig i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac i roi cyfle i'r Pwyllgor wneud argymhelliad i'r Cyngor:

*"Dylid newid Cyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn er mwyn galluogi'r ddau Bwyllgor Sgriwtini i gael eu gweddarlledu."*

Ers Mehefin 2014, mae Cyfarfodydd y Cyngor Sir, y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a'r Pwyllgor Gwaith wedi cael eu gweddarlledu gydag adroddiadau yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor hwn.

Nid yw gweddarlledu yn ofyniad deddfwriaethol ar hyn o bryd ond mae'n cael ei gefnogi'n gryf gan Lywodraeth Cymru ac mae'n gysylltiedig â'r darpariaethau ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 o gryfhau democratiaeth leol ac ymgysylltiad cymunedol o ran sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymestyn allan ac yn ymgysylltu â phob carfan o'r gymuned y maent yn eu gwasanaethu.

Ar hyn o bryd, mae offer gwe-ddarlledu'r Cyngor wedi'i leoli yn Siambr y Cyngor ac mae'r contract presennol yn caniatáu 40 awr o ddarlledu'r flwyddyn er mwyn gallu darlledu'r cyfarfodydd y cyfeirir atynt uchod. Mae hyn hefyd yn darparu ar gyfer prydlesu'r holl galedwedd a meddalwedd, diweddariadau a gwaith cynnal a chadw. Mae'r contract presennol yn dod i ben ym Mawrth 2021 ac mae'r costau tua £12,000 y flwyddyn ar hyn o bryd.

Mae arferion presennol o ran gwe-ddarlledu cyfarfodydd yn amrywio o Gyngor i Gyngor - bydd y rhan fwyaf o Gynghorau yn gwe-ddarlledu cyfuniad o gyfarfodydd y Cyngor, Cynllunio, Cabinet a rhai neu'r holl Bwyllgorau Sgriwtini lle mae mwyaf o ddiddordeb i'r cyhoedd. Mae'r sefyllfa ledled Gogledd Cymru wedi ei chrynhoi yn Atodiad 1.

**Materion i'w hystyried**

Er y byddai ymestyn y ddarpariaeth gwe-ddarlledu i gynnwys pwyllgorau Sgriwtini o bosib yn rhai'r Cyngor mewn gwell sefyllfa i allu bodloni ei ymrwymiad statudol i weddarlledu cyfarfodydd, rhywbeth y gellid ei gyflwyno yn y dyfodol, mae angen tynnu sylw at rai materion penodol ac ystyriaethau ymarferol:

**Defnydd o Siambr y Cyngor ac Ystafelloedd Pwyllgor at ddibenion Gwe-ddarlledu**

Ar lefel ymarferol, mae’r offer gwe-ddarlledu wedi’i osod yn Siambr y Cyngor yn unig. Byddai angen cynnal Cyfarfodydd Sgriwtini yn y Siambr at ddibenion gwe-ddarlledu gan nad oes unrhyw bosibilrwydd o newid y gosodiad a’r cynllun seddi. Gall ystyriaethau ymarferol fel hyn gael eu hystyried yn Ystafell Bwyllgor 1 a 2 sef y gosodiad a ffafrir ar gyfer cynnal Cyfarfodydd Sgriwtini ac a adlewyrchir yn yr arferion presennol.

Fodd bynnag, mae opsiwn posibl i ddefnyddio offer gwe-ddarlledu symudol yn Ystafelloedd Pwyllgor 1 a 2 ond byddai costau ychwanegol bob blwyddyn o logi offer a fyddai yn ei hun yn £10,000 gan ddibynnu ar y defnydd. Mae costau o’r fath yn cael eu codi fesul awr a bydd goblygiadau ar amser staff hefyd ac fe gyfeirir at y pethau hynny isod. Does dim darpariaeth yn y gyllideb ar gyfer y gwariant hwn a byddai angen rhoi ystyriaeth bellach i’r elfennau technegol.

**Nifer y cyfarfodydd**

Ystyriaeth arall yw nifer y Pwyllgorau Sgriwtini a gynhelir bob blwyddyn yng Nghalendr y Cyngor ynghyd â’r cyfarfodydd Sgriwtini Arbennig. Mae 15 cyfarfod o’r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ac 8 cyfarfod o’r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio eisoes yn y dyddiadur ar gyfer 2018/19 – mae hyn yn cynnwys nifer o gyfarfodydd arbennig.

Felly, at ddibenion amcangyfrif costau, yn seiliedig ar 23 Pwyllgor Sgriwtini yn ystod y flwyddyn ariannol hon a chan gymryd bod cyfarfodydd yn para hyd at 3 awr ar gyfartaledd, rhagwelir y byddai angen darlledu 69 awr ychwanegol ar ben y 40 awr y mae cytundeb ar ei gyfer. Mae costau arwyddol, yn seiliedig ar gost yr awr, yn debygol o olygu costau ychwanegol o tua £3,000 y flwyddyn, ar ben costau presennol. Does dim darpariaeth yn y gyllideb ar gyfer y costau ychwanegol.

**Pwysau ar amser staff**

Mae hefyd angen i Aelodau gydnabod y byddai mwy o bwysau ar amser staff i reoli’r offer gwe-ddarlledu petai penderfyniad yn cael ei wneud i ymestyn y trefniadau presennol. Staff y Gwasanaethau Democrataidd sy’n gyfrifol am sicrhau bod yr offer gwe-ddarlledu yn gweithio’n iawn yn ystod cyfarfodydd. Mae hyn yn cynnwys cysylltu’r offer cyn dechrau’r cyfarfod, profi’r offer a chyhoeddi ac archifo ar ôl y cyfarfodydd. Mae hyn yn bwysau ychwanegol ar amser staff y tu hwnt i’r cyfnod gwe-ddarlledu hefyd. Byddai hyn ar adeg pan fyddai pwysau eraill yn cystadlu o ran yr angen i ddarparu gwasanaethau a’r angen hefyd i gyflawni arbedion ariannol o fewn y gwasanaeth. Gan ystyried nifer y cyfarfodydd o’r Pwyllgor Sgriwtini yn y calendr yn ystod y flwyddyn ariannol hon, amcangyfrifir y byddai hyn gyfystyr â £3,500 o ran amser y staff y byddai eu hangen i reoli’r offer.

I grynhoi, mae ystyriaethau ymarferol ac ariannol ynghlwm wrth ymestyn y ddarpariaeth gwe-ddarlledu a does dim darpariaeth yn y gyllideb ar hyn o

bryd er mwyn talu am y costau ychwanegol a nodir uchod gan gynnwys offer symudol at ddibenion cynnal cyfarfodydd yn Ystafell bwyllgor 1. Mae angen ystyried hyn yng nghyd-destun cyllideb y Cyngor a'r arbedion angenrheidiol.

Yn seiliedig ar y wybodaeth yn yr adroddiad, cyflwynir yr opsiynau canlynol er mwyn galluogi'r Pwyllgor i wneud argymhelliad i'r Cyngor ar 11 Rhagfyr, 2018:

## 2.0 Argymhellion

i) Ystyried a ddylid argymell dim newid i'r trefniadau presennol ar gyfer gwe-ddarlledu neu gefnogi'r galw i weddarlledu Cyfarfodydd Sgriwtini gan ystyried y materion cyllido, y defnydd o'r ystafelloedd Pwyllgor a'r gofynion ar amser staff yr Adran Gwasanaethau Democrataidd.

ii) Os cefnogir yr egwyddor o ymestyn y ddarpariaeth gwe-ddarlledu, ystyried cynllun peilot i ddarlledu nifer penodol (hyd at 4) Pwyllgor Sgriwtini yn ystod 2019/20 - cyfarfodydd sydd o fwyaf o ddiddordeb i'r cyhoedd e.e. cynigion blynyddol ar y gyllideb. Trefniadau i'w cytuno arnynt gan Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion y fforwm Sgriwtini mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**7 Tachwedd, 2018**

**Atodiad 1**

**Nifer a Math o Gyfarfodydd**
**Rhagfyr 2017 - Mai 2018**

| Cyngor | Gwe-ddarlledu Cyfarfodydd |
|---|---|
| **Conwy** | Cyngor<br>Cabinet<br>Cynllunio<br>Sgriwtini |
| **Sir Ddinbych** | Cyngor<br>Cabinet<br>Cynllunio<br>Sgriwtini |
| **Sir Fflint** | Cyngor<br>Cynllunio |
| **Gwynedd** | Cyngor<br>Cabinet<br>Cynllunio<br>Sgriwtini |
| **Wrexham** | Cyngor<br>Cabinet<br>Cynllunio<br>Sgriwtini |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad:** | **27 Tachwedd, 2018** |
| **Teitl:** | **Cyfraniad y cyhoedd i gyfarfodydd** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Er mwyn gwneud argymhelliad I'r Cyngor** |
| **Awdur:** | **Pennaeth Gwasanaethau Democratiadd** |

## 1.0 Cefndir

Penderfynodd y Cyngor Sir ar 25 Medi i gyfeirio'r Rhybudd o Gynigiad canlynol i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer ei ystyried:

**""Dylid diwygio Cyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn i ganiatáu i rybuddion o gynigiad sydd wedi cael eu cyflwyno gan aelodau'r cyhoedd a'u cefnogi gyda llofnodion 50 o unigolion sy'n byw yn Ynys Môn gael eu trafod mewn cyfarfodydd o'r Cyngor llawn."**

Mae'r cynnig hwn yn delio â chynnig a godir gan y cyhoedd lle mae'n cael ei gefnogi gan 50 o unigolion eraill a gofynnir i'r Pwyllgor hwn ystyried yr arsylwadau canlynol:

Nid yw Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor (paragraff 4.1 y Cyfansoddiad) yn cynnwys darpariaeth i rybuddion o gynigion gael eu cyflwyno gan aelodau o'r cyhoedd.

Mae'r Cyfansoddiad yn cynnwys darpariaeth i Aelodau gyflwyno cwestiynau (4.1.12) a chynigion (4.1.13 a 4.1.14)

Mae yna hefyd ddarpariaeth i'r Cyngor Sir dderbyn deisebau, gan Aelodau ar ran y cyhoedd (4.1.11) a bydd unrhyw rai a dderbynnir yn y ffordd hon yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor perthnasol neu'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer ystyriaeth, Mewn amgylchiadau lle nad yw cynnwys y ddeiseb yn ymwneud â mater sydd eisoes ar yr agenda o'r cyfarfod cyffredin hwnnw o'r Cyngor.

Mae Aelodau Etholedig yn gallu codi cwestiynau, cyflwyno rhybudd o gynigiad a chyflwyno deisebau i gyfarfodydd y Cyngor a gyflwynir iddynt gan aelodau o'r cyhoedd.

Mae ymholiadau wedi eu gwneud ag Awdurdodau eraill yng Nghymru er mwyn gweld pa ddarpariaeth sy'n bodoli yn eu Cyfansoddiadau er mwyn galluogi'r cyhoedd i gyflwyno rhybuddion o gynnig. O'r ymatebion a dderbyniwyd, mae pob un wedi cadarnhau nad oes trefniadau yn bodoli i'r cyhoedd gyflwyno rhybuddion o gynigiad. Does dim un o awdurdodau Gogledd Cymru yn caniatáu i'r cyhoedd gyflwyno rhybuddion o gynigiad, ar wahân i Aelodau Etholedig.

Safbwynt y Swyddog Monitro yw nad oes darpariaeth o'r fath yn bodoli gan nad oes gan aelodau o'r cyhoedd unrhyw statws cyfreithiol i gyflwyno rhybudd o gynigiad i'r Cyngor llawn yn uniongyrchol ar gyfer eu trafod, disgwylir i Aelodau Etholedig gynrychioli eu safbwyntiau ac i gyflwyno rhybuddion/cwestiynau a deisebau ar eu rhan, yn cynnwys ar eu cais penodol.

Fodd bynnag, nodir fod gan rai o Awdurdodau Gogledd Cymru ddarpariaeth sy'n galluogi aelodau o'r cyhoedd i godi cwestiynau mewn cyfarfodydd o'r Cyngor, yn amodol ar feini prawf penodol yn cael eu bodloni, er enghraifft mae hyn yn bodoli yng Nghyngor Sir y Fflint (gweler Atodiad 1) a Chyngor Sir Ddinbych (Gweler Atodiad 2).

Eglurodd rhai o Awdurdodau Gogledd Cymru sydd â'r ddarpariaeth i aelodau o'r cyhoedd godi cwestiynau yng nghyfarfodydd y Cyngor nad oedd yr hawl hon erioed wedi ei defnyddio. Ar y sail hwn, mae'n deg ystyried y byddai presenoldeb hawl o'r fath yn y cyfansoddiad yn cael canlyniadau cyfyngedig; os mai'r bwriad yw cynyddu cyfranogiad y cyhoedd mewn cyfarfodydd o'r Cyngor.

Yn seiliedig ar y wybodaeth yn yr adroddiad hwn fe gyflwynir yr opsiynau canlynol er mwyn galluogi'r Pwyllgor i wneud argymhellion i'r Cyngor Llawn ar 11 Rhagfyr, 2018.

## 2.0 Argymhellion:

1. Un ai parhau â'r sefyllfa fel y mae hi neu

2. Rhoi cyfarwyddiadau i Swyddogion greu cynllun sy'n galluogi aelodau o'r cyhoedd i gyflwyno cwestiynau ysgrifenedig cyn cyfarfodydd o'r Cyngor llawn; unrhyw gynllun o'r fath wedyn i'w ystyried yn gyntaf gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac yna gan y Pwyllgor Gwaith cyn i unrhyw newidiadau terfynol i'r cyfansoddiad gael ei cadarnhau (neu eu gwrthod) gan y Cyngor Llawn.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**14 Tachwedd, 2018**

**Atodiad 1**

**Cyngor Sir y Fflint –** Trefniadau Siarad Cyhoeddus yn y Cyngor Llawn

Cyfyngir cwestiynau i faterion yn ymwneud â Sir y Fflint a / neu’r Gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor.

Gall unigolyn ond cyflwyno un cwestiwn ar gyfer ei ystyried mewn unrhyw Gyfnod Cwestiynau Cyhoeddus ond caniateir un cwestiwn atodol ym mhob achos.

Ni dderbynnir cwestiynau sy’n gysylltiedig â:-

- Materion barnwrol neu led-farnwrol
- Materion sydd o dan ymchwiliad
- Materion Cynllunio unigol neu geisiadau neu apeliadau am drwydded neu grant
- Swyddog penodol neu Aelod o’r Cyngor
- Gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth a ddisgrifir yn y Rheolau Mynediad i Wybodaeth neu wybodaeth sydd angen ei datgelu
- Materion gwleidyddol
- Deunydd difrïol
- Mwy neu lai'r un mater fel cwestiwn a drafodwyd o fewn y 6 mis diwethaf. Ni dderbynnir cwestiynau gan Aelodau na Gweithwyr y Cyngor.

Rhaid cyflwyno cwestiynau yn ysgrifenedig a rhaid eu derbyn dim hwyrach na hanner dydd ar y seithfed diwrnod cyn y Sesiwn Gwestiynau.

**Atodiad 2**

**Cyngor Sir Ddinbych** – *Wedi'i atodi mae rhan o'r cyfansoddiad ar y mater hwn:*

4.18 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

4.18.1 Cyffredinol

(a) Gall aelodau o'r cyhoedd ofyn cwestiynau i Aelodau o'r Cabinet mewn cyfarfodydd cyffredin o'r Cyngor.
(b) Dylai'r cyfanswm amser a ddyrannwyd ar gyfer cwestiynau gan y cyhoedd gael ei gyfyngu i 30 munud.

4.18.2 Trefn Cwestiynau

Bydd cwestiynau yn cael eu gofyn yn nhrefn eu derbyn, ac eithrio pan fydd y Cadeirydd yn cynnwys cwestiynau tebyg mewn grŵp.

4.18.3 Rhybudd o Gwestiynau

Gofynnir cwestiwn os rhoddwyd rhybudd yn unig drwy ei gyflwyno yn ysgrifenedig neu yn electronig i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd dim hwyrach na hanner dydd dau ddiwrnod gwaith cyn diwrnod y cyfarfod. Mae'n rhaid i bob cwestiwn gynnwys enw a chyfeiriad y sawl sy'n gofyn y cwestiwn.

4.18.4 Nifer y Cwestiynau

Ni all unrhyw un gyflwyno mwy nag un cwestiwn ac ni ellir gofyn mwy nag un cwestiwn ar ran un sefydliad.

4.18.5 Cwmpas Cwestiynau

Gall y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd wrthod cwestiwn os:

(a) nad yw'n ymwneud â mater sy'n gyfrifoldeb y Cyngor neu sy'n effeithio ar y Cyngor;
(b) yn ddifenwol, ddisylwedd neu'n fygythiol;
(c) yn debyg iawn i gwestiwn a ofynnwyd mewn cyfarfod o'r Cyngor yn y chwe mis diwethaf;
(d) angen datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wedi'i heithrio.

4.18.6 Cofnod o Gwestiynau

(a) Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd yn cadw cofnod sy'n agored i'r cyhoedd i'w archwilio ac yn anfon copi o'r cwestiwn yn uniongyrchol i'r Cynghorydd y mae ar ei gyfer. Bydd cwestiynau a wrthodwyd yn cynnwys rhesymau dros wrthod.
(b) Bydd copïau o bob cwestiwn yn cael eu dosbarthu i'r holl Gynghorwyr a byddant ar gael i'r cyhoedd sy'n mynychu'r cyfarfod.

4.18.7 Gofyn y Cwestiwn yn y Cyfarfod

Bydd y Cadeirydd yn gwahodd y sawl sy'n gofyn y cwestiwn i'r Cynghorydd a enwyd yn yr hysbysiad. Os bydd y sawl sy'n gofyn y cwestiwn a anfonwyd yn ysgrifenedig yn methu bod yn bresennol, gallant ofyn i'r Cadeirydd ofyn y cwestiwn ar eu rhan. Gall y Cadeirydd ofyn y cwestiwn ar ran y sawl a anfonodd y cwestiwn, gan nodi y rhoddir ymateb ysgrifenedig neu benderfynu yn absenoldeb y sawl a anfonodd y cwestiwn, na fyddant yn rhoi sylw i'r cwestiwn.

4.18.8 Cwestiwn Atodol

Gall rhywun sy'n gofyn cwestiwn sydd wedi cyflwyno'r cwestiwn yn bersonol hefyd gynnwys un cwestiwn atodol heb rybudd i'r Cynghorydd sydd wedi ymateb i'w g/chwestiwn gwreiddiol. Mae'n rhaid i gwestiwn atodol godi'n uniongyrchol o'r cwestiwn gwreiddiol neu'r ymateb. Gall y Cadeirydd wrthod cwestiwn atodol ar unrhyw sail yn Rheol 4.18.5 uchod.

4.18.9 Atebion Ysgrifenedig

Bydd unrhyw gwestiwn na ellir delio ag ef yn ystod cyfnod cwestiynau gan y cyhoedd, naill ai oherwydd diffyg amser neu oherwydd nad yw'r Cynghorydd y gofynnwyd y cwestiwn iddo yn bresennol, yn derbyn ateb yn ysgrifenedig.

4.18.10 Cyfeirio Cwestiwn i'r Cabinet neu i Bwyllgor

Oni bai bod y Cadeirydd yn penderfynu fel arall, ni chynhelir trafodaeth ar unrhyw gwestiwn, ond gall unrhyw Aelod gynnig bod unrhyw fater a godwyd gan gwestiwn yn cael ei gyfeirio i'r Cabinet neu'r pwyllgor neu is-bwyllgor priodol. Ar ôl cael ei eilio, bydd pleidlais ar gynnig heb drafodaeth.

This page is intentionally left blank